# Dogfen ir Cyhoedd

Mr Dylan Williams
Prif Weithredwr – Chief Executive

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| RHYBUDD O GYFARFOD | | NOTICE OF MEETING |
|---|---|---|
| **PWYLLGOR GWAITH** | | **THE EXECUTIVE** |
| **DYDD MAWRTH 21 MAWRTH 2023 10.00 o'r gloch** | | **TUESDAY 21 MARCH 2023 10.00 am** |
| **CYFARFOD HYBRID – YN SIAMBR Y CYNGOR AC YN RHITHWIR** | | **HYBRID MEETING – VIRTUAL AND IN THE COUNCIL CHAMBER** |
| Swyddog Pwyllgor | **Ann Holmes 01248 752518** | Committee Officer |

**AELODAU/MEMBERS**

**Plaid Cymru/The Party of Wales**

Neville Evans, Carwyn E Jones, Llinos Medi, Gary Pritchard, Alun Roberts, Nicola Roberts, Robin Wyn Williams

**Y Grŵp Annibynnol/The Independent Group**

Dafydd Rhys Thomas, Ieuan Williams

COPI ER GWYBODAETH / COPY FOR INFORMATION

I Aelodau'r Cyngor Sir / To the Members of the County Council

Bydd aelod sydd ddim ar y Pwyllgor Gwaith yn cael gwahoddiad i'r cyfarfod i siarad (ond nid i bleidleisio) os ydy o/hi wedi gofyn am gael rhoddi eitem ar y rhaglen dan Reolau Gweithdrefn y Pwyllgor Gwaith. Efallai bydd y Pwyllgor Gwaith yn ystyried ceisiadau gan aelodau sydd ddim ar y Pwyllgor Gwaith i siarad ar faterion eraill.

A non-Executive member will be invited to the meeting and may speak (but not vote) during the meeting, if he/she has requested the item to be placed on the agenda under the Executive Procedure Rules. Requests by non-Executive members to speak on other matters may be considered at the discretion of The Executive.

***Nodwch os gwelwch yn dda fod cyfarfodydd y Pwyllgor yn cael eu ffrydio ar gyfer eu darlledu'n fyw a'u darlledu ar wefan y Cyngor. Mae'r Awdudrod yn Rheolydd Data dan y Ddeddf Diogelu Data a bydd data a gesglir yn ystod y ffrydio byw hwn yn cael ei gadw'n unol â pholisi cytunedig yr Awdurdod***

## R H A G L E N

1 **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan Aelod neu Swyddog mewn perthynas ag unrhyw eitem o fusnes.

2 **MATERION BRYS ARDYSTIWYD GAN Y PRIF WEITHREDWR NEU EI SWYDDOG APWYNTIEDIG**

Dim materion brys ar adeg anfon y rhaglen hon.

3 **COFNODION** (Tudalennau 1 - 16)

Cyflwyno i'w cadarnhau, gofnodion drafft cyfarfod y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 2 Mawrth 2023.

4 **BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH** (Tudalennau 17 - 28)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Democratiaeth.

5 **MONITRO'R CERDYN SGORIO – CHWARTER 3, 2022/23** (Tudalennau 29 - 42)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Proffesiwn - AD a Thrawsnewid.

6 **ADRODDIAD CYNNYDD: GWELLIANNAU YM MAES GWASANAETHAU CYMDEITHASOL** (Tudalennau 43 - 50)

Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol.

7 **MODERNEIDDIO YSGOLION MÔN – SYMUD DYDDIAD GWEITHREDU'R RHYBUDD STATUDOL AR GYFER YSGOL Y GRAIG AC YSGOL TALWRN** (Tudalennau 51 - 56)

Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc.

8 **STRATEGAETH MODERNEIDDIO CYMUNEDAU DYSGU A DATBLYGU'R GYMRAEG** (Tudalennau 57 - 88)

Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc.

9 **CYNLLUN BUSNES Y CYFRIF REFENIW TAI 2023-2053** (Tudalennau 89 - 122)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Tai.

10 **CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD** (Tudalennau 123 - 126)

Ystyried mabwysiadu'r isod:-

“O dan Adran 100 (A) (4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, cau allan y Wasg a’r cyhoedd o’r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol ar y sail y gall olygu datgelu gwybodaeth eithriedig fel y’i diffinnir yn Atodlen 12A o’r Ddeddf honno ac yn y Prawf Budd y Cyhoedd amgaeëdig.”

**11** **CAIS CYMHLETH AM GRANT CYFLEUSTERAU I’R ANABL** (Tudalennau 127 - 134)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Tai.

This page is intentionally left blank

# Y PWYLLGOR GWAITH

## Cofnodion y cyfarfod hybrid a gynhaliwyd ar 2 Mawrth, 2023

| | |
|---|---|
| **PRESENNOL:** | Y Cynghorydd Ieuan Williams (Cadeirydd)<br><br>Cynghorwyr Llinos Medi (Arweinydd), Alun Roberts, Nicola Roberts, Robin Williams |
| **WRTH LAW:** | Prif Weithredwr<br>Dirprwy Brif Weithredwr<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Cyngor Busnes)/Swyddog Monitro<br>Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol<br>Pennaeth Gwasanaethau Oedolion<br>Pennaeth y Gwasanaethau Tai<br>Rheolwr Rhaglen Cynllunio Busnes a Pherfformiad (GM)<br>Cyfreithiwr (Llywodraethu Corfforaethol a Chontractau)<br>Swyddog Pwyllgor (ATH) |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Cynghorwyr Carwyn Jones, Gary Pritchard a Dafydd Rhys Thomas |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Cynghorwyr Glyn Haynes, Dyfed Wyn Jones, R. Llewelyn Jones, Dafydd Roberts, Ken Taylor, Liz Wood, Arfon Wyn Rheolwr Gwasanaethau Cyfrifeg (BHO), Rheolwr Sgriwtini (AGD) |

---

### 1. DATGAN DIDDORDEB

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb.

### 2. MATERION BRYS A ARDYSTIWYD GAN Y PRIF WEITHREDWR NEU EI SWYDDOG APWYNTIEDIG

Dim i'w hadrodd.

### 3. COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 14 Chwefror, 2023 i'w cadarnhau.

**Penderfynwyd cadarnhau fod cofnodion drafft cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 14 Chwefror, 2023 yn gywir.**

### 4. MONITRO CYLLIDEB REFENIW CHWARTER 3 2022/23

Cyflwynwyd adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 oedd yn nodi perfformiad ariannol gwasanaethau'r Cygnor ar ddiwedd Chwarter 3 blwyddyn ariannol 2022/23 i'r Pwyllgor Gwaith ei ystyried.

Adroddodd y Cynghorydd Robin Williams, Aelod Portffolio Cyllid, Busnes Corfforaethol a Phrofiad Cwsmeriaid, ar 10 Mawrth, 2022, fod y Cyngor wedi gosod cyllideb ar gyfer 2022/23 gyda gwariant net o £158.365 miliwn, i'w ariannu o incwm Treth y Cyngor, Trethi Annomestig a Grant Cefnogi Refeniw Llywodraeth Cymru. Mae'r sefyllfa ariannol gyffredinol a ragwelir ar gyfer 2022/23, gan gynnwys Cyllid Corfforaethol a chronfa Treth y Cyngor, yn danwariant rhagamcanol o £1.970 miliwn sy'n cynrychioli 1.24% o gyllideb net y Cyngor ar gyfer 2022/23. Mae cyllidebau Gwasanaethau Oedolion a Gofal Cymdeithasol Plant yn parhau i fod o dan bwysau ond mae hyn yn cael ei wrthbwyso gan danwariant mewn gwasanaethau eraill, yn arbennig Casglu a Gwaredu Gwastraff. Ceir mwy o wybodaeth am amrywiannau yn y gyllideb yn yr adroddiad manwl. Er yr adroddwyd ar y sefyllfa ar ddiwedd y trydydd chwarter, gellir rhagweld y manylion terfynol gyda mwy o sicrwydd, gallai digwyddiadau annisgwyl ddigwydd cyn diwedd y flwyddyn a gall Chwarter 4 fod yn gyfnod pan fo galw uchel a gallai'r naill a'r llall effeithio ar y safle altro terfynol.

Rhybuddiodd Aelod Portffolio Cyllid er y rhagwelir y bydd gwasanaethau'n gorwario £87k, mae Gwasanaethau Oedolion a Phlant wedi gorwario'n sylweddol fel y dangosir yn Nhabl 4 yn yr adroddiad. Yn ogystal â hyn, mae'r sefyllfa sylfaenol wedi ei chuddio gan nifer o eitemau untro (swyddi gwag, cyllid grant ychwanegol a defnydd o gronfeydd wrth gefn) sydd wedi cyfrannu at ostyngiad sylweddol, heb y rhain byddai gwir sefyllfa ariannol gwasanaethau'r Cyngor yn llawer gwaeth ac wedi gwanhau gwytnwch ariannol y Cyngor yn sylweddol.

Cyfeiriodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 at y diffyg ariannol yng nghyllidebau ysgolion ar gyfer cyflogau fel y nodir yn Nhabl 3 yn yr adroddiad oherwydd bod cyfanswm dyfarniadau cyflog i ysgolion yn uwch na'r hyn y cyllidebwyd ar ei gyfer yn 2022/23. Er bod y pwysau hwn yn disgyn ar wasanaethau eraill hefyd, oherwydd bod cyllideb yr ysgolion yn cael ei dirprwyo byddai'n rhaid i'r gost ychwanegol ddod o falansau ysgolion fel arfer; rhagamcanir y bydd y rhain yn gostwng wrth i ysgolion barhau i ddefnyddio eu cronfeydd wrth gefn i gydbwyso eu cyllidebau gan adael lleiafrif bychan o ysgolion heb unrhyw falansau o gwbl, neu bydd eu balansau'n isel iawn, tra bydd balansau gweddill yr ysgolion yn sylweddol is nag a welwyd yn ystod y ddwy flynedd ariannol ddiwethaf. Felly, bydd yn anodd i rai ysgolion ariannu'r costau cyflog ychwanegol o'u cronfeydd wrth gefn eu hunain heb ddyraniad pellach yn y gyllideb. Os felly ac o ystyried maint y diffyg o £1.074m, gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith argymell bod y Cyngor Llawn yn cau'r bwlch hwnnw gydag arian o gronfa gyffredinol y Cyngor gyda'r dyraniad ychwanegol i'w ddosbarthu i ysgolion drwy'r fformiwla ariannu.

Wrth gyfeirio at y gorwario ar Wasanaethau Oedolion a Phlant, fe gadarnhaodd y Cynghorydd Alun Roberts, Aelod Portffolio Gwasanaethau Oedolion, fod y galwadau ar y ddau wasanaeth wedi bod yn uchel. Roedd adolygiad gwerthuso perfformiad diweddar Arolygiaeth Gofal Cymru o Wasanaethau Cymdeithasol Ynys Môn yn gadarnhaol ac yn adlewyrchu'r ffaith bod y Cyngor wedi bod yn buddsoddi yn y gwasanaethau hynny dros y blynyddoedd diwethaf i gryfhau'r ddarpariaeth ac i ymateb i'r galw.

Wrth bwyso a mesur yr adroddiad, dywedodd yr Arweinydd, y Cynghorydd Llinos Medi, ei bod yn bwysig llywodraethu a rheoli arian yn ddarbodus, fel bod y Cyngor yn gallu ymateb i amgylchiadau sy'n newid.

**Penderfynwyd –**

- **Nodi'r sefyllfa a amlinellir yn Atodiadau A a B yr adroddiad mewn perthynas â pherfformiad ariannol yr Awdurdod hyd yma a'r alldro disgwyliedig ar gyfer 2022/23.**

- **Nodi'r crynodeb o'r cyllidebau wrth gefn ar gyfer 2022/23 y manylir arnynt yn Atodiad C;**
- **Nodi'r modd y caiff costau asiantaethau ac ymgynghorwyr eu monitro yn 2022/23 yn Atodiadau CH, D a DD;**
- **Argymell i Gyngor Sir Ynys Môn y dylai'r Cyngor Llawn gymeradwyo symud £1.074m o falansau cyffredinol Cronfa'r Cyngor i gyllideb ddatganoledig ysgolion, i dalu costau cyflogau sy'n uwch nag y caniatawyd yn wreiddiol ar eu cyfer yn y gyllideb refeniw ar gyfer 2022/23;**
- **Cymeradwyo trosglwyddo'r tanwariant net ar ddigartrefedd ac atal digartrefedd, sef amcangyfrif o £260k, i gronfa wrth gefn glustnodedig ar gyfer digartrefedd ac atal digartrefedd mewn blynyddoedd i ddod. Y rheswm am y tanwariant yw bod Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi cynnydd sylweddol o £273k yn y grant Neb Heb Help.**

## 5. MONITRO CYLLIDEB GYFALAF CHWARTER 3 2022/23

Cyflwynwyd adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 a oedd yn nodi perfformiad ariannol y Gyllideb Gyfalaf ar ddiwedd Chwarter 3 blwyddyn ariannol 2022/23 i'r Pwyllgor Gwaith ei ystyried.

Adroddodd y Cynghorydd Robin Williams, Aelod Portffolio Cyllid, Busnes Corfforaethol a Phrofiad Cwsmeriaid, fod y Cyngor wedi cymeradwyo Rhaglen Gyfalaf ar gyfer gwasanaethau nad ydynt yn ymwneud â thai o £17.177 miliwn ar gyfer 2022/23 a Rhaglen Gyfalaf o £18.784 miliwn ar gyfer y Cyfrif Refeniw Tai (CRT). Yn ogystal â hyn, ym mis Mehefin 2021, cymeradwyodd y Pwyllgor Gwaith i lithriad cyfalaf o £11.242 miliwn gael ei ddwyn ymlaen o 2021/22 gan ddod â'r Rhaglen Gyfalaf ar gyfer gwasanaethau nad ydynt yn ymwneud â thai i £28.419m a £18.784m ar gyfer y CRT. Ers cwblhau'r broses gosod cyllideb, ychwanegwyd cynlluniau ychwanegol at y rhaglen ac mae'r rhan fwyaf ohonynt yn cael eu cyllido gan grantiau, sef cyfanswm o £10.837m, ynghyd â gostyngiad o £3.750m yng nghyllideb y CRT. Daw hyn â chyfanswm y Gyllideb Gyfalaf ar gyfer 2022/23 i £54.290m. Y gyllideb a broffiliwyd ar ddiwedd Chwarter 3 oedd £32.065m tra bod y gwir wariant yn £24.315m gyda gwariant pellach o £2.907m wedi'i ymrwymo. Y tanwariant a ragwelir ar y Rhaglen Gyfalaf ar gyfer 2022/23 yw £15.223m gyda hwn yn llithriad posibl i Raglen Gyfalaf 2023/24. Bydd y cyllid ar gyfer y llithriad hwn hefyd yn llithro i mewn i 2023/24 a bydd yn cael ei gynnwys wrth lunio'r Datganiad ar Strategaeth Rheoli'r Trysorlys, Strategaeth Gyfalaf a Rhaglen Gyfalaf ar gyfer 2023/24.

Tynnodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 sylw at y cynlluniau grant ychwanegol a ariennir gan y rhaglen ers gosod y gyllideb fel y dangosir yn Atodiad C yn yr adroddiad sy'n dangos i ba raddau y mae'r Cyngor yn dibynnu ar grantiau ar gyfer ei wariant cyfalaf gan fod cyllid cyfalaf craidd wedi aros yn sefydlog dros y blynyddoedd diwethaf gyda chwyddiant cynyddol bellach yn effeithio ar ei werth.

**Penderfynwyd nodi cynnydd y gwariant a'r derbyniadau yn erbyn cyllideb gyfalaf 2022/23 yn ystod Chwarter 3.**

## 6. MONITRO CYLLIDEB Y CYFRIF REFENIW TAI CHWARTER 3 2022/23

Cyflwynwyd adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 oedd yn nodi perfformiad ariannol Cyllideb y Cyfrif Refeniw Tai (CRT) ar gyfer Chwarter 3 2022/23 i'r Pwyllgor Gwaith ei ystyried.

Cyflwynodd y Cynghorydd Robin Williams, Aelod Portffolio Cyllid, Busnes Corfforaethol a Phrofiad Cwsmeriaid yr adroddiad a oedd yn nodi perfformiad ariannol y Cyfrif Refeniw Tai (CRT) am y cyfnod rhwng 1 Ebrill a 31 Rhagfyr, 2022, a oedd yn cynnwys refeniw a gwariant cyfalaf. Pwysleisiodd fod y CRT wedi'i glustnodi ac ni ellir defnyddio ei gronfeydd wrth gefn at ddibenion heblaw ariannu costau sy'n ymwneud â stoc tai'r Cyngor gan gynnwys datblygu tai newydd. Mae'r Cyngor wedi bod yn rhagweithiol dros nifer o flynyddoedd wrth wella a datblygu ei stoc tai fel yr adlewyrchir yn Atodiad 3 sy'n dangos bod 180 o unedau tai ychwanegol wedi'u cynllunio ar gyfer 2022/23 sy'n cynnwys nifer o gynlluniau tai newydd ar draws yr Ynys yn ogystal ag ail-brynu hen eiddo cynllun hawl i brynu.

Mae gwarged/diffyg refeniw y CRT ar ddiwedd Chwarter 3 yn dangos gorwariant o £544k o'i gymharu â'r gyllideb a broffiliwyd. Mae'r rhagolygon wedi'u hadolygu a rhagwelir gorwariant o £951k am y flwyddyn - ceir manylion pellach yn Atodiad A yn yr adroddiad. Mae'r gwariant cyfalaf £4,509k yn is na'r gyllideb a broffiliwyd. Mae'r gwariant a ragwelir ar gyfer y flwyddyn £4,891k yn is na'r gyllideb - ceir manylion pellach yn Atodiad B. Mae'r diffyg a ragwelir gan gyfuno refeniw a chyfalaf bellach yn £2,187k, £3,940k yn is na'r gyllideb yn bennaf oherwydd bod gwariant cyfalaf yn is na'r hyn y cyllidebwyd ar ei gyfer. Roedd balans agoriadol cronfa wrth gefn y CRT yn £12,333k. Roedd y gyllideb ddiwygiedig yn caniatáu ar gyfer defnyddio £6,128k o'r balans hwn. Fodd bynnag, bydd y rhagolygon diwygiedig a nodir uchod yn defnyddio £2,187k yn unig. Mae hyn yn rhoi balans o £10,146k yn y gronfa wrth gefn ar ddiwedd y flwyddyn ariannol fydd ar gael i ariannu gwariant CRT yn y dyfodol.

Dywedodd Cyfarwyddwr Swyddogaeth| (Adnoddau)/ Swyddog Adran 151 fod yr adroddiad yn amlinellu'r amrywiannau mwyaf arwyddocaol o ran gwariant cyfalaf a hefyd yn egluro'r rhesymau pam fod rhai cynlluniau wedi llithro, o bosibl oherwydd gwaith annisgwyl, oedi o ran cynllunio, materion yn ymwneud â thendro a/neu drafferth cael cymeradwyaeth gan asiantaethau allanol ar gyfer rhai agweddau ar gynllun.

Pwysleisiodd Pennaeth Gwasanaethau Tai fod costau uchel a phrinder contractwyr wedi cyfrannu'n sylweddol at y cynnydd yng ngwariant gwaith trwsio a chynnal a chadw gyda'r Uned Cynnal Tai yn dangos gorwariant o £749k ar ddiwedd Chwarter 3. Bu'n rhaid adolygu'r gyllideb ar gyfer atgyweirio a chynnal a chadw ymatebol cyn y flwyddyn ariannol nesaf i sicrhau y gwneir darpariaeth ddigonol. O ran cyfalaf, mae 49 o unedau tai newydd yn cael eu gosod yn y flwyddyn ariannol hon ac mae'r Gwasanaeth yn parhau i brynu 15 o hen dai'r cyngor yn ôl bob blwyddyn.

**Penderfynwyd nodi'r canlynol –**

- **Y sefyllfa a nodir mewn perthynas â pherfformiad ariannol y Cyfrif Refeniw Tai (CRT) ar gyfer Chwarter 3 2022/23.**
- **Yr alldro a ragwelir ar gyfer 2022/23.**

## 7. ADOLYGIAD CANOL BLWYDDYN AR REOLI'R TRYSORLYS 2022/23

Cyflwynwyd adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 sy'n cynnwys yr Adolygiad Canol Blwyddyn ar Reoli'r Trysorlys i'r Pwyllgor Gwaith ei ystyried.

Dywedodd y Cynghorydd Robin Williams, Aelod Portffolio Cyllid, Busnes Corfforaethol a Phrofiad Cwsmeriaid fod yr adolygiad canol blwyddyn yn rhan o ofynion adrodd ar reoli'r trysorlys o dan God Ymarfer CIPFA a'i fod yn unol â Chynllun Dirprwyo'r Cyngor. Craffwyd ar yr adroddiad gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn ei gyfarfod a gynhaliwyd ar 8 Rhagfyr 2022. Gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith argymell bod yr adroddiad yn cael ei gymeradwyo gan y Cyngor Llawn yn ogystal ag argymell codi'r terfyn y gall y Cyngor fenthyca i awdurdodau lleol eraill o £5m i £10m. Mae hyn oherwydd bod ein balansau arian parod wedi cynyddu a'r galw gan awdurdodau eraill yn uwch, mae awdurdodau lleol hefyd yn cael eu hystyried yn opsiwn risg manteisiol ac isel.

Dywedodd Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 fod yr adroddiad yn nodi gweithgarwch Rheoli'r Trysorlys yn ystod hanner cyntaf 2022/23 ac yn cymharu perfformiad yn erbyn Strategaeth Rheoli'r Trysorlys ar gyfer 2022/23 a'r Dangosyddion Darbodus a nodir ynddi. Mae'r adroddiad hefyd yn rhoi diweddariad ar sefyllfa cyfalaf. Mae'r adroddiad yn cadarnhau bod y Cyngor, yn ystod yr hanner blwyddyn hyd at 30 Medi, 2022, wedi gweithredu o fewn y Dangosyddion Darbodus hynny ac ni ragwelir unrhyw anawsterau i gydymffurfio â'r dangosyddion ar gyfer y blynyddoedd presennol neu'r dyfodol. Ni chynigir adolygu unrhyw bolisi. Fodd bynnag, ers y cyfnod dan sylw yn yr adolygiad canol blwyddyn, mae cyfraddau llog wedi codi'n sylweddol a fydd, o safbwynt buddsoddi, yn rhoi mwy o incwm i'r Cyngor y gellir ei ddefnyddio yn ei dro i gryfhau'r gyllideb refeniw. I'r gwrthwyneb, mae cyfraddau llog uwch yn golygu y bydd unrhyw fenthyciadau newydd yn fwy costus.

**Penderfynwyd –**

- **Argymell i'r Cyngor llawn gymeradwyo'r newid yn y terfyn gwrthbarti i awdurdodau lleol eraill yn unol ag adain 5.3 yr adroddiad.**
- **Nodi cynnwys yr adroddiad ac anfon yr adroddiad ymlaen i'r Cyngor Llawn heb unrhyw sylwadau pellach.**

## 8. DATGANIAD AR STRATEGAETH RHEOLI'R TRYSORLYS 2023/24

Cyflwynwyd adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 a oedd yn cynnwys Datganiad ar Strategaeth Rheoli'r Trysorlys ar gyfer 2023/24 i'r Pwyllgor Gwaith ei ystyried.

Dywedodd Aelod Portffolio Cyllid, Busnes Corfforaethol a Phrofiad Cwsmeriaid fod Datganiad ar Strategaeth Rheoli'r Trysorlys (TMSS) yn cael ei gyflwyno i sicrhau bod y Cyngor yn gweithredu arferion gorau o ran ei weithrediadau rheoli'r trysorlys yn unol â Chod Ymarfer CIPFA ar gyfer Rheoli'r Trysorlys. Craffwyd ar y TMSS gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn ei gyfarfod ar 7 Chwefror, 2023.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 fod yr adroddiad yn nodi strategaeth fenthyca a buddsoddi'r Cyngor ar gyfer 2023/24 ac nad yw'n wahanol iawn i strategaeth y flwyddyn flaenorol o ran cynnal dull buddsoddi sy'n ceisio sicrhau diogelwch ei fuddsoddiad, hylifedd, gallu cael mynediad at arian parod pan fo angen ac yna elw o fuddsoddiad. Fodd bynnag, bydd y Cyngor yn ceisio manteisio ar gyfraddau llog gwell yn 2023/24 er mwyn sicrhau'r enillion gorau o ran buddsoddiad o fewn y blaenoriaethau hynny. O ran benthyca, mae'r Cyngor wedi bod yn defnyddio adnoddau mewnol i ariannu gwariant cyfalaf a bydd yn parhau i gynnal sefyllfa o fenthyca yn unig yn ôl yr angen. Ond gyda chyfraddau llog yn codi bydd manteision benthyca mewnol/allanol yn cael eu monitro i sicrhau nad yw arbedion tymor byr drwy beidio â gwneud benthyciadau hirdymor newydd yn 2023/24 yn cael eu gorbwyso gan y potensial o fynd i gostau ychwanegol yn sgil gohirio benthyciadau allanol newydd. Mae'r strategaeth hefyd yn nodi yn Atodiad 12 y Dangosyddion Darbodus a ddefnyddir fel sail i fonitro gweithgaredd y Trysorlys yn ystod y flwyddyn.

Pwysleisiodd y Cadeirydd y ffaith ei bod yn ofynnol yn ôl Cod Rheoli Trysorlys CIPFA i'r swyddog cyfrifol sicrhau bod Aelodau Etholedig sy'n gyfrifol am reoli'r trysorlys yn cael hyfforddiant digonol ar reoli'r trysorlys, a chadarnhaodd fod yr hyfforddiant hwn wedi'i ddarparu.

**Penderfynwyd nodi'r Datganiad ar Strategaeth Rheoli Trysorlys 2023/24 ac i anfon yr adroddiad ymlaen i'r Cyngor Llawn heb sylwadau pellach.**



DRAFT

## 9. POLISI DARPARIAETH REFENIW ISAF (MRP)

Cyflwynwyd adroddiad Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 5 a oedd yn amlinellu newidiadau arfaethedig i Bolisi MRP y Cyngor i'r Pwyllgor Gwaith ei ystyried. Ynghlwm yn yr adroddiad yn Atodiad 3 roedd adroddiad gan Link Group, Ymghynghorwyr Rheoli Trysorlys y Cyngor a gomisiynwyd ym mis Chwefror 2021 a oedd yn cynnwys adolygiad o strategaeth a pholisi MRP y Cyngor ynghyd ag arfarniad opsiynau.

Crynhodd y Cynghorydd Robin Williams, Aelod Portffolio Cyllid, Busnes Corfforaethol a Phrofiad Cwsmeriaid y cyd-destun rheoleiddiol sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol godi tâl ar y cyfrif refeniw ar gyfer bob blwyddyn ariannol, sef y Ddarpariaeth Refeniw Isaf (MRP) fydd yn gyfrifol am y gost ar gyfer eu dyled yn ystod y flwyddyn ariannol. Rhaid i'r tâl MRP fod yn ddarbodus, y nod yw sicrhau bod cost y ddyled yn cael ei gymryd o'r cyfrif refeniw yn ystod cyfnod sy'n cyd-fynd â'r amser y bydd y gwariant cyfalaf yn darparu buddion ac yn fforddiadwy. Nodir y dulliau sydd ar gael i bennu darpariaeth ddarbodus yng Nghanllawiau Llywodraeth Cymru ar Ddarpariaeth Refeniw Isaf - ceir 4 dull gwahanol – y Dull Rheoleiddio; y Dull CFR; Y Dull Oes Ased (wedi'i rannu'n ddau opsiwn pellach sef y dull rhandaliad cyfartal a'r dull blwydd-dal) a'r Dull Dibrisio. Gall awdurdod lleol newid y dull y mae'n ei ddefnyddio i gyfrifo'i holl MRP, neu ran ohono, ar unrhyw adeg.

Adroddodd yr Aelod Portffolio fod y Cyngor wedi diwygio ei Bolisi MRP yn 2018 a'i fod wedi mabwysiadu'r Dull Oes Ased (Rhandaliad Cyfartal) i gyfrifo ei daliad MRP ar gyfer benthyciadau â chymorth a benthyciadau digymorth. Ym mis Chwefror 2021 rhoddodd gyfarwyddyd i'w Ymgynghorwyr Rheoli'r Trysorlys (Link Group) adolygu ei bolisi MRP i sefydlu a oedd Polisi 2018 yn parhau i fod yn addas ar gyfer cynlluniau gwariant presennol ac yn y dyfodol ond oherwydd materion eraill ni ystyriwyd canlyniad yr adolygiad ymhellach ar y pryd. Gyda'r newid yn yr hinsawdd economaidd a'r pwysau'n deillio o hynny, ystyrir ei bod yn amserol bellach i ystyried canlyniadau'r adolygiad Link. Mae'r adroddiad Link fel y mae wedi'i atodi yn argymell y dull Oes Ased (Blwydd-dal) i gyfrifo taliadau MRP o 2022/23 ymlaen ar gyfer benthyciadau â chymorth a digymorth CRT ac ar gyfer benthyciadau â chymorth a digymorth y Gronfa Gyffredinol, ar y sail ei fod yn ddarbodus, yn fforddiadwy ac yn gynaliadwy.

Esboniodd yr Aelod Portffolio beth oedd mabwysiadu'r dull Blwydd-dal yn ei olygu gan ddweud ei fod yn dilyn dull tebyg i forgais ad-dalu safonol lle mae'r swm ad-dalu cyfunol o ad-daliadau prifswm a llog yn parhau'r un fath, ac o ganlyniad, mae cyfanswm y prifswm a ad-delir yn ystod y blynyddoedd cyntaf yn isel ac yn cynyddu dros amser. Felly, dan y dull blwydd-dal, mae'r taliad MRP yn isel yn y blynyddoedd cyntaf ac yn cynyddu dros amser. Er bod y swm cyffredinol a neilltuir trwy'r polisïau MRP presennol ac arfaethedig yr un fath, pan ystyrir amseriad y llif arian parod a gwerth symiau yn y dyfodol wedi'u lleihau i'w gwerth cyfredol, mae'r gwerth net presennol o dan y dull arfaethedig yn is na'r dull presennol, gan leihau hefyd yr effaith ar genedlaethau'r dyfodol yn unol ag egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Ystyriwyd gwahanol opsiynau o ran cyfnodau o amser a chyfraddau llog fel y manylir yn yr adroddiad a dewiswyd y mwyaf fforddiadwy.

**Penderfynwyd argymell i'r Cyngor Llawn ei fod yn cymeradwyo'r newidiadau MRP canlynol ar gyfer y flwyddyn ariannol bresennol 2022/23 a thu hwnt –**

- **Nodi'r adroddiad yn Atodiad 1 ac Adroddiad Grŵp Link Asset sydd wedi'i atodi yn Atodiad 3 yr opsiynau Darpariaeth Refeniw Isaf (MRP).**
- **Newid taliad MRP y Cyfrif Refeniw Tai (CRT) ar fenthyciadau â chymorth CRF o 2% o ofyniad cyllido cyfalaf (CFR) CRT i ddull Oes Ased (Blwydd-dal) ar gyfer 60 mlynedd ar gyfradd llog gyfartalog y Cyngor sy'n daladwy ar ei fenthyciadau (Opsiwn 1ch yn Nhabl 2 Atodiad 1) o 1 Ebrill 2022.**

DRAFT

- **Newid MRP y CRT ar fenthyciadau digymorth CFR o 2% CFR y CRT i ddull Oes Ased (Blwydd-dal) ar gyfer 60 mlynedd ar gyfradd llog gyfartalog y Cyngor sy'n daladwy ar ei fenthyciadau (Opsiwn 2ch yn Nhabl 2 Atodiad 1) o 1 Ebrill 2022.**
- **Newid MRP Cronfa'r Cyngor ar fenthyciadau â chymorth CFR o ddull Oes Ased (Rhandaliad Cyfartal) i ddull Oes Ased (Blwydd-dal) ar gyfer 46 mlynedd ar gyfradd llog cyfartalog y Cyngor sy'n daladwy ar ei fenthyciadau (Opsiwn 3ch yn Nhabl 2 Atodiad 1) o 1 Ebrill 2022.**
- **Newid MRP Cronfa'r Cyngor ar fenthyciadau digymorth CRF o ddull Oes Ased (Rhandaliad Cyfartal) i ddull Oes Ased (Blwydd-dal) ar gyfer 27.5 mlynedd ar gyfradd llog gyfartalog y Cyngor sy'n daladwy ar ei fenthyciadau ar 1 Ebrill**
- **Cymeradwyo'r Datganiad Polisi MRP diwygiedig ar gyfer 2022/23 a thu hwnt yn Atodiad 2, sy'n seiliedig ar yr opsiynau uchod yn yr argymhellion yn y pwyntiau bwled uchod.**

## 10. GWASANAETHAU GOFAL CYMDEITHASOL DIBRESWYL YN Y GYMUNED – FFIOEDD A CHOSTAU 2023/2024

Cyflwynwyd adroddiad Pennaeth Gwasanaethau Oedolion yn gofyn am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith i osod lefel ar gyfer ffioedd gwasanaethau gofal cymdeithasol dibreswyl yn y gymuned ar gyfer 2023/24.

Dywedodd y Cynghorydd Alun Roberts, Aelod Portffolio Gwasanaethau Oedolion, mai'r arferiad yw adolygu'r taliadau mewn perthynas â gwasanaethau cartref bob blwyddyn i gyd-fynd ag adolygiad y Llywodraeth Ganolog o lefelau budd-daliadau a phensiynau. Mae'r adroddiad yn nodi'r ffioedd a'r taliadau arfaethedig ar gyfer 2023/24 ar gyfer gofal cymdeithasol dibreswyl yn y gymuned yn unol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

**Penderfynwyd cymeradwyo'r canlynol –**

- **Y taliadau ar gyfer gwasanaethau Teleofal fel yr amlinellir yn Nhabl A yn yr adroddiad, sef:**

  **Haen 1 Analog – bydd pawb yn talu £55.90 y chwarter;**
  **Haen 2 a 3 Analog – bydd pawb yn talu £111.41 y chwarter;**
  **Haen 1 Digidol – bydd pawb yn talu £71.50 y chwarter;**
  **Haen 2 a 3 Digidol – bydd pawb yn talu £142.48 y chwarter**

- **Y Taliadau Teleofal Blynyddol, fel yr amlinellir yn Nhabl B:**

  **Gwasanaethau a Chynnal a Chadw £133.18**
  **Gwasanaethau yn unig £86.08**
  **Costau gosod unwaith ac am byth £53.25**

- **Cyfradd o £14.50 yr awr ar gyfer Taliadau Uniongyrchol**

- **Cadw'r taliad o £10.00 ar gyfer gweinyddu ceisiadau am Fathodynnau Glas a darparu bathodynnau newydd fel yr amlinellwyd.**

- **Cynnydd o 10.57% i £41.55 yn y ffi ar gyfer prynu gwasanaethau gofal dydd mewn cartrefi preswyl annibynnol.**

- **Cynnydd o £1.55 yr awr mewn ffioedd Gofal Cartref i gydymffurfio â deddfwriaeth newydd.**

- **Taliadau am Brydau mewn Gwasanaethau Dydd fel yr amlinellir yn Nhabl C:-**
  **Prydau mewn Gwasanaethau Dydd i oedolion (ac eithrio pobl ag anableddau dysgu) - £7.25;**
  **Byrbryd ganol dydd mewn Gwasanaethau Dydd ar gyfer pobl ag anableddau dysgu - £3.05;**
  **Lluniaeth arall (te / coffi / teisen) mewn Gwasanaethau Dydd - £1.70**

**11. CARTREFI'R AWDURDOD LLEOL AR GYFER POBL HŶN – PENNU'R FFI SAFONOL AR GYFER 2023/24**

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Gwasanaeth Oedolion yn gofyn am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith i osod lefel Ffi Safonol yr Awdurdod ar gyfer cartrefi gofal yr awdurdod lleol am y flwyddyn Ebrill, 2023 i Fawrth, 2024.

Dywedodd y Cynghorydd Alun Roberts, Aelod Portffolio Gwasanaethau Oedolion ei bod yn ofynnol i Awdurdodau Lleol o dan Adran 22 Deddf Cymorth Cenedlaethol 1948, bennu'r ffi safonol ar gyfer eu cartrefi. Cyfeiriodd at y sail ar gyfer cyfrifo'r Ffi Safonol fel yr amlinellir yn y tabl o fewn yr adroddiad a oedd yn dangos amcangyfrif o'r gost fesul preswylydd yr wythnos am y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2024 sef £863.30. Yr argymhelliad yw codi am gost lawn y gwasanaeth, sef £863.30.

Dywedodd Pennaeth Gwasanaethau Oedolion fod y cynnydd chwyddiant o 7.71% yn llai na'r hyn a ganiateir i ddarparwyr sector annibynnol.

**Penderfynwyd codi am gost lawn y gwasanaeth, sef £863.30 yr wythnos.**

**12. FFIOEDD A THALIADAU 2023/24**

Cyflwynwyd adroddiad Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 oedd yn nodi'r ffioedd a'r taliadau arfaethedig ar gyfer 2023/24 i'r Pwyllgor Gwaith ei ystyried.

Yn ôl y Cynghorydd Robin Williams, Aelod Portffolio Cyllid, Busnes Corfforaethol a Phrofiad Cwsmeriaid, fel rhan o'r broses flynyddol o osod y gyllideb, mae holl ffioedd a thaliadau'r Cyngor yn cael eu hadolygu. Mae'r Pwyllgor Gwaith wedi gosod amcan fod yr holl ffioedd a thaliadau yn cynyddu 3% ar gyfartaledd ar draws pob gwasanaeth unigol. Mae hyn wedi galluogi Penaethiaid Gwasanaeth i gynyddu ffioedd unigol o fwy neu lai na 3% ond, yn gyffredinol, mae'r cynnydd ar draws y gwasanaeth yn cyd-fynd â chynnydd o 3%. Mae'r holl ffioedd statudol wedi eu cynyddu yn ôl y swm a osodir gan y corff cymeradwyo, lle mae'r cynnydd wedi ei gyhoeddi. Lle nad yw'r taliad diwygiedig yn hysbys, dangosir y ffi fel 'i'w gadarnhau' a bydd yn cael ei ddiweddaru unwaith y bydd gwybodaeth am y ffi newydd yn cael ei derbyn. Mae'r cynnydd mewn ffioedd Gofal Cymdeithasol yn cael eu hadrodd arnynt i'r Pwyllgor Gwaith fel eitemau agenda ar wahân.

Pwysleisiodd yr Aelod Portffolio nad yw'r holl ffioedd a thaliadau yn cael eu huwchraddio ar gyfer 2023/24 gyda'r tâl am brydau ysgol yn aros yr un fath.

**Penderfynwyd cymeradwyo'r Ffioedd a Thaliadau ar gyfer 2023/24, fel yr amlinellir yn y llyfryn atodol i'r adroddiad.**

**13. STRATEGAETH ARIANNOL TYMOR CANOLIG A CHYLLIDEB 2023/24**

Cyflwynwyd adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 a oedd yn nodi'r cynigion manwl ar gyfer cyllideb refeniw 2023/24 i'r Pwyllgor Gwaith ei hadolygu'n derfynol a chytuno arni.



DRAFT

Dywedodd y Cynghorydd Robin Williams, Aelod Portffolio Cyllid, Busnes Corfforaethol a Phrofiad Cwsmeriaid, ei bod yn ofynnol i'r Pwyllgor Gwaith gytuno ar nifer o faterion allweddol o ran cyllideb 2023/24. Bydd modd wedyn i'r argymhellion terfynol gael eu cyflwyno i'r Cyngor Llawn yn ei gyfarfod ar 9 Mawrth, 2023. Y materion y mae angen cytuno arnynt yw Cyllideb Refeniw y Cyngor a'r Dreth Gyngor wedi hynny am 2023/24; Strategaeth Ariannol Tymor Canol y Cyngor wedi'i ddiweddaru a defnyddio unrhyw gyllid untro i ategu'r gyllideb.

Cynigiodd y Pwyllgor Gwaith gyllideb o £172.438m am 2023/24 ac, o ystyried yr AEF dros dro o £123.555m, byddai'n rhaid codi'r Dreth Gyngor 5.00% a defnyddio £1.758m o falansau cyffredinol y Cyngor i gael cyllideb gytbwys. Cafodd y dull a gymerwyd o gyfuno arbedion a chynyddu'r Dreth Gyngor a defnyddio balansau i sicrhau cyllideb gytbwys ei gymeradwyo fel rhan o'r broses ymgynghori cyhoeddus ar Gynllun y Cyngor a chafodd ei gefnogi hefyd gan y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol pan ystyriodd gynigion cychwynnol y gyllideb yn ei gyfarfod ar 19 Ionawr, 2023. Mae'r gyllideb hefyd yn cynnwys cynnydd arfaethedig ym Mhremiwm y Dreth Cyngor ar gyfer ail gartrefi i 75% gyda'r incwm a geir yn cael ei ddefnyddio i gynyddu'r cyflenwad o dai fforddiadwy. Fodd bynnag, ar 24 Chwefror cyhoeddodd y Cyflogwyr y cynnig cychwynnol ar gyfer cyflogau i'r Undebau mewn perthynas â'r dyfarniad cyflog i rai nad ydynt yn athrawon. Mae'r cynnig yn gynnydd cyfradd unffurf o £1,925 i'r holl weithwyr, gyda chynnydd o 3.88% ar gyfer yr holl weithwyr sydd ar bwynt cyflog (SCP) 43 ac uwch, gyda chynnydd o 3.5% i Uwch Swyddogion a'r Prif Weithredwr. Amcangyfrifir y bydd hyn yn cynyddu costau tua 7% o gymharu â'r 3.5% y caniatawyd ar ei gyfer yn y cynnig cychwynnol ar gyfer y gyllideb. Mae hyn yn rhoi pwysau ychwanegol o £2m ar y gyllideb. Ar ôl ystyried sut i ariannu'r gost ychwanegol hon, ac ar ôl dod i'r casgliad bod dod o hyd i arbedion gwerth £2m yn hwyr yn y broses o osod y gyllideb yn anymarferol a bod cynyddu'r Dreth Gyngor o 10% i dalu'r gost yn annerbyniol yn yr hinsawdd economaidd bresennol, mae'r Pwyllgor Gwaith yn cynnig y dylid defnyddio cronfeydd wrth gefn y Cyngor i dalu am y gost hon yn 2023/24 fel yr unig opsiwn realistig. Pwysleisiodd yr Aelod Portffolio fod yr opsiwn hwn yn bosibl oherwydd bod cyllid y Cyngor wedi cael ei reoli'n ddarbodus dros y blynyddoedd diwethaf a'i fod, gan hynny, wedi adeiladu cronfeydd wrth gefn i lefel sy'n caniatáu i'r Cyngor dalu costau o'r fath heb amharu ar wasanaethau neu'r cyhoedd. Mae cael lefel ddigonol o gronfeydd wrth gefn nid yn unig yn fodd i ddiwallu anghenion cyfredol y Cyngor ond yn ei roi mewn sefyllfa well i allu delio â heriau'r dyfodol. Roedd felly'n hapus i gynnig y gyllideb i'r Pwyllgor Gwaith.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 ei bod yn ofynnol iddo osod cyllideb sy'n adlewyrchu'r hyn sy'n cael ei ystyried yn gostau darparu gwasanaethau'r Cyngor am y flwyddyn ganlynol ac adrodd yr un peth i'r Cyngor. Mae'r gyfradd uchel o chwyddiant wedi bod yn ffactor o bwys ym mhroses gosod cyllideb 2023/24 ac er bod darpariaeth a ragamcanwyd ar gyfer chwyddiant wedi'i gwneud yn y cynnig drafft cychwynnol ar gyfer y gyllideb, bu'n rhaid addasu'r gyllideb ar gyfer y cynnig terfynol drafft oherwydd bod y cynnig tâl i rai nad ydynt yn athrawon yn uwch na'r hyn a ragamcanwyd. Mae gosod y gyllideb bob amser yn fater o sicrhau bod cydbwysedd rhwng rhagamcanu costau'r Cyngor mor gywir â phosibl heb wneud gorddarpariaeth a fyddai'n arwain at gynnydd uwch na'r angen yn y Dreth Gyngor. Cyfeiriodd y Swyddog Adran 151 at fân newidiadau yn y setliad cyllidebol terfynol a gyhoeddwyd ar 1 Mawrth a oedd yn cynnwys cyllid ychwanegol o fewn y setliad oedd yn golygu bod £2,000 ychwanegol i Ynys Môn ac at drosglwyddo grant o £107k i gynorthwyo Awdurdod Tân Gogledd Cymru i dalu costau pensiwn uwch; mae'r Awdurdod Tân wedi cynyddu ei ardoll ar sail swm tebyg gan arwain at effaith sero-net ar gyllideb y Cyngor.

Er bod gan y Cyngor ddigon o adnoddau wrth gefn i'w alluogi i ddefnyddio peth o'r arian hwnnw er mwyn cydbwyso'r gyllideb ar gyfer 2023/24, nid yw hon yn strategaeth gynaliadwy yn y tymor hir. Mae'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig a diweddarwyd ar gyfer 2024/25 a


DRAFFT

2025/26 yn Nhabl 4 yn yr adroddiad sy'n seiliedig ar dybiaethau o ran chwyddiant, cyflog a'r setliad llywodraeth leol a allai newid wrth i 2024/25 ddod yn nes yn dangos y bydd angen gwneud gostyngiadau sylweddol yn y gyllideb gwariant refeniw net yn 2024/25 (dros £6.5 miliwn); er y gallai hyn gael ei wrthbwyso'n rhannol gan y defnydd pellach o gronfeydd wrth gefn, yr unig beth y mae'n ei wneud yw gohirio'r angen i wneud gostyngiadau yn y gyllideb yn 2025/26. Mae'r sefyllfa'n gwella yn 2025/26 gyda dim ond diffyg bychan yn y cyllid a ragwelir, ond mae hyn yn ddibynnol ar barhau â'r strategaeth i gynyddu'r Dreth Cyngor 5% y flwyddyn. Y gobaith yw y bydd yr economi'n gwella eleni i'r graddau ei fod yn caniatáu i Lywodraeth San Steffan gynyddu ei dyraniad i Lywodraeth Cymru a bod hynny yn ei dro yn arwain at well setliad i gynghorau yng Nghymru; Os na fydd pethau'n gwella, yna mae 2024/25 yn debygol o fod yn flwyddyn heriol yn ariannol.

Adroddodd y Cynghorydd Robert Ll. Jones, Cadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ar drafodaethau'r Pwyllgor yn ei gyfarfod ar 28 Chwefror, 2023 o ran cynigion terfynol y gyllideb ddrafft a diolchodd i Swyddog Adran 151 a'i staff ac Aelod Portffolio Cyllid am y gwaith a oedd wedi'i wneud ar y broses o osod y gyllideb ac am eu mewnbwn yng nghyfarfodydd cyllideb y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol. Cadarnhaodd fod y Pwyllgor wedi cwestiynu'r Swyddogion ac Aelod Portffolio Cyllid ynghylch gallu'r gyllideb i ymateb i bwysau a galw gwasanaethau; effaith y cynigion ar ddinasyddion Ynys Môn neu unrhyw grwpiau gwarchodedig a'r defnydd o gyllid a ryddhawyd o ganlyniad i newidiadau mewn ardollau a chyfraniadau i wasanaethau ar y cyd wedi i'r cynnig cychwynnol i'r gyllideb gael ei bennu. Roedd y Pwyllgor hefyd wedi ystyried pa mor dderbyniol oedd cynnydd o 5% yn y Dreth Gyngor. Ar ôl cael sicrwydd a chyngor gan y Swyddogion a'r Aelod Portffolio, roedd y Pwyllgor wedi penderfynu argymell y gyllideb arfaethedig o £172.548m ar gyfer 2023/24 gan gynnwys cynnydd o 5% yn y Dreth Gyngor a defnyddio arian o falansau cyffredinol i ariannu unrhyw fwlch rhwng y setliad dros dro a'r setliad terfynol.

Eglurodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151, ers cyhoeddi'r adroddiad cyllideb terfynol ar gyfer cyfarfod 28 Chwefror y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol fod y cynnig cyllidebol wedi'i addasu a'i godi i £174.569m i adlewyrchu'r cynnig cyflog i rai nad ydynt yn athrawon, sef y gyllideb y gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith ei hargymell i'r Cyngor Llawn.

Dywedodd aelodau'r Pwyllgor Gwaith pa mor anodd oedd y broses o osod cyllideb 2023/24 a pha mor bwysig yw cael cronfeydd wrth gefn digonol sydd wedi golygu bod y Cyngor yn gallu cydbwyso'r gyllideb ar gyfer 2023/24 heb orfod gwneud toriadau pellach mewn gwasanaethau neu gynnydd uwch yn y Dreth Gyngor. Er y cydnabuwyd bod defnyddio cronfeydd wrth gefn i gydbwyso'r gyllideb yn risg, mae'r Pwyllgor Gwaith yn ymwybodol o effaith yr argyfwng costau byw ar aelwydydd ac yn cydnabod bod yn rhaid cynllunio'n ofalus cyn blwyddyn ariannol 2024/25 i weld beth arall y gellir ei wneud er mwyn diogelu trigolion Ynys Môn. I'r perwyl hwn awgrymwyd bod yn rhaid cael setliad gwell i lywodraeth leol i helpu'r cyngor hwn a chynghorau eraill i gyflawni eu rhwymedigaethau statudol, cadw i fyny â thâl a chwyddiant ac i gynnal a/neu wella gwasanaethau. Nodwyd hefyd bod gorfod cynllunio mewn cyd-destun o ansicrwydd ynghylch setliadau ariannol y dyfodol yn anodd ac y byddai symud i fframwaith gosod cyllidebau mwy cyson dros dair blynedd yn hytrach nag un yn helpu cynghorau i wynebu heriau'r dyfodol yn well.

Diolchodd Aelod Portffolio Cyllid, Busnes Corfforaethol a Phrofiad Cwsmeriaid i'r Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 a staff y Gwasanaeth Cyllid am eu gwaith ar y broses o osod y gyllideb ynghyd â'r adroddiadau eraill sy'n gysylltiedig â'r gyllideb/cyllid ar agenda'r cyfarfod hwn ac ategwyd teimladau hynny gan y Pwyllgor Gwaith.

**Penderfynwyd –**

DRAFT

- **Cytuno ar fanylion terfynol cyllideb arfaethedig y Cyngor fel y dangosir yn Adran 4 o Atodiad 1 ac Atodiad 2 yr adroddiad.**

- **Nodi argymhelliad y Swyddog Adran 151 y dylai'r Cyngor gadw o leiaf £8.6m o falansau cyffredinol;**

- **Nodi sylwadau'r Swyddog Adran 151 ar gadernid yr amcangyfrifon a wnaed, fel y nodir yn Adran 5 Atodiad 1;**

- **Argymell i'r Cyngor llawn gyllideb net o £174.569m i'r Cyngor Sir a chynnydd, yn sgil hynny, o 5.00% (£68.40 – Band D) yn y Dreth Gyngor, gan nodi y câi penderfyniad ffurfiol, yn cynnwys praeseptau Heddlu Gogledd Cymru a'r Cynghorau Cymuned, ei gyflwyno i'r Cyngor 9 Mawrth 2023;**

- **Y bydd unrhyw wahaniaethau rhwng y setliad amodol a'r setliad terfynol yn cael eu haddasu drwy ddefnyddio'r arian wrth gefn cyffredinol sydd wedi ei gynnwys yng nghyllideb 2023/24, neu drwy gyfrannu i / o gronfeydd wrth gefn cyffredinol y Cyngor er mwyn gosod cyllideb gytbwys.**

- **Awdurdodi'r Swyddog Adran 151 i wneud unrhyw newidiadau angenrheidiol cyn cyflwyno'r cynigion terfynol i'r Cyngor;**

- **Cytuno y byddir yn gallu tynnu cyllid o'r gyllideb wrth gefn gyffredinol yn sgil unrhyw bwysau, na chawsant eu rhagweld, ar gyllidebau seiliedig ar alw yn ystod y flwyddyn ariannol;**

- **Gofyn i'r Cyngor awdurdodi'r Pwyllgor Gwaith i ryddhau hyd at £250k o'r balansau cyffredinol os yw'r gyllideb wrth gefn gyffredinol wedi'i hymrwymo'n llawn yn ystod y flwyddyn;**

- **Dirprwyo i'r Swyddog Adran 151 yr hawl i ryddhau cyllid o hyd at £50k o'r gronfa wrth gefn gyffredinol ar gyfer unrhyw eitem unigol. Ni ddylid caniatáu unrhyw eitem dros £50k heb ganiatâd o flaen llaw y Pwyllgor Gwaith;**

- **Cadarnhau bod lefel Premiwm y Dreth Gyngor ar gyfer ail gartrefi yn cynyddu i 75%, ac yn aros ar 100% ar gyfer cartrefi gwag**

## 14. Y STRATEGAETH GYFALAF

Cyflwynwyd adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Adran 151 Swyddog a oedd yn cynnwys Strategaeth Gyfalaf 2023/24 gan gynnwys y Rhaglen Gyfalaf arfaethedig ar gyfer 2023/24 i'r Pwyllgor Gwaith eu hystyried.

Wrth gyflwyno'r adroddiad, dywedodd y Cynghorydd Robin Williams, Aelod Portffolio Cyllid, Busnes Corfforaethol a Phrofiad Cwsmeriaid, o dan God Darbodus diwygiedig CIPFA (Medi 2017) ei bod yn ofynnol i awdurdodau lleol lunio strategaeth gyfalaf sy'n nodi'r cyd-destun tymor hir i benderfyniadau am wariant cyfalaf a buddsoddi. Pwrpas y gofyniad hwn yw sicrhau bod awdurdodau'n gwneud penderfyniadau ar gyfalaf a buddsoddi yn unol ag amcanion gwasanaethau ac yn rhoi ystyriaeth briodol i stiwardiaeth, gwerth am arian, cynaliadwyedd a fforddiadwyedd.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 fod y Strategaeth Gyfalaf yn gysylltiedig â nifer o gynlluniau a strategaethau allweddol eraill fel y nodwyd yn yr adroddiad - rhai ohonynt heb eu cymeradwyo eto; felly mae'r strategaeth gyfalaf sy'n cael ei chyflwyno yn strategaeth dros dro. Bydd gwaith pellach yn cael ei wneud yn ystod 2023/24 i



DRAFT

gwblhau a chymeradwyo'r cynlluniau hynny ac i asesu eu heffaith ar y strategaeth gyfalaf yn y tymor hir ac ar ôl hynny bydd strategaeth gyfalaf ddiwygiedig, wedi'i diweddaru yn cael ei chyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith cyn cychwyn blwyddyn ariannol 2024/25.

**Penderfynwyd cefnogi'r Strategaeth Gyfalaf ar gyfer 2023/24 a'i hargymell i'r Cyngor Llawn.**

**15. CYLLIDEB GYFALAF 2023/24**

Cyflwynwyd adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 a oedd yn cynnwys y gyllideb gyfalaf arfaethedig ar gyfer 2023/24 i'r Pwyllgor Gwaith ei ystyried.

Dywedodd y Cynghorydd Robin Williams, Aelod Portffolio Cyllid, Busnes Corfforaethol a Phrofiad Cwsmeriaid fod Cyllideb Gyfalaf o £37.962 miliwn ar gyfer 2023/24 yn cael ei chynnig yn cynnwys cynlluniau a ddygwyd ymlaen o 2022/23, adnewyddu/newid asedau presennol, prosiectau untro newydd, y Rhaglen Moderneiddio Ysgolion a'r Cyfrif Refeniw Tai i'w hariannu o gyfuniad o'r Grant Cyfalaf Cyffredinol, benthyciadau â chymorth a derbyniadau cyfalaf fel yr amlinellir yn Nhabl 1 yn yr adroddiad. Dangosir y rhaglen gyfalaf arfaethedig fanwl olaf yn Atodiad 2 yn yr adroddiad.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran151, pan fydd yr adroddiad alldro cyfalaf ar ddiwedd Chwarter 4 2022/23 yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith, bydd unrhyw symiau llithriad y gofynnwyd iddynt gael eu dwyn ymlaen i 2023/24 yn destun cymeradwyaeth y Pwyllgor hwn ar yr adeg honno. Hefyd gellir sicrhau bod grantiau cyfalaf ychwanegol ar gael ac yn cael eu cynnwys wedi hynny o fewn y gyllideb gyfalaf sy'n golygu bod y gyllideb a'r rhaglen fel y'i cyflwynir yn fan cychwyn a bydd yn cael ei diwygio a'i diweddaru i adlewyrchu unrhyw gyllid ychwanegol a gafwyd.

Adroddodd y Cynghorydd Robert Ll. Jones, Cadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol o gyfarfod y Pwyllgor ar 28 Chwefror, 2023 y cyflwynwyd cyllideb a rhaglen gyfalaf 2023/24 iddi, a chadarnhaodd fod y Pwyllgor wedi rhoi ystyriaeth ofalus i'r rhaglen gyfalaf a'r cynlluniau arfaethedig yng nghyd-destun yr arian cyfalaf cyfyngedig ar gael ar gyfer y gronfa gyffredinol a'i fod wedi gofyn am eglurhad gan y Swyddogion a'r Aelod Portffolio ynghylch sut mae'r cynnig hwnnw'n hwyluso'r gwaith o sicrhau'r blaenoriaethau tymor canolig y Cyngor gan gydbwyso pwysau tymor byr yn ogystal â'r graddau y gall y Cyngor benderfynu ar ei flaenoriaethau a'i wariant cyfalaf ei hun. Ar ôl cael sicrwydd a chyngor ar y materion hynny, ac ar ôl ystyried yr holl wybodaeth a gyflwynwyd, penderfynodd y Pwyllgor argymell y gyllideb gyfalaf arfaethedig o £37.962m i'r Pwyllgor Gwaith.

Mewn ymateb i sylwadau a wnaed gan yr Arweinydd ynghylch y gostyngiad mewn adnoddau cyfalaf sy'n cyfyngu ar yr hyn y mae'r Cyngor yn gallu ei gyflawni o ran buddsoddi cyfalaf a phrin yn gallu gwneud gwaith cynnal a chadw hanfodol a bod angen felly cyflwyno sylwadau i Lywodraeth Cymru am fwy o gyllid cyfalaf, cyfeiriodd y Cadeirydd at gyfarfod gyda rheoleiddwyr yn gynharach yn yr wythnos pan godwyd y mater hwn.

Cadarnhaodd y Prif Weithredwr fod y rheoleiddwyr wedi cael cais i uwchgyfeirio'r mater o gyllid cyfalaf digonol i lefel genedlaethol gan ddweud hefyd, er bod y ffocws wedi bod yn bennaf ar wariant refeniw, bod buddsoddi yn asedau'r Cyngor a chynnal a chadw'r adeiladau y mae gwasanaethau'r Cyngor yn cael eu darparu ohonynt yr un mor bwysig. Mae llawer o stoc adeiladau'r Cyngor wedi'i ddyddio ac angen eu huwchraddio gyda nifer o adeiladau ddim yn diwallu anghenion trigolion Môn yn y ffordd y byddai'r Cyngor yn dymuno. Hefyd mae chwyddiant uchel wedi erydu gwerth adnoddau cyfalaf y Cyngor ymhellach. Gofynnwyd i'r rheoleiddwyr ddod â'r mater hwn i sylw Llywodraeth Cymru i'w drafod ar lefel genedlaethol

ar y sail bod sicrhau bod asedau'r Cyngor yn addas i'r diben yn hanfodol a bod y cyfrifoldeb yn mynd yn anos fyth ei gyflawni gyda'r cyllid sydd ar gael.

**Penderfynwyd argymell i'r Cyngor Llawn y Rhaglen Gyfalaf ganlynol ar gyfer 2023/24:**

| | **£'000** |
|---|---|
| **Cynlluniau 2022/23 a Ddygwyd Ymlaen** | **12,373** |
| **Adnewyddu / Amnewid Asedau** | **5,682** |
| **Prosiectau Cyfalaf Un Tro Newydd** | **386** |
| **Ysgolion yr 21ain Ganrif** | **5,964** |
| **Cyfrif Refeniw Tai** | **13,557** |
| | |
| **Cyfanswm y Rhaglen Gyfalaf a Argymhellir 2023/24** | **37,962** |

**Cyllidir Drwy:**

| | |
|---|---|
| **Grant Cyfalaf Cyffredinol** | **3,410** |
| **Benthyca â Chefnogaeth Cyffredinol** | **2,158** |
| **Benthyca â Chefnogaeth Ysgolion 21ain Ganrif** | **919** |
| **Benthyca Digefnogaeth Ysgolion Yr 21ain Ganrif** | **2,797** |
| **Arian Wrth Gefn y CRT a'r Gwarged yn ystod y flwyddyn** | **9,221** |
| **Benthyca Digefnogaeth CRT** | **0** |
| **Derbyniadau Cyfalaf** | **500** |
| **Grantiau Allanol** | **6,584** |
| **Cyllid 2022/23 a Ddygwyd Ymlaen** | **12,373** |
| | |
| **Cyfanswm Cyllid Cyfalaf** | **37,962** |

## 16. CYNLLUN Y CYNGOR 2023-28

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Proffesiwn (AD) a Thrawsnewid sy'n cynnwys Cynllun drafft y Cyngor ar gyfer 2023-28 i'r Pwyllgor Gwaith ei ystyried. Roedd y Cynllun yn cynnwys y nodau lles corfforaethol yn ogystal â'r amcanion strategol a'r ffrydiau gwaith cysylltiedig.

Dywedodd y Cynghorydd Robin Williams, Aelod Portffolio Cyllid, Busnes Corfforaethol a Phrofiad Cwsmeriaid fod Cynllun y Cyngor fel y'i cyflwynwyd yn benllanw 12 mis o baratoi gan gynnal proses ymgynghori helaeth a chynhwysfawr fel y disgrifir yn yr adroddiad a oedd yn defnyddio amryw o ffyrdd i gyrraedd y cyhoedd a phartïon â diddordeb er mwyn creu cymaint o ddiddordeb ac ymatebion â phosibl. Cafwyd dros 2,500 o ymatebion yn dilyn yr ymgynghoriad cyhoeddus cyn datblygu'r Cynllun ac roedd yr ymatebion hynny'n chwarae rhan ganolog wrth osod yr amcanion strategol. Pwysleisiodd yr Aelod Portffolio er bod y Cynllun yn adlewyrchu'r cyd-destun y mae'r Cyngor yn gweithredu ynddi, mae'n rhaid iddo fod yn ymatebol i unrhyw newidiadau yn ystod y cyfnod pum mlynedd, a bydd yn cael ei addasu yn unol â hynny.



DRAFT

Ailadroddodd y Rheolwr Rhaglen, Cynllunio Busnes a Pherfformiad y sylwadau am elfen gynhwysol y broses ymgynghori gyda'r Cynllun wedi'i baratoi ar sail y gwaith ymgynghori mwyaf pellgyrhaeddol a wnaed erioed gan y Cyngor. Mae'r Cynllun yn pennu'r cyfeiriad strategol i'r Cyngor dros y cyfnod pum mlynedd nesaf gan fynd i'r afael â meysydd y mae'r cyhoedd wedi'u nodi sy'n feysydd blaenoriaeth iddynt mewn perthynas â gofal cymdeithasol a lles; addysg, tai a'r economi, ynghyd â newid hinsawdd a'r Gymraeg.

Cadarnhaodd y Cynghorydd Robert Ll. Jones, Cadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol fod Cynllun drafft y Cyngor 2023-28 wedi ei dderbyn gan y Pwyllgor yn ei gyfarfod ar 28 Chwefror pan heriodd yr Aelodau yr Aelod Portffolio a'r Swyddogion gan ofyn a oedd modd cyflawni'r Cynllun ac a oedd unrhyw fylchau yn y ddogfen; y modd y mae'n mynd i'r afael â dyletswyddau statudol ac yn bodloni gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru); rôl partneriaid y Cyngor wrth helpu i wireddu amcanion y Cynllun a'r trefniadau ar gyfer monitro ac adrodd ar gynnydd. Ar ôl ystyried y wybodaeth a gyflwynwyd a'r sicrwydd a dderbyniwyd, penderfynodd y Pwyllgor Gwaith argymell bod Cynllun y Cyngor 2023-28 yn cael ei ystyried ymhellach gan y Pwyllgor Gwaith.

Dywedodd y Cadeirydd fod y Cynllun yn amlinellu nodau ac amcanion strategol lefel uchel y Cyngor ac y bydd cynlluniau pellach, manylach, yn cael eu datblygu o dan bob amcan strategol. Wrth siarad fel Aelod Portffolio Addysg a'r Gymraeg dywedodd ei fod, yng ngoleuni data Cyfrifiad 2021 a oedd yn dangos dirywiad parhaus ym mhoblogaeth siaradwyr Cymraeg Cymru, am weld y Gymraeg yn cael ei blaenoriaethu yn y rhestr o amcanion strategol, ac fe gynigiodd y dylid argymell Cynllun y Cyngor i'r Cyngor Llawn gyda'r gwelliant hwnnw.

**Penderfynwyd argymell bod Cyngor Sir Ynys Môn yn cymeradwyo Cynllun drafft y Cyngor ar gyfer 2023-2028 yn ei gyfarfod ar 9 Mawrth, 2023, yn amodol ar flaenoriaethu'r Iaith Gymraeg yn y rhestr o flaenoriaethau strategol yn yr adroddiad.**

## 17. RHANNU SWYDD AR Y PWYLLGOR GWAITH

Cyflwynwyd adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro yn nodi newidiadau statudol i drefniadau Gweithrediaeth o ganlyniad i Ddeddf Llywodraeth Leol a Chymru 2012 i'r Pwyllgor Gwaith ei ystyried. Yn yr adroddiad cynigiwyd y dylid diwygio Cyfansoddiad y Cyngor i adlewyrchu a darparu ar gyfer y newidiadau statudol oedd wedi eu cynnwys yn Neddf 2021.

Crynhodd y Cynghorydd Robin Williams, Aelod Portffolio Cyllid, Busnes Corfforaethol a Phrofiad Cwsmeriaid y cefndir deddfwriaethol gan ddweud bod Deddf 2021 yn cynnwys gofyniad bod yn rhaid i awdurdodau lleol gynnwys yn eu trefniadau Gweithrediaeth ddarpariaeth sy'n galluogi dau neu fwy o gynghorwyr i rannu swydd ar y Pwyllgor Gwaith. Mae adran 58 o'r Ddeddf hefyd yn nodi y dylai'r ddarpariaeth hon gynnwys rhannu swydd yr arweinydd neu'r dirprwy arweinydd. Tra bod Cyfansoddiad y Cyngor yn cynnwys darpariaeth i'r Arweinydd rannu swydd ac i ddau neu fwy o gynghorwyr rannu swydd fel Aelodau Gweithredol does dim darpariaeth benodol i'r rôl Dirprwy Arweinydd gael ei rhannu. Nid yw'r Cyfansoddiad chwaith yn darparu ar gyfer sut y bydd materion cworwm neu bleidleisio yn cael eu heffeithio lle mae trefniant i rannu swydd nac yn manylu ar sut y bydd trefniadau rhannu swyddi yn effeithio ar nifer cyffredinol yr aelodau ar y Pwyllgor Gwaith. Cynigir bod y Cyfansoddiad yn cael ei ddiwygio i adlewyrchu a darparu ar gyfer y newidiadau statudol yn Neddf 2021 fel y manylir yn adran 1.2 yr adroddiad ac ymhellach yn Atodiad 1 ynghyd ag unrhyw newidiadau cyfansoddiadol eraill sy'n codi.

Cadarnhaodd y Cyfreithiwr (Llywodraethu Corfforaethol) fod y newidiadau'n statudol ac nid yn fater o ddewis lleol a'i bod felly yn angenrheidiol bod Cyfansoddiad y Cyngor yn cael ei

ddiwygio i adlewyrchu darpariaethau'r Ddeddf o ran rhannu swyddi ar y Pwyllgor Gwaith. Mae'r adroddiad yn nodi ac yn gofyn am gytundeb y Pwyllgor Gwaith i argymell y newidiadau cyfansoddiadol sydd angen eu gwneud i'r Cyngor Llawn.

**Penderfynwyd argymell a bod y Cyngor yn cytuno i newid y Cyfansoddiad er mwyn:**

- **Caniatáu i un neu o aelodau rannu swydd fel arweinydd, dirprwy arweinydd ac fel aelodau portffolio o'r Pwyllgor Gwaith.**
- **Caniatáu i'r uchafswm o aelodau a ganiateir ar y Pwyllgor Gwaith gael ei ddiwygio i adlewyrchu'r uchafswm statudol pan fydd aelodau o'r Pwyllgor Gwaith yn rhannu swydd, a**
- **Nodi'r trefniadau mewn perthynas â chworwm a phleidleisio pan fydd aelodau o'r Pwyllgor Gwaith yn rhannu swydd -**

  **a) Yn unol â'r geiriad yn Atodiad 1 yn yr adroddiad**

  **b) unrhyw newidiadau sydd eu hangen o ganlyniad i'r penderfyniad hwn.**

- **Os bydd unrhyw newidiadau i'r trefniadau rhannu swydd a / neu nifer yr unigolion sy'n derbyn cyflog uwch o ganlyniad i'r trefniadau rhannu swydd, bydd y Cyngor yn rhoi gwybod i Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol ac yn mynd ati i roi cyhoeddusrwydd i hynny ar unwaith.**

**Y Cynghorydd Ieuan Williams**
**Cadeirydd**

DRAFT

This page is intentionally left blank

| Cyngor Sir Ynys Môn | |
|---|---|
| Adroddiad i: | Pwyllgor Gwaith |
| Dyddiad: | 21 Mawrth 2023 |
| Pwnc / Testun: | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith |
| Deilydd(ion) Portffolio: | Y Cynghorydd Llinos Medi |
| Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr: | Lynn Ball, Cyfarwyddwr Swyddogaeth – Busnes y Cyngor / Swyddog Monitro |
| Awdur yr Adroddiad: | Dyfan Sion, Pennaeth Democratiaeth |
| Aelodau Lleol: | Amherthnasol |

## A – Argymhelliad / Argymhellion a rheswm / rhesymau

Yn unol â'i Gyfansoddiad, mae'n ofynnol i'r Cyngor gyhoeddi blaen raglen waith a'i diweddaru'n rheolaidd. Cyhoeddir blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith yn fisol er mwyn galluogi Aelodau'r Cyngor a'r cyhoedd weld pa benderfyniadau allweddol y mae'r Pwyllgor yn debygol o'u gwneud dros y misoedd i ddod.

Gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith:

gadarnhau'r blaen raglen waith atodol ar gyfer y cyfnod **Ebrill – Tachwedd 2023;**

adnabod unrhyw faterion ar gyfer cael mewnbwn penodol ac ymgynghoriad gyda Phwyllgorau Sgriwtini'r Cyngor;

nodi bod blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith yn cael ei diweddaru'n fisol a'i chyflwyno fel eitem safonol yn fisol i'r Pwyllgor Gwaith.

## B – Pa opsiynau eraill bu i chi ystyried a beth oedd y rhesymau am eu gwrthod ac/neu am ddewis yr opsiwn hwn?

-

## C – Pam fod hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?

Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith cyn cyhoeddi pob diweddariad er mwyn cryfhau atebolrwydd a threfniadau blaengynllunio.

| Ch – A yw’r penderfyniad hwn yn gyson â’r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn? |
|---|
| Ydy’. |

| D – A yw’r penderfyniad hwn oddi fewn i’r gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor? |
|---|
| Amherthnasol. |

| Dd – Asesu’r effeithiau posibl (os yn berthnasol): | | |
|---|---|---|
| 1 | Sut mae’r penderfyniad yma’n effeithio ar ein hanghenion tymor hir fel Ynys? | Amherthnasol. |
| 2 | A yw hwn yn benderfyniad a ragwelir y bydd yn atal costau / dibyniaethau ar yr Awdurdod i’r dyfodol? Os felly, sut? | |
| 3 | A ydym wedi bod yn cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn? Os felly, rhowch wybod gyda phwy. | |
| 4 | A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae rhan wrth ddrafftio’r ffordd hon ymlaen, gan gynnwys y rheini y byddai’r penderfyniad yn cael effaith uniongyrchol arnynt? Esboniwch sut. | |
| 5 | Nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai’r penderfyniad hwn yn ei gael ar y grwpiau a warchodir o dan y Ddeddf Cydraddoldeb 2010. | |
| 6 | Os yw hwn yn benderfyniad strategol, nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai’r penderfyniad yn ei gael ar y rhai sy’n profi anfantais economaidd-gymdeithasol. | |
| 7 | Nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai’r penderfyniad hwn yn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio’r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg. | |

| E – Gyda phwy yr ymgynghoroch? Beth oedd eu sylwadau? | | |
|---|---|---|
| 1 | Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA) (gorfodol) | Mae blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith yn cael ei thrafod yn fisol yng nghyfarfodydd y Penaethiaid Gwasanaeth (eitem safonol ar y rhaglen). |
| 2 | Cyllid / Swyddog 151 (gorfodol) | |
| 3 | Swyddog Cyfreithiol / Monitro (gorfodol) | |
| 4 | Adnoddau Dynol (AD) | |
| 5 | Eiddo | |
| 6 | Technoleg Gwybodaeth (TG) | |
| 7 | Caffael | |
| 8 | Sgriwtini | Dan amgylchiadau arferol, cynhelir cyd-drafodaeth yn fisol ar raglenni gwaith y Pwyllgor Gwaith a'r ddau Bwyllgor Sgriwtini, a hynny er mwyn sicrhau aliniad rhyngddynt. |
| 9 | Aelodau Lleol | Amherthnasol. |

| F - Atodiadau: |
|---|
| Blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith: Ebrill – Tachwedd 2023 |

| Ff – Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr adroddiad am ragor o wybodaeth): |
|---|
| |

# Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith
## Cyfnod: Mawrth – Hydref 2023

Diweddarwyd 13 Mawrth 2023

CYNGOR SIR YNYS MÔN ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

Mae blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith yn galluogi Aelodau'r Cyngor a'r cyhoedd weld pa benderfyniadau allweddol y mae'r Pwyllgor yn debygol o'u gwneud dros y misoedd i ddod.

Mae modd i benderfyniadau gweithredol gael ei gwneud gan y Pwyllgor Gwaith llawn yn gweithredu fel corff cyfunol neu gan aelodau unigol o'r Pwyllgor Gwaith yn gweithredu trwy hawliau dirprwyiedig. Mae'r blaen raglen waith yn cynnwys gwybodaeth am y penderfyniadau a geisir, pwy fydd yn gwneud y penderfyniadau a phwy yw'r Swyddogion a'r Deilyddion portffolio arweiniol ar gyfer pob eitem.

Dylid nodi, fodd bynnag, bod y blaen raglen waith yn ddogfen hyblyg, gan nad oes modd gwybod am yr holl eitemau y bydd angen penderfyniad arnynt gymaint â hyn ymlaen llaw ac efallai bydd angen newid yr amserlen ar gyfer rhai materion er mwyn cwrdd â blaenoriaethau newydd ayyb. Oherwydd hyn, fe adolygir yn rheolaidd y rhestr o eitemau sydd wedi'u cynnwys ac fe gyhoeddir diweddariad yn fisol.

Yn achlysurol, bydd angen cyflwyno adroddiadau am drafodion eiddo penodol, a hynny yn unol â Pholisi a Gweithdrefnau Rheoli Asedau. Oherwydd dylanwad y farchnad allanol, nid yw'n bosibl dynodi amseriad adroddiadau fel hyn ymlaen llaw.

Gosodir allan y fersiwn ddiweddaraf o flaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith **– sy'n ddogfen fyw ac yn agored i newid -** ar y tudalennau dilynol.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English.

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

# Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith
## Cyfnod: Mawrth – Hydref 2023

Diweddarwyd 13 Mawrth 2023

| | Y pwnc a'i *gategori a beth yw'r penderfyniad a geisir | Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam | Gwasanaeth Arweiniol | Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau | Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol) | Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi | Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Ebrill 2023** | | | | | | | |
| 1 | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Dyfan Sion<br>Pennaeth Democratiaeth<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>25 Ebrill 2023 | |
| 2 | **Strategaeth Gwella Canol Trefi Ynys Môn** | | Rheoleiddio a Datblygu Economaidd | Christian Branch<br>Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd<br><br>Cyng Carwyn Jones | Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio<br>19 Ebrill 2023 | Pwyllgor Gwaith<br><br>25 Ebrill 2023 | |
| 3 | **Cynllun Rheoli'r Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE) – Drafft ar gyfer ymgynghori** | | Rheoleiddio a Datblygu Economaidd | Christian Branch<br>Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd<br><br>Cyng Nicola Roberts | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol<br><br>19 Ebrill 2023 | Pwyllgor Gwaith<br><br>25 Ebrill 2023 | |
| 4 | **Cynllun Rheoli Cyrchfan – Drafft ar gyfer ymgynghori** | | Rheoleiddio a Datblygu Economaidd | Christian Branch<br>Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd<br><br>Cyng Carwyn Jones | Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio<br><br>19 Ebrill 2023 | Pwyllgor Gwaith<br><br>25 Ebrill 2023 | |

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

# Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith
## Cyfnod: Mawrth – Hydref 2023

Diweddarwyd 13 Mawrth 2023

| | Y pwnc a'i *gategori a<br>beth yw'r penderfyniad a geisir | Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam | Gwasanaeth Arweiniol | Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau | Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol) | Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi | Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 5 | **Prynu Gorfodol Posibl ar dir EcoPellets yn Llangefni** | | Rheoleiddio a Datblygu Economaidd | Christian Branch<br>Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd<br><br>Cyng Carwyn Jones | | Pwyllgor Gwaith<br><br>25 Ebrill 2023 | |
| 6 | **Strategaeth Rheoli Eiddo ac Asedau Corfforaethol y Cyngor** | | Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo | Huw Percy<br>Pennaeth Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo<br><br>Cyng Dafydd Rhys Thomas | Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio<br><br>19 Ebrill 2023 | Pwyllgor Gwaith<br><br>25 Ebrill 2023 | Cyngor Llawn<br><br>Mai 2023 |
| | | | | **Mai 2023** | | | |
| 7 | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Dyfan Sion<br>Pennaeth Democratiaeth<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>Mai 2023 | |
| | | | | **Mehefin 2023** | | | |
| 8 | **Adroddiad Blynyddol Safonau'r Gymraeg 2022/23**<br>Cymeradwyo'r adroddiad. | Deilydd Portffolio sydd â chyfrifoldeb am yr iaith. | Busnes y Cyngor | Dylan Williams<br>Prif Weithredwr<br><br>Cyng Ieuan Williams | I'w gadarnhau | Penderfyniad dirpwyiedig<br><br>Mehefin 2023 | |

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

# Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith
## Cyfnod: Mawrth – Hydref 2023

Diweddarwyd 13 Mawrth 2023

| | Y pwnc a'i *gategori a<br>beth yw'r penderfyniad a geisir | Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam | Gwasanaeth Arweiniol | Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau | Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol) | Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi | Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | |
| 9 | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Dyfan Sion<br>Pennaeth Democratiaeth<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>Mehefin 2023 | |
| 10 | **Cerdyn Sgôr Corfforaethol – Ch4, 2022/23 (S)**<br><br>Adroddiad monitro perfformiad chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am berfformiad cyfredol ar draws y Cyngor. | Trawsnewid Corfforaethol | Carys Edwards<br>Pennaeth Proffesiwn – AD a Thrawsnewid<br><br>Cyng Robin Williams | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol – dyddiad i'w gadarnhau | Pwyllgor Gwaith<br><br>Mehefin 2023 | |
| 11 | **Monitro Cyllideb Refeniw 2022/23 – Ch4 (S)**<br><br>Adroddiad monitro ariannol chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am y sefyllfa ariannol gyfredol ar draws y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Williams | Panel Sgriwtini Cyllid – dyddiad i'w gadarnhau | Pwyllgor Gwaith<br><br>Mehefin 2023 | |
| 12 | **Monitro Cyllideb Gyfalaf 2022/23 – Ch4 (S)**<br><br>Adroddiad monitro ariannol chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am y sefyllfa ariannol gyfredol ar draws y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Williams | Panel Sgriwtini Cyllid – dyddiad i'w gadarnhau | Pwyllgor Gwaith<br><br>Mehefin 2023 | |

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

# Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith
## Cyfnod: Mawrth – Hydref 2023

Diweddarwyd 13 Mawrth 2023

| | **Y pwnc a'i *gategori a** beth yw'r penderfyniad a geisir | **Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam** | **Gwasanaeth Arweiniol** | **Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau** | **Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol)** | **Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi** | **Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol)** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 13 | **Monitro Cyllideb y Cyfrif Refeniw Tai 2022/23 – Ch4 (S)**<br><br>Adroddiad monitro ariannol chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am y sefyllfa ariannol gyfredol ar draws y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Williams | Panel Sgriwtini Cyllid – dyddiad i'w gadarnhau | Pwyllgor Gwaith<br><br>Mehefin 2023 | |
| | | | | **Gorffennaf 2023** | | | |
| 14 | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Dyfan Sion<br>Pennaeth Democratiaeth<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>Gorffennaf 2023 | |
| 15 | **Cyfrifon Drafft 2022/23 a defnydd o'r Balansau ac Arian Wrth Gefn** | | Adnoddau | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Williams | | Pwyllgor Gwaith<br><br>Gorffennaf 2023 | |
| 16 | **Cynllun Rheoli'r Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE) – Drafft terfynol** | | Rheoleiddio a Datblygu Economaidd | Christian Branch<br>Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd<br><br>Cyng Nicola Roberts | | Pwyllgor Gwaith<br><br>Gorffennaf 2023 | Cyngor Llawn<br>Medi 2023 |

*  *Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

# Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith
## Cyfnod: Mawrth – Hydref 2023

Diweddarwyd 13 Mawrth 2023

| | Y pwnc a'i *gategori a beth yw'r penderfyniad a geisir | Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam | Gwasanaeth Arweiniol | Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau | Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol) | Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi | Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 17 | **Cynllun Rheoli Cyrchfan – Drafft terfynol** | | Rheoleiddio a Datblygu Economaidd | Christian Branch<br>Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd<br><br>Cyng Carwyn Jones | | Pwyllgor Gwaith<br><br>Gorffennaf 2023 | |
| **Medi 2023** | | | | | | | |
| 18 | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Dyfan Sion<br>Pennaeth Democratiaeth<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>Medi 2023 | |
| 19 | **Cerdyn Sgôr Corfforaethol – Ch1, 2023/24 (S)**<br><br>Adroddiad monitro perfformiad chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am berfformiad cyfredol ar draws y Cyngor. | Trawsnewid Corfforaethol | Carys Edwards<br>Pennaeth Proffesiwn – AD a Thrawsnewid<br><br>Cyng Robin Williams | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol – dyddiad i'w gadarnhau | Pwyllgor Gwaith<br><br>Medi 2023 | |
| 20 | **Monitro Cyllideb Refeniw 2023/24 – Ch1 (S)**<br><br>Adroddiad monitro ariannol chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am y sefyllfa ariannol gyfredol ar draws y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Williams | Panel Sgriwtini Cyllid – dyddiad i'w gadarnhau | Pwyllgor Gwaith<br><br>Medi 2023 | |

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

# Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith
## Cyfnod: Mawrth – Hydref 2023

Diweddarwyd 13 Mawrth 2023

| | Y pwnc a'i *gategori a beth yw'r penderfyniad a geisir | Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam | Gwasanaeth Arweiniol | Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau | Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol) | Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi | Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 21 | **Monitro Cyllideb Gyfalaf 2023/24 – Ch1 (S)**<br><br>Adroddiad monitro ariannol chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am y sefyllfa ariannol gyfredol ar draws y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Williams | Panel Sgriwtini Cyllid – dyddiad i'w gadarnhau | Pwyllgor Gwaith<br><br>Medi 2023 | |
| 22 | **Monitro Cyllideb y Cyfrif Refeniw Tai 2023/24 – Ch1 (S)**<br><br>Adroddiad monitro ariannol chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am y sefyllfa ariannol gyfredol ar draws y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Williams | Panel Sgriwtini Cyllid – dyddiad i'w gadarnhau | Pwyllgor Gwaith<br><br>Medi 2023 | |
| 23 | **Adroddiad Cynnydd: Rhaglen Wella'r Gwasanaethau Cymdeithasol** | | Gwasanaethau Cymdeithasol | Fôn Roberts Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol<br><br>Cyng Gary Pritchard<br>Cyng Alun Roberts | Panel Sgriwtini Gwasanaethau Cymdeithasol /<br><br>Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol | Pwyllgor Gwaith<br><br>Medi 2023 | |
| | | | | **Hydref 2023** | | | |
| 24 | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Dyfan Sion Pennaeth Democratiaeth<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>Hydref 2023 | |

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

# Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith
## Cyfnod: Mawrth – Hydref 2023

Diweddarwyd 13 Mawrth 2023

| | Y pwnc a'i *gategori a<br>beth yw'r penderfyniad a geisir | Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam | Gwasanaeth Arweiniol | Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau | Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol) | Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi | Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Tachwedd 2023** | | | | | | |
| 25 | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Dyfan Sion<br>Pennaeth Democratiaeth<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>Tachwedd 2023 | |
| 26 | **Cerdyn Sgôr Corfforaethol – Ch2, 2023/24 (S)**<br><br>Adroddiad monitro perfformiad chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am berfformiad cyfredol ar draws y Cyngor. | Trawsnewid Corfforaethol | Carys Edwards<br>Pennaeth Proffesiwn – AD a Thrawsnewid<br><br>Cyng Robin Williams | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol – dyddiad i'w gadarnhau | Pwyllgor Gwaith<br><br>Tachwedd 2023 | |
| 27 | **Monitro Cyllideb Refeniw 2023/24 – Ch2 (S)**<br><br>Adroddiad monitro ariannol chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am y sefyllfa ariannol gyfredol ar draws y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Williams | Panel Sgriwtini Cyllid – dyddiad i'w gadarnhau | Pwyllgor Gwaith<br><br>Tachwedd 2023 | |
| 28 | **Monitro Cyllideb Gyfalaf 2023/24 – Ch2 (S)**<br><br>Adroddiad monitro ariannol chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am y sefyllfa ariannol gyfredol ar draws y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Williams | Panel Sgriwtini Cyllid – dyddiad i'w gadarnhau | Pwyllgor Gwaith<br><br>Tachwedd 2023 | |

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

# Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith

## Cyfnod: Mawrth – Hydref 2023

Diweddarwyd 13 Mawrth 2023

| | Y pwnc a'i *gategori a<br>beth yw'r penderfyniad a geisir | Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam | Gwasanaeth Arweiniol | Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau | Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol) | Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi | Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 29 | **Monitro Cyllideb y Cyfrif Refeniw Tai 2023/24 – Ch2 (S)**<br><br>Adroddiad monitro ariannol chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am y sefyllfa ariannol gyfredol ar draws y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Williams | Panel Sgriwtini Cyllid – dyddiad i'w gadarnhau | Pwyllgor Gwaith<br><br>Tachwedd 2023 | |

Tudalen 28

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

| Cyngor Sir Ynys Môn | |
|---|---|
| Adroddiad i: | Pwyllgor Gwaith |
| Dyddiad: | 21 Mawrth 2022 |
| Pwnc / Testun: | Adroddiad Monitro'r Cerdyn Sgorio – Chwarter 3 (2022/23) |
| Deilydd(ion) Portffolio: | Y Cynghorydd Robin Williams |
| Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr: | Carys Edwards |
| Awdur yr Adroddiad:<br>Tel:<br>E-bost: | Gethin Morgan<br>01248 752111<br>GethinMorgan@ynysmon.gov.uk |
| Aelodau Lleol: | Amherthnasol |

**A – Argymhelliad / Argymhellion a rheswm / rhesymau**

**1.1** Hwn yw'r trydydd cerdyn sgorio ar gyfer y flwyddyn ariannol 2022/23. Mae'n dangos safle'r Cyngor yn erbyn ei amcanion gweithredol.

**1.2** Mae'r adroddiad yn tynnu sylw at rai straeon cadarnhaol mewn perthynas â pherfformiad chwarter 3. Mae rhai o'r uchafbwyntiau hyn yn cynnwys:

- **1.2.1** Canran yr aelwydydd (gyda phlant) a gafodd eu hatal rhag dod yn ddigartref
- **1.2.2** Mae pob un o ddangosyddion y Gwasanaethau Oedolion yn uwch na'r targed ar gyfer y chwarter
- **1.2.3** Ceisiadau cynllunio y penderfynwyd arnynt o fewn yr amserlen
- **1.2.4** Canran y cleifion NERS y mae eu hiechyd wedi gwella o ganlyniad i'r cynllun

**1.3** Mae'r sefyllfa ar ddiwedd Chwarter 3 yn gadarnhaol a dyma'r perfformiad gorau a welwyd yn ystod chwarter 3 yn erbyn targedau'r adran rheoli perfformiad ers creu'r adroddiad cerdyn sgorio.

**1.4** Gofynnir i'r Pwyllgor graffu ar y cerdyn sgorio a nodi'r meysydd sydd wedi gwella, ynghyd â'r meysydd y mae'r Tîm Arweinyddiaeth yn eu rheoli i sicrhau gwelliannau pellach yn y dyfodol.

**B – Pa opsiynau eraill bu i chi ystyried a beth oedd y rhesymau am eu gwrthod ac/neu am ddewis yr opsiwn hwn?**

Amherthnasol

**C – Pam fod hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?**

Mae'r mater hwn wedi ei ddirprwyo i'r Pwyllgor Gwaith

**Ch – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?**

Ydi

| D – A yw'r penderfyniad hwn oddi fewn i'r gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor? |
|---|
| Ydi |

| Dd – Asesu'r effeithiau posibl (os yn berthnasol): | | |
|---|---|---|
| 1 | Sut mae'r penderfyniad yma'n effeithio ar ein hanghenion tymor hir fel Ynys? | Mae'r adroddiad y Cerdyn Sgorio Corfforaethol yn rhoi cipolwg ar berfformiad DPA yn erbyn 3 amcan Cynllyn y Cyngor ar ddiwedd pob chwarter.<br><br>Mae'r 3 amcan, isod, yn ystyried anghenion tymor hir yr Ynys<br><br>1. Sicrhau bod pobl Ynys Môn yn gallu ffynnu a chyflawni eu potensial tymor hir<br>2. Cefnogi oedolion a theuluoedd bregus er mwyn eu cadw'n ddiogel, yn iach ac mor annibynnol â phosibl<br>3. Gweithio gyda'n cymunedau er mwyn sicrhau eu bod yn gallu ymdopi'n effeithiol â newid a datblygiadau tra'n gwarchod ein hamgylchedd naturiol<br><br>Mae mesur y DPA yn erbyn pob amcan yn dangos sut mae penderfyniadau'n cael effaith ar ein perfformiad cyfredol. |
| 2 | A yw hwn yn benderfyniad a ragwelir y bydd yn atal costau / dibyniaethau ar yr Awdurdod i'r dyfodol? Os felly, sut? | Gallai perfformiad rhai DPAau o bosibl gael effaith ar gostau yn y dyfodol, ond mae mesurau lliniaru a gynigir yn ceisio lliniaru'r pwysau hyn. |
| 3 | A ydym wedi bod yn cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn? Os felly, rhowch wybod gyda phwy. | Ymgymerir ag elfennau o'r gwaith sy'n cael ei fonitro yn y Cerdyn Sgorio mewn modd cydweithredol â sefydliadau eraill fel Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Llywodraeth Cymru, Cadwch Gymru'n Daclus, Gyrfa Cymru, Chwaraeon Cymru, GWE, ymhlith eraill. |
| 4 | A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae rhan wrth ddrafftio'r ffordd hon ymlaen, gan gynnwys y rheini y byddai'r penderfyniad yn cael effaith uniongyrchol arnynt? Esboniwch sut. | Amh. |
| 5 | Nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar y grwpiau a warchodir o dan y Ddeddf Cydraddoldeb 2010. | Amh. |
| 6 | Os yw hwn yn benderfyniad strategol, nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad yn ei gael ar y | Amh. |

| | | |
|---|---|---|
| | rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol. | |
| 7 | Nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. | Amh. |

| E – Gyda phwy yr ymgynghoroch? Beth oedd eu sylwadau? | | |
|---|---|---|
| 1 | Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA) (gorfodol) | Ystyriwyd y mater hwn gan yr Tîm Arweinyddiaeth ac adlewyrchir eu sylwadau yn yr adroddiad |
| 2 | Cyllid / Swyddog 151 (gorfodol) | Sylwadau wedi ymgyffori yn yr adroddiad |
| 3 | Swyddog Cyfreithiol / Monitro (gorfodol) | Sylwadau wedi ymgyffori yn yr adroddiad |
| 4 | Adnoddau Dynol (AD) | Sylwadau wedi ymgyffori yn yr adroddiad |
| 5 | Eiddo | |
| 6 | Technoleg Gwybodaeth (TG) | |
| 7 | Caffael | |
| 8 | Sgriwtini | Ystyriwyd y mater hwn gan y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ar y 14/3. Bydd cadeirydd y pwyllgor yn adrodd yn ôl yn y cyfarfod hwn. |
| 9 | Aelodau Lleol | |

| F - Atodiadau: |
|---|
| Atodiad A - Cherdyn Sgorio Chwarter 3 |

| Ff – Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am ragor o wybodaeth): |
|---|
| • Adroddiad Monitro Cerdyn Sgorio 2022/23 – Chwarter 2 (fel y cyflwynwyd ef i'r Pwyllgor Gwaith ym mis Tachwedd 2022 ac a dderbyniwyd ganddo.)<br>• Cynllun Trosiannol Ynys Môn 2022-23<br>• Cynllun y Cyngor 2017-2022 |

**ADRODDIAD MONITRO'R CERDYN SGORIO – CHWARTER 3 (2022/23)**

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Mae gan Gyngor Sir Ynys Môn drefniadau ar waith sy'n caniatáu i ni gael dealltwriaeth effeithiol o anghenion a blaenoriaethau lleol, ac i wneud y defnydd gorau posib o'r adnoddau a'r capasiti sydd gennym i'w cyflawni a gwerthuso effaith yr hyn a wnawn.

1.2 Mae ein Cynllun Trosiannol ar gyfer 2022/23 yn nodi'r anghenion lleol a'r blaenoriaethau llesiant ac mae'n amlinellu ein hamcanion ar gyfer y cyfnod cyn rhoi'r Cynllun y Cyngor newydd ar gyfer 2023-28 ar waith ym mis Ebrill 2023.

1.3 Defnyddir yr adroddiad monitro hwn ar y cerdyn sgorio i fonitro perfformiad y Dangosyddion Perfformiad Allweddol (DPA) a nodwyd gennym. Mae'n cynnwys cyfuniad o ddangosyddion lleol a chenedlaethol. Mae'n dangos sut rydym yn cyflawni gweithgareddau o ddydd i ddydd y Cyngor. Mae'n darparu gwybodaeth i alluogi'r Cyngor reoli perfformiad yn rhagweithiol ac, fel y cyfryw, mae'r adroddiad yn nodi unrhyw gamau lliniaru y cytunwyd arnynt gan y Tîm Arweinyddiaeth i yrru a sicrhau gwelliannau yn y dyfodol.

1.4 Mae'r cerdyn sgorio (atodiad 1) yn portreadu'r sefyllfa bresennol ar ddiwedd Chwarter 3 a bydd yn cael sylw pellach (ynghyd â'r adroddiad hwn) gan y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a'r Pwyllgor Gwaith yn ystod mis Mawrth 2023.

## 2. CYD-DESTUN

2.1 Mae'r DPA monitro perfformiad wedi'u halinio â thri amcan llesiant presennol y Cyngor. Ymgynghorwyd arnynt gyda phreswylwyr, partneriaid a busnesau lleol ac, yn dilyn cytundeb Cyngor Sir Ynys Môn ar 9 Mawrth, byddant yn parhau i fod ar waith yn ystod y pum mlynedd nesaf a byddant yn cael eu halinio â'r Cynllun y Cyngor newydd ar gyfer 2023-28. Yr amcanion llesiant yw:

- Amcan 1 – Sicrhau bod pobl Ynys Môn yn gallu ffynnu a gwireddu eu potensial tymor hir
- Amcan 2 – Cefnogi oedolion bregus a theuluoedd i'w cadw'n ddiogel, yn iach ac mor annibynnol â phosib
- Amcan 3 – Gweithio gyda'n cymunedau er mwyn sicrhau eu bod yn gallu ymdopi'n effeithiol â newid a datblygiadau tra'n gwarchod ein hamgylchedd naturiol

2.2 Ni fydd modd cyhoeddi gwybodaeth ar gyfer pob Dangosydd Perfformiad Allweddol ar y Cerdyn Sgorio pob chwarter oherwydd natur y dulliau casglu data. Yn y fath achosion, bydd nodyn yn dweud pa mor aml mae'r DPA yn cael ei fonitro a phryd fydd y data ar gael i'w gasglu, e.e. (blynyddol) (Ch4), (bob tymor).

2.3 Mae unrhyw dargedau yn yr adroddiad yn cael eu hadolygu'n flynyddol a'u cytuno gyda phob gwasanaeth, gan gynnwys gwahanol dargedau chwarterol pan fydd angen yn seiliedig ar berfformiad a thueddiadau hanesyddol.

2.4 Mae pob canlyniad yn y cerdyn sgorio yn rhai cronnol ac, fel y cyfryw, bydd y golofn dueddiadau'n rhoi gwybodaeth am dueddiadau mewn perfformiad o chwarter i chwarter trwy gydol y flwyddyn.

2.5 Gellir gweld y statws CAG (Coch, Amber, Gwyrdd) ar gyfer pob adran yn y cerdyn sgorio isod, ac eithrio rheolaeth ariannol sy'n cael ei gwblhau o safbwynt barn broffesiynol:

- Coch – mwy na 10% yn is na'r targed a/neu angen ymyrraeth sylweddol
- Ambr – rhwng 5% a 10% yn is na'r targed a/neu angen peth ymyrraeth
- Melyn – o fewn 5% i'r targed
- Gwyrdd - ar darged, neu'n uwch na'r targed


## 3. PERFFORMIAD IECHYD CORFFORAETHOL

3.1 Mae'r mwyafrif (75%) o'r dangosyddion yn yr adran hon sydd â thargedau sy'n cael eu monitro yn perfformio'n dda yn erbyn eu targedau (Gwyrdd neu Felyn). Nodir rhai o'r uchafbwyntiau isod.

3.2 Ar ddiwedd Ch3, mae DPA presenoldeb y Cyngor yn Ambr yn erbyn ei darged erbyn hyn. Collwyd 6.51 diwrnod oherwydd absenoldeb am bob gweithiwr cyfwerth ag amser llawn (CALl) yn ystod y cyfnod, o gymharu â tharged o 6.19 diwrnod.

Mae'r perfformiad yn ystod y cyfnod Hydref i Rhagfyr yn is na'r perfformiad yn ystod yr un cyfnod dros y dair blynedd diwethaf (fel y dangosir mewn gwyrdd ar y graff isod). Fodd bynnag, mae absenoldebau'n gysylltiedig â coronafeirws wedi'u cynnwys yn y data absenoldeb ar gyfer Ch3 am y tro cyntaf gan nad yw'n cael ei ystyried yn eithriad bellach. O beidio â chynnwys y data coronafeirws, byddai'r perfformiad yn 6.31 diwrnod o absenoldeb fesul CALl ac yn felyn yn erbyn y targed.


Er gwaethaf cynnwys y data hwn, mae'r perfformiad cyffredinol yn parhau i fod yn well ar yr adeg hon o'r flwyddyn, o gymharu â 2021/22, nad oedd yn cynnwys data am absenoldeb yn gysylltiedig â coronafeirws, a hefyd perfformiad cyn y coronafeirws o 2019/20 ymlaen. Mae hyn yn galonogol ac mae'n dangos ewyllys staff i fod yn bresennol er mwyn cyflawni ar ran ein preswylwyr.



3.2.1 Nid yw'r dangosyddion sy'n cael eu monitro ar hyn o bryd yn yr adran Gwasanaeth Cwsmer yn amlygu unrhyw achos o bryder gyda'r dangosyddion yn parhau i berfformio'n dda yn erbyn eu targedau. Yr eithriadau yw dangosyddion 04b a 09.

3.2.1.1 Mae'n hysbys, ac mae'n cael ei gydnabod, fod dangosydd 04b yn heriol oherwydd natur gymhleth y cwynion ac, yn aml, mae angen ymateb gan nifer o asiantaethau. Mae canran cyfanswm yr ymatebion ysgrifenedig i gwynion o fewn 15 diwrnod (Gwasanaethau Cymdeithasol) yn Goch, gyda pherfformiad o 68% yn erbyn targed o 80%. Trafodwyd 16 o'r 22 o gwynion a dderbyniwyd gyda'r achwynydd o fewn 5 diwrnod gwaith, ac roedd 5 o'r 6 ymateb ysgrifenedig hwyr wedi'u cytuno gyda'r achwynydd cyn iddynt gael eu nodi fel ymatebion hwyr, fel y nodir yn y protocol cwynion.

3.2.1.2 Cydnabyddir fod angen gwneud rhagor o waith mewn perthynas â dangosydd 09 - canran yr ymatebion Rhyddid Gwybodaeth a dderbyniodd ymateb o fewn yr amserlen – sy'n dangos fod 71% o'r ymatebion o fewn yr amserlen, yn erbyn targed o 80%. Mae'r perfformiad hwn yn debyg i'r perfformiad a welwyd yn yr adroddiad cerdyn sgorio ar gyfer Chwarter 2.




3.3 Ar hyn o bryd, mae'r adran rheolaeth ariannol yn rhagweld tanwariant o £1.970m ar gyfer y flwyddyn a ddaw i ben ar 31 Mawrth 2023.

3.4 Mae'r prif feysydd ariannol sy'n destun pryder yn ymwneud â:-

3.4.1 Mae tanwariant sylfaenol sylweddol mewn nifer o feysydd sydd yn peri pryder ac maent yn anodd eu rheoli gan eu bod yn ymwneud â gwasanaethau statudol sy'n cael eu harwain gan y galw. Disgwylir gorwariant o £613k yn y Gwasanaethau Oedolion ond mae hyn yn cuddio gorwariant sylfaenol sylweddol sy'n cael ei ariannu ar hyn o bryd gan grantiau a'r gronfa wrth gefn pwysau gofal cymdeithasol ar gyfer 2022/23. Oni bai am y ffynonellau cyllid hyn, byddai gorwariant o dros £3m yn y gwasanaeth. Mae disgwyl gorwariant o £996k yn y gwasanaethau Plant, yn bennaf oherwydd lleoliadau tu allan i'r sir a gwasanaethau eraill ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal. Mae'r ddau wasanaeth gofal cymdeithasol wedi gweld cynnydd sylweddol yn eu cyllidebau yn ystod y blynyddoedd

diwethaf, ond mae'r galw'n parhau i gynyddu. Bydd y model Cartrefi Clyd sy'n cael ei rhoi ar waith gan y Gwasanaeth Plant a Theuluoedd yn cynorthwyo i liniaru rhywfaint o'r pwysau hwn.

3.4.2 Yn y pendraw, bydd yr argyfwng costau byw yn arwain at gynnydd yn y galw am wasanaethau'r Cyngor (Digartrefedd, Cyngor ar Ddyledion, Cymorth Iechyd Meddwl, Gwasanaeth Plant a Theuluoedd) a gallai arwain at ostwng incwm gwasanaethau megis hamdden, diwylliant, cynllunio a ffioedd parcio wrth i bobl wario llai ar eitemau nad ydynt yn hanfodol. Gallai'r newidiadau posib hyn yn y galw am wasanaethau gael effaith negyddol ar sefyllfa ariannol y Cyngor.

3.5 Er y rhagwelir gorwariant bychan ar wasanaethau, mae defnyddio cronfeydd a grantiau untro a dderbyniwyd, a ffactorau dros dro megis swyddi gwag a rhagori ar dargedau incwm, yn cuddio'r sefyllfa wirioneddol ac efallai na fydd y ffactorau hyn yn ymddangos yn 2023/24. Heb yr eitemau hyn, mae'n debygol y byddai gorwariant sylweddol ar gyllidebau gwasanaeth yn 2022/23.

3.6 Rhagwelir tanwariant o £15.223m ar y Rhaglen Gyfalaf yn 2022/23 a gallai'r swm lithro i Raglen Gyfalaf 2023/24. Bydd y cyllid ar gyfer y llithriad hwn hefyd yn llithro i 2023/24 ac mae hynny wedi'i gynnwys yn y Datganiad ar y Strategaeth Rheoli Trysorlys, y Strategaeth Gyfalaf a'r Rhaglen Gyfalaf ar gyfer 2023/24.

3.7 Mae rhagor o wybodaeth am reolaeth ariannol ar gael yn yr 'Adroddiad Monitro'r Gyllideb Refeniw ar gyfer Ch3', 'Adroddiad Monitro'r Gyllideb Gyfalaf ar gyfer Ch3' a'r 'Adroddiad Monitro'r Gyllideb Cyfrif Refeniw Tai ar gyfer Ch3' a drafodwyd yng nghyfarfod y Pwyllgor Gwaith ar 2 Mawrth.

3.8 Mae hyn yn dangos y gellir rhoi sicrwydd rhesymol trwy ddefnyddio dadansoddiad y cerdyn sgorio fod gweithgareddau dydd i ddydd y Cyngor, o ran rheoli

- pobl
- cyllid, a
- gwasanaethu ei gwsmeriaid

yn cyflawni yn unol â'r disgwyliadau ac i safon briodol.

Mae hefyd yn darparu sail a thystiolaeth o ethos rheoli perfformiad da sy'n cael ei adlewyrchu yn y ffaith fod y dangosyddion o'r safbwynt hwnnw, yn portreadu perfformiad boddhaol hefyd.

## 4. RHEOLI PERFFORMIAD

4.1 Ar ddiwedd Chwarter 3, mae'n galonogol nodi fod mwyafrif (91%) o'r dangosyddion perfformiad yn perfformio'n well na'r targed neu o fewn 5% i'w targedau. Mae tri dangosydd wedi tanberfformio yn erbyn eu targedau yn ystod Chwarter 3 ac maent yn cael eu dangos ar y cerdyn sgorio mewn Coch neu Ambr.

4.2 Mae’r dangosyddion sy’n gysylltiedig â’n hamcan llesiant cyntaf, **Amcan 1**, lle’r ydym yn gweithio i sicrhau fod pobl Ynys Môn yn gallu ffynnu a chyflawni eu potensial tymor hir, yn perfformio’n dda ac mae pob dangosydd naill ai’n wyrdd neu’n felyn yn erbyn eu targedau.

4.3 Mae rhai enghreifftiau o’r perfformiad da a welwyd o dan yr amcan hwn yn ystod y chwarter yn cynnwys:

4.3.1 Mae 100% o ddisgyblion wedi cael eu hasesu yn y Gymraeg ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen (dangosydd 4). Mae hyn yn galonogol ac mae’n cwrdd â’r disgwyliadau yng Nghynllun Strategol y Cyngor ar gyfer y Gymraeg mewn Addysg.

4.3.2 Mae 61 eiddo wedi dod yn ôl i ddefnydd yn erbyn targed o 25 (dangosydd 11). Unwaith eto, mae defnyddio Premiwm y Dreth Gyngor wedi dwyn ffrwyth yn y maes hwn ac mae’n gadarnhaol bod 61 llai o dai gwag yn ein cymunedau.

4.3.3 Roedd 80% o gleientiaid a oedd yn cymryd rhan yn y rhaglen NERS yn credu fod y rhaglen wedi cael effaith gadarnhaol ar eu hiechyd (dangosydd 10).

4.4 Mae dangosyddion ar gyfer yr ail amcan llesiant, **Amcan 2**, lle’r ydym yn cynorthwyo oedolion a theuluoedd bregus er mwyn eu cadw’n ddiogelu, yn iach ac mor annibynnol â phosib, yn perfformio’n dda yn erbyn eu targedau gyda dau ddangosydd sydd yn Ambr.

4.5 Mae enghreifftiau o berfformiad da yn y dangosyddion hynny sy’n perfformio’n dda yn cynnwys:

4.5.1 Mae dangosyddion y Gwasanaethau Oedolion (Dangosyddion 16 i 19) i gyd yn Wyrdd yn erbyn eu targedau unwaith eto am y trydydd chwarter yn olynol.

4.5.2 Mae’r dangosyddion Digartrefedd (Dangosyddion 26 a 27) ar gyfer y Gwasanaethau Tai wedi perfformio’n dda hefyd gyda’r ddau yn Wyrdd yn erbyn eu targedau am y trydydd chwarter yn olynol.

4.6 Dangosydd 23 – Mae’r amser cyfartalog a dreuliodd pob plentyn ar y gofrestr amddiffyn plant yn ystod y flwyddyn, ac a gafodd eu dadgofrestru yn ystod y flwyddyn – yn AMBR, gyda pherfformiad o 287 diwrnod yn erbyn targed o 270 diwrnod.

Mae’r perfformiad yn well na’r 312 diwrnod a welwyd ar ddiwedd Chwarter 2 ac nid yw ond 17 diwrnod yn fyr o’r targed erbyn hyn. Mae hyn yn galonogol ac mae’n dangos fod y mesurau lliniaru a nodwyd yn flaenorol yn cael effaith a bod perfformiad yn gwella.

4.7 Dangosydd 28 - Nifer y ddyddiau calendr ar gyfartaledd a gymerwyd i ddarparu Grantiau Cyfleusterau i’r Anabl – sydd yn Ambr gyda pherfformiad o 182 diwrnod yn erbyn targed o 170 diwrnod.

Mae'r perfformiad hwn yn ostyngiad o'i gymharu â'r 173 diwrnod a welwyd ar ddiwedd Ch2, ond mae'n welliant ar y 188 diwrnod a adroddwyd ar ddiwedd Ch3 2021/22.

Mae'r rhesymau dros y dirywiad mewn perfformiad ar gyfer y dangosydd hwn yn cynnwys:

- Anawsterau cael mynediad i rai eiddo oherwydd pryderon cleientiaid yn dilyn y pandemig coronafeirws.
- Anawsterau dod o hyd i gontractwyr i wneud y gwaith. Ar hyn o bryd dim ond 6 chontractwr o'r Ynys sy'n gosod yr addasiadau.

Mae'n debygol y bydd angen cynyddu'r targed yn 2023/24 o ganlyniad i'r anawsterau hyn. Bydd y Polisi Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl (GCA) yn cael ei adolygu yn ystod Ch1 2023/24 ac mi fydd hyn yn cynnwys llunio cytundeb lefel gwasanaeth a chytuno ar ddangosyddion perfformiad allweddol ar gyfer cyflawni addasiadau GCA i'r dyfodol.

4.8 Mae perfformiad dangosyddion i fonitro ein trydydd amcan llesiant, **Amcan 3**, lle'r ydym yn gweithio gyda'n cymunedau er mwyn sicrhau eu bod yn gallu ymdopi'n effeithiol â newid a datblygiadau tra'n gwarchod ein hamgylchedd naturiol, wedi bod yn dda hefyd, gyda 80% o'r dangosyddion yn uwch na'r targed.


4.9 Mae'r dangosyddion sydd wedi perfformio'n dda yn ystod y chwarter yn cynnwys:

4.9.1 Mae nifer o ddangosyddion rheoli gwastraff (Dangosydd 31, 33 a 34) yn Wyrdd yn erbyn eu targedau yn ystod y flwyddyn. Roedd 96% o'r strydoedd a arolygwyd yn ystod y chwarter yn lân.

4.9.2 Gwelwyd gwelliant yn nifer y ceisiadau cynllunio a ganiatawyd o fewn yr amserlen yn ystod y chwarter ac erbyn hyn mae'n wyrdd yn erbyn y targed am y tro cyntaf ers Chwarter 3 2019/20. Mae hyn yn galonogol a'r rheswm am y gwelliant yw gwaith caled staff y gwasanaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd a'r gwelliannau a roddwyd ar waith ganddynt.

4.10 Yr unig ddangosydd sy'n tanberfformio yn ystod y chwarter hwn yw:

4.10.1 Dangosydd 36 – canran yr apeliadau cynllunio a wrthodwyd – gyda pherfformiad o 47% yn erbyn targed o 65%. Mae hyn yn well na'r 32% a gofnodwyd yn ystod Chwarter 2 ac mae ychydig yn well na'r un cyfnod yn 2021/22 pan wrthodwyd 43%.



Mae'r dangosydd hwn yn ymwneud â nifer fechan o apeliadau cynllunio, a gall y nifer amrywio'n fawr o un chwarter i'r llall. Gwrthodwyd dwy o'r tair apêl yn ystod y chwarter gan olygu fod chwech allan o'r tair ar ddeg o apeliadau wedi'u gwrthod yn ystod y flwyddyn hyd yma.

Mae'r Cyngor yn parhau i sicrhau fod penderfyniadau cynllunio yn 'gadarn' ac yn ddilys, fodd bynnag nid oes gan y Cyngor unrhyw ddylanwad ar benderfyniad apêl. Byddwn yn parhau i fonitro penderfyniadau apêl ar geisiadau tebyg i nodi a oes patrwm yn datblygu a fyddai'n golygu bod angen dehongli ein polisïau'n wahanol.

4.10.2 I grynhoi, o safbwynt rheoli perfformiad, mae'r cerdyn sgorio'n dangos gwelliant parhaus, gyda 91% o'r dangosyddion perfformiad yn perfformio'n well na'r targed neu o fewn 5% i'w targed.

4.10.3 Er y dylid dathlu hyn, mae'n bwysig hefyd nodi fod perfformiad 35% o'r dangosyddion hynny'n gostwng o chwarter i chwarter. Dylai'r holl wasanaethau cysylltiedig gydnabod y duedd hon a gwneud pob ymdrech i sicrhau nad yw'r duedd at i lawr yn parhau yn Chwarter 4.

## 5. ARGYMHELLION

5.1 Mae'r adroddiad hwn yn tynnu sylw at rai straeon cadarnhaol mewn perthynas â pherfformiad chwarter 3. Mae rhai o'r uchafbwyntiau hyn yn cynnwys:

- Canran yr aelwydydd (gyda phlant) a gafodd eu hatal rhag dod yn ddigartref
- Mae pob un o ddangosyddion y Gwasanaethau Oedolion yn uwch na'r targed ar gyfer y chwarter
- Ceisiadau cynllunio y penderfynwyd arnynt o fewn yr amserlen
- Canran y cleifion NERS y mae eu hiechyd wedi gwella o ganlyniad i'r cynllun

5.2 **Mae'r sefyllfa ar ddiwedd Chwarter 3 yn gadarnhaol a dyma'r perfformiad gorau a welwyd yn ystod chwarter 3 yn erbyn targedau'r adran rheoli perfformiad ers creu'r adroddiad cerdyn sgorio.**

5.3 Gofynnir i'r Pwyllgor graffu ar y cerdyn sgorio a nodi'r meysydd sydd wedi gwella, ynghyd â'r meysydd y mae'r Tîm Arweinyddiaeth yn eu rheoli i sicrhau gwelliannau pellach yn y dyfodol.

## 6. RHESTR TERMAU

6.1 Isod mae rhestr o'r byrfoddau a ddefnyddir yn yr adroddiad a'r Cerdyn Sgorio

6.1.1 DPA – Dangosydd Perfformiad Allweddol
6.1.2 Ch1 – Chwarter 1
6.1.3 Ch2 – Chwarter 2
6.1.4 Ch3 – Chwarter 3
6.1.5 Ch4 – Chwarter 4

6.1.6 Statws CAG – Coch – mwy na 10% yn is na'r targed a/neu angen ymyrraeth sylweddol
Ambr – rhwng 5% a 10% yn is na'r targed a/neu angen rhywfaint o ymyrraeth
Melyn – o fewn 5% i'r targed
Gwyrdd – ar darged, neu'n uwch na'r targed

6.1.7 Tuedd – Mae'r saethau tuedd yn cynrychioli perfformiad o gymharu â'r chwarter blaenorol

6.1.8 CALl – Cyfystyr ag Amser Llawn

6.1.9 RhG – Rhyddid Gwybodaeth

6.1.10 CRT – Cyfrif Refeniw Tai

6.1.11 NEET – Nid mewn Addysg, Cyflogaeth neu Hyfforddiant

6.1.12 DTL – Anodd ei osod

6.1.13 NERS – Cynllun Cenedlaethol i Atgyfeirio Cleifion i Wneud Ymarfer Corff

6.1.14 CAP – Cofrestr Amddiffyn Plant

6.1.15 CSYM – Cyngor Sir Ynys Môn

Atodiad A - Cerdyn Sgorio Corfforaethol - Corporate Scorecard Ch-Q3 2021/22

| Rheoli Perfformiad / Performance Management | CAG / RAG | Tuedd / Trend | Canlyniad / Actual | Targed / Target | Targed Bl / Yr Target | Canlyniad 21/22 Result | Canlyniad 20/21 Result |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Amcan 1 - Sicrhau bod pobl Ynys Môn yn gallu ffynnu a chyflawni eu potensial tymor hir** | | | | | | | |
| 1) Canran presenoldeb disgyblion mewn ysgolion cynradd (tymhorol) (Ch3) | | | 91% | | | - | - |
| 2) Canran presenoldeb disgyblion mewn ysgolion uwchradd (tymhorol) (Ch3) | | | 86% | | | - | - |
| 3) Canran gadawyr Blwyddyn 11 nad ydynt mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth [NEET] (blynyddol) (Ch4) | | | | | | 2.60% | 4.2% |
| 4) Canran y disgyblion a aseswyd yn y Gymraeg ar ddiwedd y Cyfnod Syflaen (blynyddol) (Ch3) | Gwyrdd / Green | ↑ | 100% | 100% | 100% | - | - |
| 5) Canran y disgyblion blwyddyn 11 sy'n astudio'r Gymraeg [iaith gyntaf] (blynyddol) (Ch3) | Gwyrdd / Green | → | 68% | 67.5% | 67.5% | 68% | 65% |
| (blynyddol) (Ch4) | | | | | | - | - |
| 7) Nifer yr ymweliadau â chyfleusterau chwaraeon a hamdden | Melyn / Yellow | ↓ | 392k | 400k | 546k | 388k | 189k |
| 8) Canran y sefydliadau bwyd sy'n cyrraedd safonau hylendid bwyd | Gwyrdd / Green | → | 98% | 95% | 95% | 98% | 98% |
| 9) Canran cleientiaid NERS a gwblhaodd y rhaglen ymarfer corff | Gwyrdd / Green | ↑ | 71% | 50% | 50% | 47.5% | - |
| 10) Canran cleientiaid NERS yr oedd eu hiechyd wedi gwella wrth gwblhau'r rhaglen ymarfer corff | Gwyrdd / Green | ↓ | 80% | 80% | 80% | 84% | - |
| 11) Nifer o eiddo preifat gwag wedi'u adfer i ddefnydd | Gwyrdd / Green | ↑ | 61 | 25 | 50 | 91 | 94 |
| 12) Nifer y cartrefi newydd a grewyd o ganlyniad i ddechrau ailddefnyddio eiddo gwag | Gwyrdd / Green | → | 1 | 1 | 3 | 1 | 9 |
| 13) Gwasanaethau landlordiaid: Nifer y diwrnodau ar gyfartaledd i cwblhau atgyweiriadau | Gwyrdd / Green | ↓ | 13.46 | 18 | 18 | 13.89 | 8.1 |
| 14) Canran y tenantiaid sy'n fodlon gyda gwaith atgyweirio ymatebol (blynyddol) (Ch4) | | | | | | - | - |
| **Amcan 2 - Cefnogi oedolion a theuluoedd bregus er mwyn eu cadw'n ddiogel, yn iach ac mor annibynnol â phosibl** | | | | | | | |
| 15) Cyfradd y bobl a gedwir yn yr ysbyty wrth aros am ofal cymdeithasol fesul 1,000 o'r boblogaeth 75+ oed (Ch4) | | | | | | - | - |
| 16) Canran yr ymholiadau ynghylch amddiffyn oedolion a gwblhawyd o fewn terfynau amser statudol | Gwyrdd / Green | ↑ | 91.34% | 90% | 90% | 94.78% | 92.31% |
| 17) Canran yr oedolion a gwblhaodd gyfnod ail-alluogi ac nad oes ganddynt becyn gofal a chymorth 6 mis yn ddiweddarach | Gwyrdd / Green | ↑ | 64.41% | 62% | 62% | 64.85% | 60.36% |
| 18) Cyfradd y bobl hŷn (65 mlwydd oed neu hŷn) y mae'r awdurdod yn eu cefnogi mewn cartrefi gofal fesul 1,000 o'r boblogaeth 65 oed neu hŷn ar 31 Mawrth [Dangosydd Lleol] | Gwyrdd / Green | ↓ | 17.11 | 19 | 19 | 14.33 | 15.36 |
| 19) Canran y rhai sy'n ofalwyr i oedolion a ofynnodd am asesiad neu adolygiad ac a gafodd asesiad neu adolygiad iddyn nhw eu hunain yn ystod y flwyddyn | Gwyrdd / Green | ↑ | 98.60% | 93% | 93% | 96.10% | 98.20% |
| 20) Canran yr asesiadau plant a gwblhawyd o fewn amser | Melyn / Yellow | ↓ | 88% | 90% | 90% | 87.15% | 86.87% |
| 21) Canran y plant mewn gofal y bu'n rhaid iddynt symud 3 gwaith neu fwy | Gwyrdd / Green | ↑ | 6.72% | 7.50% | 10% | 9.79% | 12.34% |
| 22) Canran y cyfeiriadau o blant sy'n cael eu hail-gyfeirio o fewn 12 mis [Dangosydd Lleol] | Gwyrdd / Green | ↑ | 15% | 15% | 15% | 5.74% | 32.00% |
| 23) Cyfanswm yr amseroedd (mewn diwrnodau) a dreuliodd pob plentyn ar y CPR os cafodd ei dynnu oddi ar y CPR yn ystod y flwyddyn | Ambr / Amber | ↑ | 287 | 270 | 270 | 318 | 258 |
| 24) Canran y cyfeiriadau yn ystod y flwyddyn lle caiff penderfyniad ei wneud o fewn 1 diwrnod gwaith | Gwyrdd / Green | ↓ | 98.35% | 95% | 95% | 99.10% | 99.56% |
| 25) Canran yr ymweliadau statudol â phlant mewn gofal oedd i fod i ddigwydd yn ystod y flwyddyn, a gynhaliwyd yn unol â'r rheoliadau | Gwyrdd / Green | ↑ | 91.71% | 90% | 90% | 85.99% | 87.74% |
| 26) Canran y teuluoedd a ataliwyd yn llwyddiannus rhag mynd yn ddigartref | Gwyrdd / Green | ↓ | 88.24% | 80% | 80% | 80.95% | 74.74% |
| 27) Canran y teuluoedd (gyda plant) a ataliwyd yn llwyddiannus rhag mynd yn ddigartref | Gwyrdd / Green | ↑ | 97% | 85% | 85% | 92.00% | 75.47% |
| 28) Nifer y dyddiau calendr ar gyfartaledd a gymerwyd i ddarparu Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl | Ambr / Amber | ↓ | 182 | 170 | 170 | 172.3 | 169 |
| 29) Nifer cyfartalog y dyddiau calendr a gymerwyd i osod unedau llety sy'n rhai y mae modd eu gosod (ac eithrio Eiddo Anodd eu Gosod) | Gwyrdd / Green | ↓ | 34.8 | 40 | 40 | 28.7 | 45.6 |
| 30) Gwasanaethau landlordiaid: Canran y rhent wedi'i golli o ganlyniad i eiddo fod yn wag | Melyn / Yellow | ↓ | 1.85% | 1.70% | 1.70% | 1.66% | 1.98% |
| **Amcan 3 - Gweithio gyda'n cymunedau er mwyn sicrhau eu bod yn gallu ymdopi'n effeithiol â newid a datblygiadau tra'n gwarchod ein hamgylchedd naturiol** | | | | | | | |
| 31) Canran y strydoedd sy'n lân | Gwyrdd / Green | ↑ | 96% | 95% | 95% | 95.50% | 92.00% |
| 32) Canran y gwastraff wedi'u ailddefnyddio, ailgylchu a chompostio | Melyn / Yellow | ↓ | 63.9% | 64% | 64% | 62.39% | 62.96% |
| 33) Nifer cyfartalog y dyddiau gwaith a gymerwyd i glirio digwyddiadau tipio anghyfreithlon | Gwyrdd / Green | → | 1 | 1 | 1 | 0.25 | 0.95 |
| 34) Cilogramau y gwastraff gweddilliol a eneradir fesul person | Gwyrdd / Green | ↑ | 155kg | 165kg | 220kg | 223kg | 214kg |
| 35) Canran yr holl geisiadau cynllunio a benderfynwyd mewn pryd | Gwyrdd / Green | ↑ | 90% | 90% | 90% | 79% | 79% |
| 36) Canran yr apeliadau cynllunio a wrthodwyd | Coch / Red | ↑ | 47% | 65% | 65% | 50% | 58% |
| 37) Canran yr achosion gorfodaeth cynllunio yr ymchwiliwyd iddynt o fewn 84 diwrnod | Gwyrdd / Green | ↓ | 87% | 80% | 80% | 84% | 74% |
| 38) Canran y prif ffyrdd A sydd mewn cyflwr gwael (blynyddol) | Gwyrdd / Green | ↑ | 2.6% | 3% | 3% | 3% | 4.60% |
| 39) Canran y ffyrdd B sydd mewn cyflwr gwael (blynyddol) | Gwyrdd / Green | ↑ | 2.6% | 4% | 4% | 2.80% | 3.80% |
| 40) Canran y ffyrdd C sydd mewn cyflwr gwael (blynyddol) | Gwyrdd / Green | ↑ | 7.6% | 9% | 9% | 8.20% | 8.50% |
| 41) Defnydd o danwydd ffosil bras gan fflyd y Cyngor (tCO2e) | | | 381.15 | | | 486.85 | 385 |
| 42) Nifer y milltiroedd a deithiodd fflyd y Cyngor (milltiroedd) | | | 1,278,994 | | | 1,524,961 | 1,254,419 |
| 43) Nifer y milltiroedd a deithiodd fflyd lwyd / gweithwyr y Cyngor (milltiroedd) | | | 676,360 | | | 786,247 | - |
| 44) Newid net mewn Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr (tCO2e) - Fflyd y Cyngor (Blynyddol) (%) | | | | | | + 26% | - |

Coch - mwy na 10% yn is na'r targed a/neu angen ymyrraeth sylweddol     Ambr - rhwng 5% a 10% yn is na'r targed a/neu angen rhywfaint o ymyrraeth
Melyn - o fewn 5% o'r targed     Gwyrdd - ar darged neu'n uwch     Mae saethau tuedd yn cynrychioli perfformiad chwarter ar chwarter

Atodiad A - Cerdyn Sgorio Corfforaethol - Corporate Scorecard Ch-Q3 2022/23

| Gofal Cwsmer / Customer Service | CAG / RAG | Tuedd / Trend | Canlyniad / Actual | Targed / Target | Canlyniad 21/22 Result | Canlyniad 20/21 Result |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Siarter Gofal Cwsmer / Customer Service Charter** | | | | | | |
| 01) Nifer y cwynion a dderbyniwyd (ac eithrio Gwasanaethau Cymdeithasol) | Gwyrdd / Green | ↑ | 30 | 55 | 55 | 43 |
| 02) Nifer y cwynion Cam 2 a dderbynnwyd ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol | | | 3 | - | 9 | 6 |
| 03) Nifer y Cwynion a gadarnhawyd / gadarnhawyd yn rhannol | | | 10 | - | 20 | 8 |
| 04) % o ymatebion ysgrifenedig o fewn 20 diwrnod (Corfforaethol) | Gwyrdd / Green | ↓ | 86% | 80% | 80% | 88% |
| 05) % o ymatebion ysgrifenedig o fewn 20 diwrnod (Gwasanaethau Cymdeithasol) | Coch / Red | ↓ | 68% | 80% | 66% | 75% |
| 06) Nifer y cwynion Cam 1 ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol | | ↓ | 22 | - | 41 | 24 |
| 07) Nifer o bryderon (ac eithrio Gwasanaethau Cymdeithasol) | | ↑ | 249 | - | 189 | 104 |
| 08) Nifer o ganmoliaethau | | ↑ | 396 | - | 658 | 662 |
| 09) % o Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth a Ymatebwyd o fewn yr Amserlen | Coch / Red | ↓ | 71% | 80% | 79% | 79.4% |
| **Newid Cyfrwng Digidol / Digital Service Shift** | | | | | | |
| 10) Nifer o ddefnyddwyr AppMôn (blynyddol) | | ↑ | 57.5k | - | 51k | 33.5k |
| 11) Nifer o adroddiadau a dderbyniwyd gan AppMôn | | ↓ | 30k | - | 66k | 58k |
| 12) Nifer o daliadau dros y we | | ↓ | 15k | - | 21k | 18.5k |
| 13) Nifer o daliadau dros y ffôn | | ↓ | 6k | - | 11k | 7k |
| 14) Nifer o 'ddilynwyr' CSYM ar Cyfryngau Cymdeithasol | | ↑ | 99k | - | 92k | 42k |
| 15) Nifer o ymwelwyr i wefan y Cyngor | | ↓ | 224k | - | 634k | 1.03M |

| Rheoli Pobl / People Management | CAG / RAG | Tuedd / Trend | Canlyniad / Actual | Targed / Target | Canlyniad 21/22 Result | Canlyniad 20/21 Result |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 01) Nifer y staff yr awdurdod cyfan, gan gynnwys athrawon a staff mewn ysgolion (FTE) | | | 2267 | - | 2202 | 2180 |
| 02) Absenoldeb Salwch - dyddiau / shifftiau gwaith cyfartalog a gollwyd fesul FTE | Ambr / Amber | ↓ | 6.54 | 6.19 | 8.73 | 6.68 |
| 03) Salwch Tymor Byr - dyddiau / shifftiau gwaith cyfartalog a gollwyd fesul FTE | | | 3.2 | - | 3.70 | 1.94 |
| 04) Salwch Tymor Hir - dyddiau / shifftiau gwaith cyfartalog a gollwyd fesul FTE | | | 3.31 | - | 5.03 | 4.74 |
| 05) Gweithwyr yr Awdurdod Lleol yn gadael (%) (Trosiant) (Blynyddol) (Ch4) | | | - | - | 10% | 6% |

| Rheolaeth Ariannol / Financial Management | CAG / RAG | Tuedd / Trend | Cyllideb / Budget | Canlyniad / Actual | Amrywiant / Variance (%) | Rhagolygon o'r Gwariant / Forcasted Actual | Amrywiant a Ragwelir / Forcasted Variance (%) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 01) Y gyllideb o gymharu â Ffigyrau Gwirioneddol | Gwyrdd / Green | ↓ | £109,024,000 | £107,510,000 | -1.39% | | |
| 02) Alldro diwedd blwyddyn a ragwelir (Refeniw) | Gwyrdd / Green | ↑ | £158,367,000 | | | £156,786,000 | -1.00% |
| 03) Alldro diwedd blwyddyn a ragwelir (Cyfalaf) | | ↓ | £39,256,000 | | | £28,924,000 | -26.32% |
| 04) Incwm o gymharu â Thargedau (ac eithrio grantiau) | Gwyrdd / Green | ↓ | -£9,638,068 | -£10,906,375 | 13.16% | | |
| 05) Swm a fenthycwyd | | ↑ | £12,052,000 | | | £5,570,000 | -53.78% |
| 06) Chost benthyca | | ↑ | £4,152,796 | | | £4,028,065 | -3.00% |
| 07) % of y Dreth Gyngor a gasglwyd (am y 3 blynedd ddiwethaf) | Melyn / Yellow | ↓ | | 97.8% | | | |
| 08) % y Trethi Busnes a gasglwyd (am y 3 blynedd ddiwethaf) | Gwyrdd / Green | ↑ | | 99.2% | | | |
| 09) % y Rhent Tai a gasglwyd (am y 3 blynedd ddiwethaf) | Melyn / Yellow | → | | 100.1% | | | |
| 10) % y Rhent Tai a gasglwyd heb gynnwys taliadau budd-dal (am y 3 blynedd ddiwethaf) | Melyn / Yellow | → | | 100.4% | | | |

This page is intentionally left blank

| Cyngor Sir Ynys Môn | |
|---|---|
| Adroddiad i: | **Pwyllgor Gwaith** |
| Dyddiad: | **21 Mawrth 2023** |
| Pwnc: | **Adroddiad cynnydd: Gwelliannau ym maes Gwasanaethau Cymdeithasol** |
| Aelodau Portffolio: | **Y Cynghorydd Gary Pritchard – Gwasanaethau Plant a Theuluoedd, a'r Cynghorydd Alun Roberts – Gwasanaethau Oedolion** |
| Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr | **Fôn Roberts, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol a Phennaeth Gwasanaethau Plant a Theuluoedd**<br>**Arwel Owen, Pennaeth Gwasanaethau Oedolion** |
| Awdur yr Adroddiad:<br>Ffôn:<br>E-bost: | **Emma Edwards**<br>**01248 751887**<br>**Emmaedwards@ynysmon.gov.uk** |
| Aelodau Lleol: | |

## A –Argymhelliad/argymhellion a rheswm/rhesymau:

Darparu trosolwg o gynnydd diweddar yn yr Adran Gwasanaethau Cymdeithasol.

**Pwrpas yr adroddiad:**

1. Tynnu sylw at y datblygiadau yn y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd.
2. Tynnu sylw at ddatblygiadau yn y Gwasanaethau Oedolion.

**Argymhelliad**

1. Bod y Pwyllgor yn derbyn sicrwydd bod y cynnydd parhaus a wnaed gan yr Adran Gwasanaethau Cymdeithasol yn rhesymol ac yn amserol.

2. Cynhyrchir yr adroddiad hwn ddwywaith y flwyddyn sy'n ymdrin â'r Gwelliannau a wneir yn y Gwasanaethau Cymdeithasol, mae'r gofyniad am yr adroddiad hwn wedi deillio yn dilyn yr adroddiad damniol gan CIW yn 2016 mewn perthynas â'r Gwasanaethau Plant a Theuluoedd. Yn dilyn adroddiad mwy cadarnhaol yn dilyn yr Archwiliad Perfformiad a Gwerthuso diweddar gan CIW fe awgrymir nad oes bellach angen am yr adroddiad hwn gan y bydd y Cyfarwyddwr yn parhau i baratoi ei Adroddiad Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol blynyddol sy'n ofyniad statudol a bydd adroddiadau ar gynnydd y Gwasanaethau i'r Panel Sgriwtini Gwasanaethau Cymdeithasol yn parhau i ddod gan y panel hwnnw. Felly, gofynnwn yn barchus i'r panel ystyried hwn fel yr adroddiad gwella olaf

| B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod a/neu ddewis yr opsiwn hwn? |
|---|
| **C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?** |
| Cynnig sicrwydd, eglurdeb a thryloywder bod y Gwasanaethau Cymdeithasol yn parhau ar eu taith tuag at welliant.<br><br>Gofynnir hefyd i'r Pwyllgor Gwaith gytuno i newid teitl y rhaglen waith hon i Ddatblygu'r Gwasanaethau Cymdeithasol gan fod gwelliannau sylweddol wedi'u cyflawni hyd yma ac mae'r gwasanaeth mewn cyfnod o ddatblygu yn awr yn hytrach na gwella. |

| Ch – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn? |
|---|
| Amherthnasol |

| D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor? |
|---|
| Amherthnasol |

| Dd – Asesu'r effaith bosib (os yw'n berthnasol): | | |
|---|---|---|
| 1 | Sut mae'r penderfyniad hwn yn effeithio ar ein hanghenion tymor hir fel Ynys? | Ydi, yn y Gwasanaethau a ddarperir gan y Gwasanaethau Cymdeithasol. |
| 2 | A yw hwn yn benderfyniad y rhagwelir y bydd yn atal costau / dibyniaethau ar yr Awdurdod yn y dyfodol? Os felly, sut?- | Adolygiad parhaus o'r sefyllfa ariannol. |
| 3 | A ydym wedi bod yn cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn, os felly, rhowch wybod gyda phwy: | Ydi, mae rhai enghreifftiau wedi'u cynnwys yn y diweddariad. |
| 4 | A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae eu rhan wrth ddrafftio'r ffordd hon ymlaen, gan gynnwys y rhai hynny y mae'r penderfyniad hwn yn cael effaith uniongyrchol arnynt? Esboniwch sut:- | Ydi – Proses Canmoliaeth a Chwynion, ymgynghoriadau ac ati. |
| 5 | Nodwch unrhyw effaith y gallai'r penderfyniad hwn ei gael ar y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. | Ydi |

| Dd – Asesu'r effaith bosib (os yw'n berthnasol): | | |
|---|---|---|
| 6 | Os yw hwn yn benderfyniad strategol, nodwch unrhyw effaith y gallai'r penderfyniad ei gael ar y rhai hynny sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol. | Amherthnasol |
| 7 | Nodwch unrhyw effaith y gallai'r penderfyniad hwn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. | Amherthnasol |

| E – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori? | | Beth oedd eu sylwadau? |
|---|---|---|
| 1 | Prif Weithredwr / Uwch Dîm Arweinyddiaeth (UDA) (gorfodol) | 27 Chwefror 2023 |
| 2 | Cyllid / Swyddog Adran 151 (gorfodol) | Fel yr uchod |
| 3 | Cyfreithiol / Swyddog Monitro (gorfodol) | Fel yr uchod |
| 4 | Adnoddau Dynol (AD) | Amherthnasol |
| 5 | Eiddo | Amherthnasol |
| 6 | Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu | Amherthnasol |
| 7 | Caffael | Amherthnasol |
| 8 | Sgriwtini | Bydd yn cael ei drafod yn y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ar 14 Mawrth 2023 |
| 9 | Aelodau Lleol | |

F - Atodiadau

**Uchafbwyntiau'r Gwasanaethau Cymdeithasol:**

1. **Adroddiad Arfarnu Perfformiad Arolygiaeth Gofal Cymru**

Roeddem yn falch o dderbyn adroddiad cadarnhaol gan Arolygiaeth Gofal Cymru ym mis Rhagfyr 2022, sy'n crynhoi canlyniadau eu harolygiad o wasanaethau Oedolion a Phlant a Theuluoedd Ynys Môn a gynhaliwyd ym mis Hydref 2022.

Cynhaliwyd yr arolygiad i adolygu perfformiad yr awdurdod lleol wrth iddo gyflawni ei ddyletswyddau a'i swyddogaethau ym maes gwasanaethau cymdeithasol ar ran Gweinidogion Cymru, yn unol â deddfwriaeth. Roedd yr arolygiad hwn yn canolbwyntio ar effeithiolrwydd gwasanaethau a threfniadau'r awdurdod lleol i gynorthwyo ac amddiffyn pobl. Roedd yr adroddiad yn gadarnhaol o safbwynt diogelu plant a phobl ifanc bregus, gwaith partneriaeth, arweinyddiaeth, y strategaeth gweithlu, yn ogystal ag ymrwymiad i ddarparu gwasanaethau yn y Gymraeg.

Roedd yr adroddiad yn amlinellu ein cryfderau a meysydd i'w gwella yn y ddau wasanaeth, ac, o ganlyniad, rydym wedi sefydlu gweithgor mewnol sy'n cynnwys y Cyfarwyddwr, y

Pennaeth Gwasanaeth Oedolion ac Uwch Reolwyr ac mae'n cyfarfod bob yn ail wythnos i roi sylw i'r meysydd gwella a nodwyd. Bydd hyn yn cael ei gynnwys mewn adroddiadau diweddaru yn y dyfodol.

Mae dolenni i'r adroddiad llawn i'w gweld isod:

https://www.arolygiaethgofal.cymru/adroddiad-arolygiad-gwerthuso-perfformiad-gwasanaethau-oedolion-phlant-cyngor-sir-ynys-mon

https://www.careinspectorate.wales/sites/default/files/2022-12/221214-Isle-of-Anglesey-County-Council-Performance-Evaluation-Rev

2. **Capasiti a Staffio**

Mae recriwtio staff yn parhau i fod yn heriol o safbwynt staff ein cartrefi gofal, staff y Cartrefi Clyd a gweithwyr gofal cartref. Mae'r patrwm a wynebir yn cael ei adlewyrchu ledled Cymru, ac nid yw'n unigryw i Ynys Môn. Rydym yn parhau i dynnu sylw Swyddogion Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid eraill at yr anawsterau hyn, ond rydym yn ymwybodol iawn o'r heriau sy'n wynebu cyflogwyr ar hyn o bryd.
Rydym yn parhau i weithio'n agos gyda Choleg Menai i geisio denu pobl ieuengach i'r Gwasanaeth, a gyda chydweithwyr yn yr adran Adnoddau Dynol i arbrofi gyda syniadau recriwtio a marchnata arloesol. Rydym hefyd yn edrych ar wahanol ddulliau marchnata gyda'n cydweithwyr yn yr adran Adnoddau Dynol ac rydym yn bwriadu lansio ein Cynllun Datblygu'r Gweithlu newydd ym mis Ebrill 2023.

3. **Cynlluniau Datblygu Gwasanaeth**

Yn dilyn Arolygiad Arolygiaeth Gofal Cymru, mae'r Gwasanaethau Plant a Theuluoedd a'r Gwasanaethau Oedolion yn llunio Cynlluniau Datblygu Gwasanaeth newydd. Bydd y cynlluniau hynny'n cael eu cymeradwyo gan y Panel Sgriwtini Gwasanaethau Cymdeithasol a bydd y Panel, ynghyd â'r Pwyllgor Gwaith a'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol, yn ceisio sicrwydd ynghylch cynnydd y ddau gynllun.

## Gwasanaeth Plant a Theuluoedd

1. **Cartref Clyd Rhosybol**

Ar hyn o bryd mae'r Awdurdod yn cofrestru ei bedwerydd Cartref Clyd. Bydd y gwasanaeth hwn yn darparu amgylchedd cynnes a chefnogol a bydd yn cael ei gofrestru ar gyfer hyd at dri o blant. Bydd yn galluogi plant a phobl ifanc o Ynys Môn i barhau i dderbyn gofal ar yr Ynys a pharhau i fynychu ysgolion prif lif. Bydd y gwasanaeth hwn yn lleihau'r angen i leoli plant a phobl ifanc tu allan i'r sir.

2. **"Strategaeth Plant sy'n Derbyn Gofal a'r rhai sy'n Gadael Gofal"**

Mae Panel Rhiant Corfforaethol yr Awdurdod yn parhau i wneud cynnydd cadarnhaol yn dilyn yr adroddiad archwilio mewnol yn 2020. Datblygwyd cylch gorchwyl a'i roi ar waith yn 2021. Yn ogystal, datblygwyd "Strategaeth Plant sy'n Derbyn Gofal a'r rhai sy'n Gadael Gofal" a rhagwelir y caiff ei gyflwyno i'r Panel Rhiant Corfforaethol i'w gymeradwyo yn ddiweddarach ym mis Mawrth 2023.

3. **Y Gwasanaeth Ieuenctid**

Ar hyn o bryd, rydym yn adolygu ein tîm Gwasanaethau Ieuenctid, ac roedd hyn yn cynnwys siarad â staff, rhanddeiliaid ac, bwysicaf oll, pobl ifanc sy'n defnyddio'r gwasanaeth a phobl ifanc nad ydynt yn defnyddio'r gwasanaeth. Bu hwn yn gyfnod hynod o brysur a bydd diweddariad ar gynnydd y gwaith hwn yn cael ei gwblhau erbyn mis Ionawr 2024 (bydd yn cael ei gwblhau mewn dau gam).

4. **Glanllyn – Cysylltu a Dysgu yn yr Awyr Agored**




Ym mis Ionawr 2023, trefnwyd penwythnos preswyl Therapiwtig yng Nglanllyn Isaf, Y Bala, ar gyfer 13 o bobl ifanc rhwng 13 a 16 oed o bob rhan o Ynys Môn sydd naill ai'n blant sy'n derbyn gofal neu sydd â chynllun Gofal a Chymorth. Buom yn gweithio gyda'r Urdd i ddatblygu pecyn dysgu pwrpasol, gyda'r Tîm Awyr Agored yn hwyluso'r elfen gweithgareddau awyr agored a staff amrywiol o'r Gwasanaethau Plant a Theuluoedd yn gyfrifol am gefnogi a goruchwylio.

Nod gyffredinol y cwrs preswyl oedd cefnogi ein pobl ifanc a'u Gweithwyr Cymdeithasol/Staff Cymorth sy'n gweithio gyda nhw ac ochr yn ochr â nhw i:

- Adeiladu gwytnwch ac ysbrydoli dysgu
- Gwella ymddygiad
- Hunan-barch a hunanhyder
- Perthnasau a Chysylltiadau
- Cael pobl ifanc allan i'r awyr agored
- Dysgu sgiliau newydd
- Cael hwyl

Roedd yr holl bobl ifanc wedi cymryd rhan a datblygu eu hyder, eu hunan-barch a'u llais wrth gymryd rhan mewn nifer o weithgareddau heriol. Ar hyn o bryd, rydym yn trefnu digwyddiad ar 15 Chwefror i roi cyfle i bobl ifanc a'u teuluoedd adlewyrchu ar y penwythnos er mwyn datblygu rhaglen o gynigion, gydag arweiniad clir i sicrhau fod hwn yn gynnig parhaus o gymorth a darpariaeth yn y gwasanaeth. Rydym wedi derbyn adborth cychwynnol gan bobl ifanc a staff ac roedd eu sylwadau'n cynnwys:

Pobl Ifanc:
- *"Yr amser gorau erioed"*
- *"Hwyl"*
- *"Fe wnes i ymdopi'n iawn, rydw i'n falch iawn ohonof fy hun"*
- *"Roedd yn beth da nad oeddem yn adnabod ein gilydd – roedd rhaid i ni wneud ffrindiau newydd"*

Staff
- "*Mae hyn wedi rhoi syniad gwell i mi o'u hymddygiad gartref a beth sydd angen i mi ganolbwyntio arno..."*
- *"Nid plant ar fy rhestr achosion yn unig ydyn nhw – rydw i'n gwybod rŵan sut rai ydyn nhw, beth sy'n gwneud iddyn nhw chwerthin a'u syniadau ar gyfer y dyfodol"*
- *"WAW, roedd yn siwrnai emosiynol gyffroes i'w gweld nhw'n datblygu o'r amser pan gyrhaeddon nhw ar y dydd Gwener i pan aethon nhw adref bnawn dydd Sul"*

## Gwasanaethau Oedolion

1. **Darpariaeth Tai â Chymorth ar gyfer Oedolion ag Anableddau Dysgu**

Cynhaliwyd adolygiad mewnol o gynlluniau tai â chymorth i nodi anghenion yn y dyfodol ac ystyried tai addas ar gyfer y dyfodol. Bydd un cynllun newydd yn cael ei

gwblhau ym mis Mai 2023 ac mae disgwyl datblygiadau pellach yn 2024. Ein bwriad yw bod â chyfres o ddatblygiadau a fydd yn helpu i foderneiddio ffurf y gwasanaeth a chynorthwyo i gefnogi unigolion yn y gymuned.

**2. Datblygiadau yn y Timau Adnoddau Cymunedol (TAC)**

Rydym wedi datblygu'r gwaith integreiddio WCCIS yn ystod y flwyddyn, ac mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr wedi cyflwyno'r system WCCIS i'w Timau Adnoddau Cymunedol. Y nod fydd ymestyn mynediad i weithwyr iechyd eraill a sicrhau fod gennym wybodaeth lân i wella'r llif o wybodaeth rhwng gwasanaethau ac i reoli'r galw, gyda hynny'n fuddiol i brofiad defnyddwyr.

**3. Rheolwr Gwasanaeth – Pobl Hŷn ac Iechyd Meddwl**

Rydym yn falch o adrodd ein bod wedi llenwi'r swydd hon yn ddiweddar. Olwena Davey, sydd wedi bod yn cyflawni'r swydd dros dro, oedd yn llwyddiannus yn y broses recriwtio ac felly mae hi wedi dechrau ar ei swydd newydd yn barod, gyda chyfrifoldeb ychwanegol am Iechyd Meddwl Oedolion.

**4. Diwrnod Agored 50+ Caergybi – Datganiad i'r Wasg**

Y trydydd mewn cyfres o Ddiwrnodau Agored i bobl dros 50 oed yng Nghanolfannau Hamdden Môn Actif, yn dilyn dau Ddiwrnod Agored llwyddiannus yn Amlwch a Biwmares y llynedd. Roedd y Diwrnod Agored yn cynnig cyfle i roi cynnig ar amrywiaeth o weithgareddau hamdden, a hynny yn rhad ac am ddim, gan gynnwys *Pickleball*, Pêl-rwyd Cerdded, Ymarfer mewn Grŵp a gweithgaredd Celf a Chrefft. Roedd cyfle hefyd i ymweld â phedair ar ddeg o stondinau a oedd yn cynnwys sefydliadau megis Medrwn Môn, *Re-engage*, Gwasanaeth Cynnal Gofalwyr, Tai Môn, y Gwasanaeth Llyfrgell a llawer mwy.

Roedd GIG Cymru yn bresennol hefyd, ac roedd cyfle i fynychwyr dderbyn brechiad ffliw.

Trefnwyd y stondinau gwybodaeth yn dilyn adborth yn deillio o waith ymgysylltu Ynys Môn Oed Gyfeillgar a oedd wedi nodi angen gan unigolion a sefydliadau/elusennau am fwy o gyfleoedd i rannu a derbyn gwybodaeth a chyngor wyneb yn wyneb ac yn y gymuned.

Daeth dros 55 o bobl i'r digwyddiad ac arhosodd y mwyafrif drwy gydol y dydd. Derbyniwyd ymateb cadarnhaol iawn i'r digwyddiad, ac roedd nifer yn gwerthfawrogi'r stondinau gwybodaeth, gan fynegi diddordeb mewn cofrestru ar gyfer dosbarthiadau. Adborth a dderbyniwyd:
*"Daliwch ati i gynnal mwy o ddigwyddiadau fel hyn"; "rydym wedi mwynhau'n fawr iawn".*
Cynhelir y Diwrnod Agored 50+ nesaf yn ystod y misoedd nesaf yng Nghanolfan Hamdden Plas Arthur, Llangefni a bwriedir ailadrodd y digwyddiadau bob blwyddyn.

Lluniau o'r digwyddiad:





| Ff – Papurau cefndir (cysylltwch ag awdur yr adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach): |
| --- |
| |

This page is intentionally left blank

| **Cyngor Sir Ynys Môn** | |
|---|---|
| Adroddiad i: | Pwyllgor Gwaith |
| Dyddiad: | 21 Mawrth 2023 |
| Pwnc: | Moderneiddio Ysgolion Môn – Symud dyddiad gweithredu'r rhybudd statudol ar gyfer Ysgol y Graig ac Ysgol Talwrn |
| Deilydd Portffolio: | Y Cynghorydd Ieuan Williams |
| Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr: | Marc B Hughes<br>Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc |
| Awdur yr Adroddiad:<br>Ffôn:<br>E-bost: | Emrys Bebb<br>2919<br>emrysbebb@ynysmon.llyw.cymru |
| Aelodau Lleol: | Y Cynghorydd Non Dafydd<br>Y Cynghorydd Dylan Rees<br>Y Cynghorydd Paul Ellis |

A –Argymhelliad/Argymhellion a rheswm/rhesymau

**Rhesymau:**

Er mwyn cydymffurfio â'r Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a'r Cod Trefniadaeth Ysgolion, cyhoeddodd yr Awdurdod **Rybudd Statudol** o'i fwriad i:

beidio â chefnogi Ysgol Talwrn, Talwrn, Ynys Môn LL77 7TG sydd ar hyn o bryd yn cael ei chynnal gan Gyngor Sir Ynys Môn ac i gynyddu capasiti Ysgol y Graig sydd yn ysgol gynradd gymunedol cyfrwng Cymraeg ac sy'n cael ei chynnal gan Gyngor Sir Ynys Môn ar safle ger yr Ysgol y Graig bresennol Llangefni, LL77 7LP ar gyfer bechgyn a merched 3-11 oed.

Cyhoeddwyd y **Rhybudd Statudol** ar 18 Ionawr 2021 ac roedd cyfnod o 28 diwrnod i wrthwynebu'r cynigion yn dilyn a daeth y cyfnod gwrthwynebu i ben ar 15 Chwefror, 2021. Derbyniwyd gwrthwynebiadau i'r cynnig uchod. Paratowyd adroddiad ar y gwrthwynebiadau a penderfynodd y Pwyllgor Gwaith yn ei gyfarfod ar 15 Mawrth 2021 i gymeradwyo'r cynnig gwreiddiol.

Er hynny, dyddiad gweithredu'r cynnig oedd 1 Medi 2023. Mae nifer o ffactorau wedi gwthio dyddiad cychwyn y cynnig yn ôl am y rhesymau canlynol:

a. Cymerodd y broses pryniant tir hirach na'r disgwyl.
b. Bu'r broses o gael caniatâd cynllunio hefyd yn hirach na'r disgwyl ac ni chafwyd caniatâd cynllunio tan 6 Gorffennaf 2022.
c. Ychwanegodd Etholiad Cyngor Sir Ynys Môn ar 5 Mai 2022 6 wythnos at y broses oherwydd y cyfnod cyn etholiadol.
ch. Ar ôl i'r darpar brosiect fynd allan i dendr ym mis Chwefror 2022, tynnwyd y bidiau yn ôl oherwydd roedd costau nwyddau yn cynyddu oherwydd y rhyfel yn Wcrain ac roedd rhaid i'r Cyngor fynd allan i dendr eto ar ôl diwedd y cyfnod etholiadol ar gyfer Etholiad Cyngor Sir Ynys Môn.
d. Amod o'r caniatâd cynllunio gafwyd gan y Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion yn ei gyfarfod ar 6 Gorffennaf 2022 oedd fod rhaid gwneud gwaith archeolegol ar y safle cyn adeiladu. Cafodd hyn i ychwanegu i'r amserlen. Yna gwthiwyd dyddiad cychwyn y gwaith archeolegol yn ôl bron i bythefnos oherwydd marwolaeth y Frenhines.

| A –Argymhelliad/Argymhellion a rheswm/rhesymau |
| --- |
| Dywed rhan 6 o'r Cod Trefniadaeth Ysgolion 2018: "O dan adran 55 o'r Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013, os bydd cynigydd yn fodlon, ar ôl ymgynghori ag unrhyw gorff llywodraethu yr effeithir arno, y byddai'n afresymol o anodd gweithredu cynnig ar y dyddiad gweithredu gwreiddiol, neu fod yr amgylchiadau wedi newid cymaint ers i'r cynnig gael ei gymeradwyo ei bod yn amhriodol ei weithredu ar y dyddiad gwreiddiol, gall addasu'r cynnig fel bod y broses o'i weithredu yn cael ei gohirio am hyd at dair blynedd.<br><br>Pan fydd awdurdod lleol wedi penderfynu ynghylch cynnig o dan adran 53 o Ddeddf 2013, gall yr awdurdod lleol ei hun benderfynu gohirio, prysuro neu roi'r gorau i'r cynnig.<br><br>Rhaid hysbysu partïon perthnasol gan gynnwys Gweinidogion Cymru, Estyn, yr awdurdod lleol cynhaliol, a chyrff llywodraethu, rhieni, disgyblion a staff unrhyw ysgol y mae cynnig yn effeithio arni, fel y bo'n briodol, o unrhyw benderfyniad i ohirio cynnig, dwyn ei ddyddiad gweithredu yn ei flaen neu roi'r gorau iddo cyn saith diwrnod o'r ddyddiad y penderfyniad hwnnw. Rhaid i'r hysbysiad nodi'r rhesymau dros y penderfyniad hwnnw yn gryno."<br><br>Cytunodd y Pwyllgor Gwaith mai dyddiad cyflawni gwreiddiol y rhybudd statudol oedd 1 Medi 2023 ond oherwydd y rhesymau restrwyd uchod, gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith ymestyn y cyfnod am 12 mis i 1 Medi 2024. Yn unol â hyn, mae angen i Bwyllgor Gwaith Cyngor Sir Ynys Môn, fel cynigydd y bwriad yn y rhybudd statudol benderfynu ohirio dyddiad gweithredu'r cynnig i 1 Medi 2024.<br><br>**Argymhellir fod y Pwyllgor Gwaith:**<br>Yn cymeradwyo oedi dyddiad gweithredu'r cynnig sef i "gynyddu capasiti Ysgol Y Graig i gymryd disgyblion o Ysgol Talwrn, cau Ysgol Talwrn ac adolygu dalgylchoedd Ysgol Y Graig ac Ysgol Talwrn" i 1 Medi 2024.<br><br>Yn amodol ar yr uchod, bydd swyddogion yna'n hysbysu'r "partïon perthnasol" o'r penderfyniad i ohirio dyddiad gweithredu'r cynnig ar gyfer Ysgol y Graig. |

| B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a pham wnaethoch chi eu gwrthod a / neu ddewis yr opsiwn hwn? |
| --- |
| Nid oes opsiwn arall dan sylw oherwydd nid yw cadw at yr amserlen wreiddiol a osodwyd gan y Pwyllgor Gwaith yn bosib oherwydd y rhesymau sydd wedi eu rhestru yn rhan A uchod. |

| C – Pam mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith? |
| --- |
| Cytunwyd yr amserlen wreiddiol gan y Pwyllgor Gwaith ac felly mae tu hwnt i bwerau dirprwyedig swyddogion i newid yr amserlen. |

| Ch – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn? |
| --- |
| Ydy. Y Pwyllgor Gwaith sy'n gyfrifol am faterion moderneiddio ysgolion. Mae'n cyd-fynd â'r Strategaeth Moderneiddio Ysgolion Ynys Môn (a fabwysiadwyd gan y Pwyllgor Gwaith, Hydref 2018) a'r Ddogfen Gyflawni Flynyddol 2019/20 (a fabwysiadwyd gan y Cyngor Llawn). |

| D – A yw’r penderfyniad hwn oddi fewn i’r gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor? |
| --- |
| Cafodd y prosiect arfaethedig ei gymeradwyo ar ôl ei newid i adlewyrchu’r costau newydd dderbyniwyd o ganlyniad i ail dendro. Cymeradwywyd hyn gan y Pwyllgor Gwaith ar Gorffennaf 19, 2022. |

| Dd – Asesu’r effaith bosib (os yn berthnasol): | | |
| --- | --- | --- |
| 1 | Sut mae’r penderfyniad hwn yn effeithio ar ein hanghenion tymor hir fel Ynys? | Mae'r penderfyniad hwn yn sicrhau cynaliadwyedd tymor hir addysg yn ardal hon o Langefni ac yn sicrhau bod digon o leoedd ysgol i ddiwallu'r anghenion nawr ac i'r dyfodol ar gyfer cenedlaethau o blant newydd.<br>Bydd hefyd yn sicrhau bod adeiladau ysgol newydd yn addas at y diben ac yn cwrdd â safonau Ysgolion 21ain Ganrif a safonau BREEAM ac yn adeilad Carbon Sero Net. |
| 2 | A yw hwn yn benderfyniad a ragwelir a fydd yn atal costau / dibyniaethau ar yr Awdurdod i’r dyfodol? Os felly, sut? | Ydy – Cafodd ardal Llangefni ei blaenoriaethu fel rhan o'r rhaglen foderneiddio ysgolion, oherwydd diffyg capasiti’r ysgolion. Mae unrhyw gynnig i greu capasiti ychwanegol yn debygol o arwain at gostau ychwanegol, ond bydd yr adeilad newydd ar gyfer Ysgol y Graig yn galluogi plant y dalgylch i fynd i ysgol leol hyd y gellir rhagweld.<br><br>Bydd y cynnig a ffefrir, h.y. adeiladu bloc Cyfnod Sylfaen newydd, yn datblygu adeilad ysgol newydd a fydd yn cyfrannu at yr ysgol yn dod yn “Sefydliad sy’n Dysgu” (Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth Ein Cenedl 2017-2021).<br><br>Yn eu tro, dylai disgyblion gael budd o brofiadau yn yr ysgol fydd yn eu helpu nhw i fod yn oedolion ifanc sy’n:<br>• ddysgwyr uchelgeisiol a medrus, fydd yn barod i ddysgu drwy eu bywydau<br>• gyfranwyr anturus, creadigol, yn barod i chwarae rhan lawn mewn bywyd a gwaith<br>• unigolion iach, hyderus, yn barod i fyw bywydau boddhaus fel aelodau gwerthfawr cymdeithas.<br><br>Bydd y cynnig yn cael ei ariannu 35:65 gan y Cyngor a Llywodraeth Cymru drwy’r Rhaglen Ysgolion 21ain Ganrif.<br><br>Bydd buddsoddiad y Cyngor trwy fenthyciad 60 mlynedd, wedi'i ariannu'n rhannol trwy'r derbyniadau cyfalaf.<br>Bydd yr opsiwn a ffefrir yn dileu'r gwariant cynnal a chadw cyfredol a rhagamcannol yn |

| Dd – Asesu'r effaith bosib (os yn berthnasol): | | |
|---|---|---|
| | | y dyfodol yn Ysgol y Graig ac Ysgol Talwrn ac yn cyfrannu at arbedion refeniw. |
| 3 | A ydym wedi bod yn cydweithio gyda sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn? Os felly, rhowch wybod gyda phwy. | Ydym - Mae'r rhanddeiliaid canlynol wedi cael cyfle i gyfrannu yn ystod y broses ymgynghori statudol:<br>• Aelodau Etholedig Lleol<br>• Aelod Seneddol lleol<br>• Aelod lleol Senedd Cymru<br>• Aelodau Rhanbarthol o'r Senedd<br>• GwE<br>• Estyn<br>• Y Comisiynydd Heddlu a Throsedd<br>• Llywodraeth Cymru<br>• Y Comisiynydd Iaith<br>• Awdurdod Lleol cyfagos<br>• Cynghorau Tref a Chymuned lleol<br>• Undebau llafur yn cynrychioli athrawon a staff Ysgol y Graig ac Ysgol Talwrn<br>• Cylch Meithrin Talwrn<br>• Pennaeth Ysgol Gyfun Llangefni<br>• Uwch Swyddogion Cyngor Sir Ynys Môn<br>• Prif swyddog Ieuenctid Cyngor Sir Ynys Môn<br>• Partïon eraill â diddordeb |
| 4 | A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae'u rhan wrth ddrafftio'r ffordd hon ymlaen? Esboniwch sut. | Do – ymgynghorwyd â rhanddeiliaid ar y cynnig yn ystod yr ymgynghoriad statudol a gynhaliwyd rhwng 6 Chwefror 2020 - 20 Mawrth 2020. Cafodd ymatebion rhanddeiliaid i'r ymgynghoriad statudol eu cynnwys yn yr adroddiad ymgynghori.<br><br>Mae dinasyddion Ynys Môn wedi cael cyfle i gyflwyno opsiynau amgen rhesymol eraill fel rhan o'r broses yn ystod y cyfnod ymgynghori a nodwyd uchod. |
| 5 | Nodwch unrhyw effaith bosibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei chael ar y grwpiau a ddiogelir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. | Gweler yr Asesiad Effaith Cydraddoldeb ar y cynnig |
| 6 | Os yw hwn yn benderfyniad strategol, nodwch unrhyw effaith bosibl y byddai'r penderfyniad yn ei chael ar y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol. | Gweler yr Asesiad Effaith Cydraddoldeb ar y cynnig |
| 7 | Nodwch unrhyw effaith bosibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei chael ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar drin y Gymraeg ddim llai ffafriol na'r iaith Saesneg. | Gweler yr Asesiad Effaith Cydraddoldeb ar y cynnig |

| E – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori? | | Beth ddywedon nhw? |
|---|---|---|
| 1 | Prif Weithredwr / Uwch Dîm Arwain (UDA) (gorfodol) | Mae eu sylwadau wedi eu hymgorffori yn yr adroddiad. |
| 2 | Cyllid / Adran 151 (gorfodol) | Mae eu sylwadau wedi eu hymgorffori yn yr adroddiad. |
| 3 | Swyddog Cyfreithiol / Monitro (gorfodol) | Mae eu sylwadau wedi eu hymgorffori yn yr adroddiad. |
| 4 | Adnoddau Dynol (AD) | Ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau. |
| 5 | Eiddo | Mae eu sylwadau wedi eu hymgorffori yn yr adroddiad. |
| 6 | Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh) | Ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau. |
| 7 | Sgriwtini | Ddim yn berthnasol |
| 8 | Aelodau Lleol | Mae'r aelodau lleol yn ymwybodol o'r oedi. |
| 9 | Unrhyw gyrff allanol / arall/eraill | Mae Cyrff Llywodraethu Ysgol y Graig ac Ysgol Talwrn yn ymwybodol o'r oedi. |

| F - Atodiadau: |
|---|
| |

| Ff – Papurau cefndirol (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad i gael unrhyw wybodaeth bellach): |
|---|
| 1. Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Gwaith ar gyfer 15 Mawrth 2021.<br>2. Dogfennau Ymgynghori Statudol<br>3. Cafodd y prosiect arfaethedig ei gymeradwyo i adlewyrchu'r costau newydd dderbyniwyd o ganlyniad i ail dendro. Cymeradwywyd hyn gan y Pwyllgor Gwaith ar Gorffennaf 19, 2022.<br>4. Cod Trefniadaeth Ysgolion 2018.<br>5. Adroddiad i'r Pwyllgor Gwaith dyddiedig 10 Rhagfyr 2020 ar yr ymgynghori statudol.<br>6. Asesiad Effaith Cydraddoldeb ar gyfer y cynnig |

| Cyngor Sir Ynys Môn | |
|---|---|
| Adroddiad i: | Pwyllgor Gwaith |
| Dyddiad: | 21 Mawrth 2023 |
| Pwnc: | Strategaeth Moderneiddio Cymunedau Dysgu a Datblygu'r Gymraeg |
| Deilydd Portffolio: | Cynghorydd Ieuan Williams |
| Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr: | Marc Berw Hughes |
| Awdur yr Adroddiad:<br>Ffôn:<br>E-bost: | Marc Berw Hughes<br><br>MarcHughes@ynysmon.llyw.cymru |
| Aelodau Lleol: | Yn berthnasol i'r holl Aelodau Etholedig |

A –Argymhelliad/Argymhellion a rheswm/rhesymau

**Argymhelliad**

Cymeradwyo a chefnogi'r cynllun drafft ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus.

**Cefndir**

Mae gan Gyngor Sir Ynys Môn yr uchelgais o sicrhau y bydd ein holl blant a phobl ifanc, waeth beth fo'u cefndir a'u hamgylchiadau, yn cyflawni eu llawn botensial gan alluogi pob dysgwr i ddatblygu tuag at bedwar diben y cwricwlwm, y dyhead ar gyfer pob plentyn a pherson ifanc ar Ynys Môn.

Ers cyhoeddi'r strategaeth wreiddiol yn 2013, mae'r Awdurdod wedi cydweithio â phenaethiaid ac aelodau etholedig i foderneiddio'r stoc ysgolion ar yr ynys. Mae tri phrosiect wedi eu cwblhau hyd yma, ac mae dau brosiect arall ar waith ar hyn o bryd. Erbyn cwblhau'r ddau brosiect hyn, bydd y Cyngor wedi agor pum adeilad ysgol 21ain ganrif mewn pedair ardal, (sy'n cynnwys adeilad cyntaf sero carbon net Cyngor Sir Ynys Môn), wedi diweddaru ac ymestyn dwy ysgol bellach ac wedi cau 11 ysgol fach.

Erbyn cwblhau'r ddau brosiect sydd ar waith, rhagdybir y bydd tua 25% o ddysgwyr cynradd Ynys Môn yn derbyn eu haddysg mewn adeiladau 21ain ganrif. Mae'r prosiectau rydym wedi ymgymryd â nhw hyd yma wedi cael effaith gadarnhaol ar y nifer o lefydd gweigion sydd yn y sector cynradd, yn ogystal ag wedi arwain at arbedion refeniw, a chael gwared â chostau cynnal a chadw cyfredol a rhagamcanol i'r dyfodol.

Mae adroddiad Estyn (Mehefin 2022) yn cydnabod bod y Cyngor yn gwneud cynnydd da wrth foderneiddio trefniadaeth ysgolion:
"*Mae'r awdurdod wedi buddsoddi mewn ystod o brosiectau cyfalaf yn ystod camau cyntaf rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif Llywodraeth Cymru. Maent yn gwneud*

| A –Argymhelliad/Argymhellion a rheswm/rhesymau |
|---|
| *cynnydd da o ran sicrhau bod yr ysgolion addas o'r math priodol yn y lleoedd priodol i fodloni anghenion ei ddysgwyr.*"<br><br>Tra bod Llywodraeth Cymru wedi cyfrannu tuag at 50% o gostau prosiectau Band A, a 65% o gostau prosiectau Band B, mae'r gofyn ar y Cyngor i gyfrannu tuag at weddill y gost. Mae'r gost o adeiladu ysgolion newydd yn ddrud, yn enwedig ar hyn o bryd o ganlyniad i ddigwyddiadau byd-eang.<br><br>Mae'n bwysig bod y Cyngor yn manteisio ar y cyfle i ddenu cyllid allanol (grant) i wella cyflwr ein stad o adeiladau addysgol. Fodd bynnag, wrth ystyried yr her gyllidol y bydd y Cyngor yn debygol o'i hwynebu dros y blynyddoedd nesaf, bydd yn rhaid i'r Cyngor flaenoriaethu'r gwaith cysylltiedig.<br><br>Tra bod cynnydd da wedi ei wneud yn y sector cynradd fel yr amlinellir uchod, mae dros 20% o lefydd gweigion yn y sector uwchradd, ac mae cyflwr adeiladau ysgolion uwchradd wedi dirywio. O ganlyniad, mae'r strategaeth yn rhagweld yr angen i ail-fodelu'r ddarpariaeth uwchradd dros y blynyddoedd nesaf tra hefyd yn gweithredu penderfyniadau anodd eraill.<br><br>Mae'r Strategaeth Moderneiddio Cymunedau Dysgu a Datblygu'r Gymraeg hon wedi ei llunio er mwyn:<br>• Sefydlu trefniadaeth ysgolion sy'n addas ar gyfer y deng mlynedd ar hugain nesaf er mwyn sicrhau'r cyfleoedd gorau i'n plant a'n pobl ifanc ffynnu a manteisio ar y cyfleoedd byd gwaith sydd ar y gorwel;<br>• Parhau i weithredu i sicrhau bod safonau a darpariaeth yn ein hysgolion ymysg y gorau;<br>• Sicrhau bod adnoddau'r Cyngor yn cael eu defnyddio'n effeithiol ac yn effeithlon trwy ddatblygu trefniadaeth sy'n fwy cyfartal o safbwynt cost y pen ar draws ysgolion a sefydlu patrwm addas ar gyfer addysg ôl-16;<br>• Sicrhau bod pob ysgol yn gosod sylfeini cadarn i sicrhau bod pob dysgwr yn cyrraedd lefel o hyfedredd yn y ddwy iaith sy'n berthnasol i'w gallu;<br>• Creu'r amgylchiadau i arweinwyr lwyddo drwy sicrhau bod amser a chymorth digonol iddynt ar gyfer arwain a rheoli;<br>• Sefydlu trefn sy'n sicrhau dilyniant priodol o arweinwyr ysgol;<br>• Sicrhau bod y strategaeth yn cyfrannu at nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ac yn cyfrannu at 'Gynllunio Lle'.<br><br>**Mae'r Cyngor yn awyddus i gynnal ymgynghoriad ar y strategaeth cyn iddi gael ei mabwysiadu, er mwyn gallu cymryd sylwadau rhanddeiliaid a phartneriaid arall i ystyriaeth cyn gwneud penderfyniadau pellach ar sut i symud ymlaen gyda'r rhaglen.** |

| B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a pham wnaethoch chi eu gwrthod a / neu ddewis yr opsiwn hwn? |
|---|
| Ddim yn berthnasol – Nid oes cynnig penodol yn cael ei wneud ar y cam hwn. |

| C – Pam mae hwn yn benderfyniad i’r Pwyllgor Gwaith? |
|---|
| Mae’r Pwyllgor Gwaith yn gyfrifol am faterion moderneiddio ysgolion. |

| Ch – A yw’r penderfyniad hwn yn gyson â’r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn? |
|---|
| Mae’n cyd-fynd â chyfeiriad ac amcanion strategol Cynllun y Cyngor 2023-2028 newydd (sydd wedi ei fabwysiadu gan y Cyngor Sir yn ei gyfarfod ar y 9fed o Fawrth 2023). |

| D – A yw’r penderfyniad hwn oddi fewn i’r gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor? |
|---|
| Nid oes ymrwymiad cyllidol ar y cam hwn. |

| Dd – Asesu’r effaith bosib (os yn berthnasol): | | |
|---|---|---|
| 1 | Sut mae’r penderfyniad hwn yn effeithio ar ein hanghenion tymor hir fel Ynys? | Mae'r strategaeth wedi ei llunio i sicrhau ysgolion effeithiol gydag amgylchfyd addysgu pwrpasol.<br><br>Bydd hefyd yn sicrhau bod adeiladau ysgol newydd yn addas i bwrpas ac yn cwrdd â safonau Cymunedau Dysgu Cynaliadwy, BREEAM a Sero Carbon Net. |
| 2 | A yw hwn yn benderfyniad a ragwelir a fydd yn atal costau / dibyniaethau ar yr Awdurdod i’r dyfodol? Os felly, sut? | Nid oes cynigion penodol yn cael eu gwneud ar y cam hwn, fodd bynnag, yn gyffredinol mae potensial i gynlluniau arwain at leihad mewn costau cynnal a chadw cyfredol a rhagamcanol, trwy fuddsoddi mewn adeiladau ysgol. |
| 3 | A ydym wedi bod yn cydweithio gyda sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn? Os felly, rhowch wybod gyda phwy. | Argymhelliad yr adroddiad hwn yw cymeradwyo swyddogion i ymgynghori ar y strategaeth. |

| Dd – Asesu'r effaith bosib (os yn berthnasol): | | |
|---|---|---|
| | | Yn amodol ar ganiatâd y Pwyllgor Gwaith, byddwn yn ymgynghori gyda'r rhanddeiliaid canlynol:<br>• Fforwm Penaethiaid Cynradd<br>• Fforwm Penaethiaid Uwchradd<br>• Pennaeth Canolfan Addysg y Bont<br>• Disgyblion sy'n mynychu ysgolion Ynys Môn<br>• Rhieni / gwarchodwyr<br>• Cyrff llywodraethol<br>• Cynghorau tref a chymuned<br>• Aelodau Etholedig Lleol<br>• Aelod Seneddol Lleol<br>• Aelod Lleol Senedd Cymru<br>• Aelodau Rhanbarthol o'r Senedd<br>• GwE<br>• Estyn<br>• Y Comisiynydd Heddlu a Throsedd<br>• Llywodraeth Cymru<br>• Comisiynydd yr Iaith<br>• Awdurdod lleol cyfagos<br>• Cynghorau tref a chymuned lleol<br>• Undebau llafur yn cynrychioli athrawon<br>• Cylchoedd Meithrin<br>• Uwch swyddogion Cyngor Sir Ynys Môn<br>• Prif swyddog Ieuenctid Cyngor Sir Ynys Môn<br>• Pwyllgor Sgriwtini<br>• Partïon eraill â diddordeb |
| 4 | A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae'u rhan wrth ddrafftio'r ffordd hon ymlaen? Esboniwch sut. | Argymhelliad yr adroddiad hwn yw cymeradwyo swyddogion i ymgynghori ar y strategaeth cyn i'r strategaeth derfynol gael ei mabwysiadu. Bydd sylwadau dinasyddion Môn ac eraill yn cael eu cymryd i ystyriaeth. |

| Dd – Asesu'r effaith bosib (os yn berthnasol): | | |
|---|---|---|
| 5 | Nodwch unrhyw effaith bosibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei chael ar y grwpiau a ddiogelir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. | Nid oes cynnig penodol yn cael ei wneud ar y cam hwn. Pan fydd y strategaeth derfynol wedi ei mabwysiadu, ac wrth iddi gael ei gwireddu, bydd cynigion penodol yn cael eu gwneud. Bydd asesiad effaith unigol yn cael ei wneud fesul cynnig wrth iddynt gael eu datblygu. Bydd yr asesiad effaith yn asesu, ar gyfer y cynnig penodol dan sylw, unrhyw effaith bosibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei chael ar y grwpiau a ddiogelir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. |
| 6 | Os yw hwn yn benderfyniad strategol, nodwch unrhyw effaith bosibl y byddai'r penderfyniad yn ei chael ar y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol. | Nid oes cynnig penodol yn cael ei wneud ar y cam hwn. Pan fydd y strategaeth derfynol wedi ei mabwysiadu, ac wrth iddi gael ei gwireddu, bydd cynigion penodol yn cael eu gwneud. Bydd asesiad effaith unigol yn cael ei wneud fesul cynnig wrth iddynt gael eu datblygu. Bydd yr asesiad effaith yn asesu, ar gyfer y cynnig penodol dan sylw, unrhyw effaith bosibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei chael ar y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol. |
| 7 | Nodwch unrhyw effaith bosibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei chael ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar drin y Gymraeg ddim llai ffafriol na'r iaith Saesneg. | Pan fydd y strategaeth derfynol wedi ei mabwysiadu, ac wrth iddi gael ei gwireddu, bydd cynigion penodol yn cael eu gwneud. Bydd asesiad effaith unigol yn cael ei wneud fesul cynnig wrth iddynt gael eu datblygu. Bydd yr asesiad effaith yn asesu, ar gyfer y cynnig penodol dan sylw, unrhyw effaith bosibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei chael ar drin y Gymraeg ddim llai ffafriol na'r Saesneg. |

| E – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori? | | Beth ddywedon nhw? |
|---|---|---|
| 1 | Prif Weithredwr / Uwch Dîm Arwain (UDA) (gorfodol) | Wedi ei ymgorffori yn yr adroddiad hwn. |
| 2 | Cyllid / Adran 151 (gorfodol) | Wedi ei ymgorffori yn yr adroddiad hwn. |
| 3 | Swyddog Cyfreithiol / Monitro (gorfodol) | Wedi ei ymgorffori yn yr adroddiad hwn. |
| 4 | Adnoddau Dynol (AD) | Dylid ymdrin ag unrhyw fater Adnoddau Dynol sy'n codi o'r argymhellion yn unol |

| E – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori? | | Beth ddywedon nhw? |
|---|---|---|
| | | â phrosesau ymgynghori cydnabyddedig a phrosesau AD eraill. |
| 5 | Eiddo | Wedi ei ymgorffori yn yr adroddiad hwn. |
| 6 | Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh) | |
| 7 | Caffael | |
| 8 | Sgriwtini | Amherthnasol |
| 9 | Aelodau Lleol | |

| F - Atodiadau: |
|---|
| **Atodiad 1 – Strategaeth Moderneiddio Cymunedau Dysgu a Datblygu'r Gymraeg** |

| Ff – Papurau cefndirol (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad i gael unrhyw wybodaeth bellach): |
|---|
| Cod Trefniadaeth Ysgolion (11/2018).<br><br>Strategaeth Moderneiddio Ysgolion Ynys Môn (adolygwyd) – Hydref 2018<br><br>Cynllun y Cyngor 2023-2028 |

# STRATEGAETH MODERNEIDDIO CYMUNEDAU DYSGU A DATBLYGU'R GYMRAEG

DRAFT

**Mawrth 2023**

**Statws – SWYDDOGOL**

**Paratowyd gan:**

Marc Berw Hughes, Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc

# Cynnwys

Cyflwyniad

Cynllun y Cyngor – Y Cylch Strategol

Yr Hyn Sydd Wedi ei Gyflawni

Y Sefyllfa Bresennol – Pam Bod Angen Parhau i Newid

Gweledigaeth y Gwasanaeth ac Egwyddorion Arweiniol

Gyrwyr Newid / Amcanion Strategol

Dylunio'r Gweithlu

Heriau i Wireddu'r Strategaeth

Amserlen Gweithredu

Sut bydd y Strategaeth Moderneiddio Cymunedau Dysgu a Datblygu'r Gymraeg yn effeithio ar brofiad defnyddwyr?

Proses Deddfwriaethol

Monitro, Rheolaeth a Llywodraethant

DRAFT

# Cyflwyniad

**Ym Mawrth 2022, dywedodd Jeremy Miles, Gweinidog Addysg Cymru:**

*''Mae mynd i'r afael ag effaith tlodi ar gyrhaeddiad yn hanfodol os ydym am sicrhau dyheadau a safonau uchel i bawb. Rydym yn gwybod bod y cartref a'r gymuned yn dylanwadu'n fawr ar gyfleoedd bywyd plant a phobl ifanc a bod angen rhagor o gymorth ar athrawon i fynd i'r afael â'r materion y mae rhai plant a phobl ifanc yn eu hwynebu. Drwy fuddsoddi mewn ysgolion bro, rydym yn sicrhau bod gan ddysgwyr y cymorth sydd ei angen arnynt i wireddu eu potensial.*


*Mae ysgolion bro yn datblygu partneriaethau ag ystod o sefydliadau, ac yn sicrhau bod gwasanaethau ar gael yn lleol i deuluoedd ac i'r gymuned ehangach. Maent yn defnyddio eu cyfleusterau a'u hadnoddau er budd y cymunedau y maent yn eu gwasanaethau, gan wella bywyd plant, cryfhau teuluoedd ac adeiladu cymunedau cryfach.*

*Yn anad dim, cenhadaeth ein cenedl yw mynd i'r afael ag effaith tlodi ar gyrhaeddiad addysgol a gosod safonau uchel i bawb. Rwyf i am i bob person ifanc gael uchelgeisiau mawr ar gyfer eu haddysg a'u gyrfaoedd yn y dyfodol ac mae hynny'n golygu defnyddio pob dull sydd gennym i'w cefnogi nhw.''*

Er mwyn ymateb i hyn a sicrhau bod dysgwyr ar draws Ynys Môn yn derbyn yr addysg y maent yn ei haeddu, mae Cyngor Sir Ynys Môn wedi adolygu ei gynllun Moderneiddio Cymunedau Dysgu a Datblygu'r Gymraeg. Rhoddwyd sylw cadarnhaol i hyn yn adroddiad arolygu Estyn ar Gyngor Sir Ynys Môn yn 2022:

*"Mae gweledigaeth glir ar gyfer ad-drefnu a moderneiddio ysgolion, sy'n seiliedig ar sicrhau bod yr ysgolion yn addas ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain ac yn gwneud y defnydd gorau o dechnoleg fodern. Rhoddir sylw blaenllaw i ddatblygu'r ddarpariaeth ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg a dwyieithog o fewn y strategaeth moderneiddio. Mae rhai elfennau o'r weledigaeth ar waith, ac yn cael effaith gadarnhaol, er enghraifft ehangu darpariaeth canolfannau iaith a lleihau llefydd gweigion ysgolion. Mae rhai agweddau o'r weledigaeth, er enghraifft moderneiddio addysg ôl 16 ar yr ynys, yn eu dyddiau cynnar.*

# Cynllun y Cyngor – Y Cylch Strategol




Mae'r cylch strategol yn adnabod y cynlluniau sydd gan y Cyngor yn eu lle er mwyn sicrhau ein bod yn gallu cyflawni ein blaenoriaethau a'n hamcanion, maent yn adnabod beth sydd angen ei gyflawni, sut rydym am gyflawni hyn a pham. Mae Cynllun y Cyngor a'r cynlluniau strategol yn datgan gweledigaeth y Cyngor, ynghyd â'r egwyddorion cyffredinol a meysydd blaenoriaeth allweddol. Mae'r strategaeth hon yn un o gynlluniau strategol y Cyngor a bydd yn gynllun annatod er mwyn cefnogi'r weledigaeth a'r amcanion allweddol o fewn Cynllun y Cyngor.

DRAFT

# Yr Hyn sydd wedi ei Gyflawni

Ers cyhoeddi'r strategaeth wreiddiol yn 2013, mae'r Awdurdod wedi cydweithio gyda phenaethiaid ac aelodau etholedig i foderneiddio'r stoc ysgolion ar yr ynys drwy gyfuno 10 o ysgolion cynradd llai ac adeiladu ysgolion 21ain ganrif mewn tair ardal. Mae dau brosiect arall ar waith ar hyn o bryd, ble mae penderfyniadau wedi eu gwneud i ehangu un ysgol, ail-leoli un ysgol i adeilad newydd, a chau un ysgol. Erbyn cwblhau'r ddau brosiect hyn, bydd y Cyngor wedi cau 11 ysgol fach, wedi diweddaru ac ymestyn dwy ysgol, ac wedi agor pum adeilad ysgol 21ain ganrif mewn pedair ardal, sy'n cynnwys adeilad cyntaf sero carbon net Cyngor Sir Ynys Môn.

Mae'r prosiectau sydd wedi eu cwblhau hyd yma:

- Wedi cael effaith gadarnhaol ar lefydd gweigion ysgolion cynradd yr ynys, gyda sefyllfa bresennol yn dangos mai 13% o lefydd gweigion sy'n perthyn i'r sector cynradd yn Medi 2022 (i'w gymharu â 28% yn 2011).
- Wedi arwain at arbedion refeniw drwy'r fformiwla cyllido ysgolion yn agos at £350k, ac wedi arwain at leihad yn y costau cynnal a chadw cyfredol a rhagamcanol o dros £1.6m.

Bydd y ddau brosiect sydd ar waith ar hyn o bryd yn arwain at arbediad pellach mewn costau cynnal a chadw cyfredol a rhagamcanol o tua £1m ychwanegol.

Erbyn cwblhau'r ddau brosiect sydd ar waith (2024), rhagdybir y bydd tua 25% o ddysgwyr cynradd Ynys Môn yn derbyn eu haddysg mewn adeiladau'r 21ain ganrif.

Mae Adroddiad Estyn (Mehefin 2022) yn cydnabod bod y Cyngor yn gwneud cynnydd da wrth foderneiddio trefniadaeth ysgolion:

"*Mae'r awdurdod wedi buddsoddi mewn ystod o brosiectau cyfalaf yn ystod camau cyntaf rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif Llywodraeth Cymru. Maent yn gwneud cynnydd da o ran sicrhau bod yr ysgolion addas o'r math priodol yn y lleoedd priodol i fodloni anghenion ei ddysgwyr*"

DRAFT

# Y Sefyllfa Bresennol – Pam Bod Angen Parhau i Newid?

**Canran Uchel o Ysgolion Bach**

Mae Llywodraeth Cymru, drwy'r *Gorchymyn Addysg (Ysgolion Bach) (Cymru) 2014*, yn diffinio ysgolion bach fel ysgolion sydd â llai na 91 disgybl. Er bod y nifer o ysgolion sy'n cyrraedd y diffiniad wedi gostwng yn sylweddol dros y degawd diwethaf ym Môn (ar sail niferoedd Medi 22), mae dal 17 (43%) ysgol yn Ynys Môn sy'n cael eu hystyried i fod yn ysgolion bach yn ôl diffiniad Llywodraeth Cymru.

Mae'r heriau canlynol yn wynebu ysgolion bach:

- Addysgu dosbarthiadau oedran cymysg yn cynnwys mwy na 2 neu 3 o grwpiau oedran;
- Maint cyfyngedig grwpiau cymheiriaid a digonolrwydd her;
- Cyfleoedd cyfyngedig ar gyfer rhyngweithio cymdeithasol;
- Anawsterau gyda recriwtio a chadw staff;
- Beichiau gormodol ar staff a'r arbenigedd uwch sy'n ofynnol i gefnogi disgyblion gydag anghenion dysgu ychwanegol.

Tra bod yr heriau hyn yn wynebu'r ysgolion, mae'n bwysig nodi ei fod yn mynd yn anoddach i gydbwyso'r gyllideb gorfforaethol yn flynyddol.

**Newid Demograffeg**

Mae'n amlwg o ddata cyfrifiad bod poblogaeth Ynys Môn wedi, ac yn parhau i heneiddio. Yn ôl cyfrifiad 1981, roedd 23% o boblogaeth yr ynys o fewn grŵp oedran dan 15, gyda dim ond 15% o'r boblogaeth yn 65 mlwydd oed neu hyn. Erbyn cyfrifiad 2021, mae'r canran o'r boblogaeth o oedran dan 15 wedi gostwng i 16%, a'r canran o'r boblogaeth o oed 65+ wedi cynyddu i 26%. Rhagdybir erbyn 2031 bydd y canran o blant o dan 15 oed wedi gostwng ymhellach i 13% gyda'r canran o bobl 65+ yn cynyddu i 28%.

Yn Ionawr 2021, roedd 5,177 o ddisgyblon (Bl Derbyn – Bl6) yn mynychu ysgolion cynradd Môn, tra bod 3,908 o ddisgyblion (Bl 7 – Bl12) yn mynychu ysgolion uwchradd Môn.

Ar sail y newid mewn demograffeg a nodir uchod, amcangyfrifir y bydd y niferoedd hyn yn lleihau i 4,264 o ddisgyblion cynradd, a 3,219 o ddisgyblion uwchradd erbyn 2031. Mae hyn yn gyfystyr â lleihad o 913 disgybl cynradd, a 689 disgybl uwchradd. Mae hyn yn cyfateb â'r angen am tua 7 ysgol gynradd yn llai (ar sail cyfartaledd o 130 disgybl ym mhob ysgol), ac 1 ysgol uwchradd yn llai (heb ystyried y llefydd gweigion presennol).

Mae'r data hefyd yn dangos bod llai o blant oed ysgol rhwng 3 a 15 oed ar Ynys Môn yn siarad Cymraeg o'u cymharu â degawd yn ôl. Bu gostyngiad o 3.5% rhwng 2011 a 2021. Fel arfer, mae'r gallu i siarad Cymraeg yn y grŵp oedran hwn yn uwch na phob grŵp oedran arall.

**Nifer Disgyblion**

Tra bod y canran o lefydd gweigion yn yr ysgolion cynradd wedi lleihau'n sylweddol, mae'r rhagolygon a dderbyniwyd gan benaethiaid ysgolion yn rhagweld y gall niferoedd disgyblion cynradd leihau o 419 o ddisgyblion ymhellach erbyn 2027. Bydd yn bwysig felly bod y nifer o lefydd gweigion yn parhau i gael ei asesu. Mae Llywodraeth Cymru'n diffinio 'nifer sylweddol o lefydd gweigion' fel 25% neu fwy o gapasiti'r ysgol. Mae 13 o ysgolion cynradd Ynys Môn yn cwrdd â'r diffiniad hwn o hyd.

Yn yr uwchradd, mae'r canran o lefydd gweigion (21%) yn bryder ("yn gymharol uchel" nodwyd yn adroddiad Estyn). Yn sgil hyn, bydd angen rhoi ystyriaeth i leihau nifer yr ysgolion uwchradd neu newid yn natur yr ysgolion os am sicrhau dyfodol addysg uwchradd mewn rhai rhannau o'r sir.

**Pwysau Cyllidol**

Mae materion byd-eang, gan gynnwys y rhyfel yn Wcráin, cynnydd mewn costau ynni a phroblemau ynglŷn â'r cadwyni cyflenwi, wedi ac yn parhau i gael effaith sylweddol ar chwyddiant. O ganlyniad, rhagwelwyd y byddai angen cynyddu cyllideb y Cyngor tua £18m erbyn 2023/24 os am gynnig yr un lefel o wasanaeth. Mae cyllideb y Gwasanaeth Dysgu'n cyfrifo am tua 36% o gyllideb net y Cyngor.

Mae gwahaniaeth sylweddol yng nghost y pen ysgolion, gydag amrywiaeth o £3,313 i £11,846 yn y cynradd, ac £5,148 i £6,440 yn yr uwchradd.

Gellid dadlau bod y ffaith fod ysgolion cynradd llai yn derbyn yr hyn sy'n gyfystyr ag arian ychwanegol i gynnal isafswm o lefelau staffio'n golygu bod yr ysgolion mwyaf, sy'n aml yn gwasanaethu'r ardaloedd mwyaf difreintiedig, yn derbyn llai o gyllid. Nid yw hyn yn gynaliadwy at y dyfodol, yn enwedig os bydd costau'n parhau i godi. Gyda'r rhagdybiaeth sydd wedi ei chyfrifo uchod parthed y newid mewn demograffeg, bydd niferoedd disgyblion yn gostwng ymhellach erbyn 2031. Canlyniad hyn yw y bydd yn debygol y bydd mwy o'r ysgolion bach yn cael eu gwarchod, ac o ganlyniad, bydd llai o gyllid i'w rannu rhwng gweddill yr ysgolion. Golyga hyn y bydd yr amrywiaeth mewn cost y pen yn cynyddu.

Wrth symud ymlaen gyda'r rhaglen, bydd rhaid sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio mewn modd sy'n deg ac yn effeithlon, a defnyddio'r cyfle i sicrhau fod y fformiwla ariannu ysgolion yn addas o ystyried newidiadau a ddaw trwy foderneiddio, fel y nodir gan Estyn.

**Cyflwr Adeiladau**

Mae Llywodraeth Cymru'n categoreiddio cyflwr adeiladau ysgol ar raddfa A-D.

Gweler isod ddiffiniad o'r gwahanol gategorïau:

A – Fel newydd

B – Yn weithredol ddiogel ac yn arddangos mân ddirywiad yn unig

C – Angen atgyweirio neu amnewid gweithredol ond mawr yn y tymor byr i'r tymor canolig

D – Risg difrifol o fethiant

Tra bod stoc ysgolion cynradd Ynys Môn i gyd wedi ei asesu i fod yn radd cyflwr 'A' neu 'B' ac eithrio un ysgol, mae 4/5 o ysgolion uwchradd Ynys Môn wedi eu hasesu i fod yn radd cyflwr 'C'. Mae hyn yn amlygu'r angen i roi sylw i gyflwr ein hadeiladau ysgol uwchradd.

Mae costau cynnal a chadw cyfredol a rhagamcanol ysgolion yn codi o flwyddyn i flwyddyn. Rhagwelwyd costau o £22.3m pan gafodd yr asesiad diweddaraf ei gwblhau yn Rhagfyr 2021, gyda £9.3m yn gysylltiedig â'r 40 adeilad cynradd, tra bod dros £13m yn gysylltiedig â'r 5 adeilad uwchradd. Nid oes gan y Cyngor y gyllideb i fynd i'r afael â'r gwaith hwn. Mae hyn yn amlygu'r angen i resymoli ein stoc o adeiladau, fel bod modd buddsoddi mwy yn yr adeiladau fydd yn parhau.

**Datgarboneiddio**

Wrth ymateb i'r argyfwng newid hinsawdd, mae'r Cyngor wedi ymrwymo i fod yn sefydliad carbon sero net erbyn 2030. Er mwyn cyrraedd y targed hwn, mae'r Cyngor (ar holl sector cyhoeddus) yn wynebu heriau a phenderfyniadau amryfal i leihau allyriadau carbon ac i ymateb i newid hinsawdd.

Mae o leiaf 12/40 (30%) o ysgolion cynradd Ynys Môn yn perfformio'n waeth na'r arferol o safbwynt effeithlonrwydd ynni, gyda thair ysgol yn y categori gwaethaf posibl.

Bydd angen gwella effeithlonrwydd ynni ein stoc o ysgolion yn sylweddol os am gyrraedd y targed o fod yn sefydliad carbon sero net.

Yn sgil yr uchod, noder bod y Strategaeth Moderneiddio Cymunedau Dysgu a Datblygu'r Gymraeg hon wedi ei llunio er mwyn:

- Sefydlu trefniadaeth ysgolion sy'n addas ar gyfer y deng mlynedd ar hugain nesaf er mwyn sicrhau'r cyfleoedd gorau i'n plant a'n pobl ifanc ffynnu a manteisio ar y cyfleoedd byd gwaith sydd ar y gorwel;
- Parhau i weithredu'n i sicrhau bod safonau a darpariaeth yn ein hysgolion ymysg y gorau;

- Sicrhau bod adnoddau'r Cyngor yn cael eu defnyddio'n effeithiol ac yn effeithlon drwy ddatblygu trefniadaeth sy'n fwy cyfartal o safbwynt cost y pen ar draws ysgolion a sefydlu patrwm addas ar gyfer addysg ôl-16;
- Sicrhau bod pob ysgol yn gosod sylfeini cadarn i sicrhau bod pob dysgwr yn cyrraedd lefel o hyfedredd yn y ddwy iaith sy'n berthnasol i'w gallu;
- Creu'r amgylchiadau i arweinwyr lwyddo drwy sicrhau bod amser a chymorth digonol iddynt ar gyfer arwain a rheoli;
- Sefydlu trefn sy'n sicrhau dilyniant priodol o arweinwyr ysgol;
- Sicrhau bod y strategaeth yn cyfrannu at nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ac yn cyfrannu at 'Gynllunio Lle'.

# Gweledigaeth ac Egwyddorion Arweiniol

**'Yr Ynys Ddysg gyda Chymunedau sy'n Dysgu, Gwasanaeth Dysgu ac Ysgolion fel Sefydliadau sy'n Dysgu'.**

Mae gan Gyngor Sir Ynys Môn yr uchelgais o sicrhau y bydd ein holl blant a phobl ifanc, waeth beth fo'u cefndir a'u hamgylchiadau, yn cyflawni eu llawn botensial gan alluogi pob dysgwr i ddatblygu tuag at bedwar diben y cwricwlwm, y dyhead ar gyfer pob plentyn a pherson ifanc ar Ynys Môn.

Prif egwyddorion y Gwasanaeth Dysgu yw:

- Sicrhau y gall pob plentyn ar yr ynys gyflawni eu llawn botensial a chael y profiadau gorau posibl.
- Sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc yn gwbl ddwyieithog ac yn gallu defnyddio'r Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal ar ddiwedd eu cyfnod yn yr ysgol.
- Ysgolion sydd wedi eu ffocysu ar eu cymunedau (ysgolion bro), gyda rhanddeiliaid a phartneriaethau'n cyfrannu at y rôl hon. Paratoi pobl ifanc ar gyfer anghenion gweithlu'r dyfodol drwy ddatblygu sgiliau a phrofiadau digidol.
- Denu'r staff gorau i'n hysgolion i roi'r profiadau gorau i'n plant.
- Gweithredu yn y ffordd fwyaf cost-effeithiol, effeithlon, cynhaliol ac ecogyfeillgar.
- Sicrhau bod lles a chynhwysiant dysgwyr yn flaenoriaeth ac yn graidd i unrhyw fater addysgol.
- Sicrhau bod penderfyniadau a wneir heddiw'n cyfrannu'n effeithiol tuag at faterion amgylcheddol a newid hinsawdd.
- Sicrhau cynnig o ansawdd i ddisgyblion ôl-16, sy'n addas i anghenion dyfodol Ynys Môn.

Bydd hyn yn golygu y bydd ein holl blant, pobl ifanc a dysgwyr yn:

- **Ddysgwyr uchelgeisiol, galluog**

DRAFT

- **Cyfranwyr mentrus, creadigol**
- **Dinasyddion egwyddorol, gwybodus**
- **Unigolion iach, hyderus.**

Bydd y rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy'n allweddol i wireddu'r weledigaeth uchelgeisiol uchod trwy sicrhau ysgolion effeithiol o'r maint cywir, yn y lleoliadau cywir, gydag amgylchfyd addysgu pwrpasol, sy'n cael eu harwain gan arweinwyr ysbrydoledig. I gyrraedd y nod hwn, bydd angen adolygu'r sefyllfa bresennol ac ystyried y ffordd orau ymlaen yn seiliedig ar ofynion a natur yr anghenion.

DRAFFT

# Gyrwyr Newid / Amcanion Strategol

***Safonau  - Darparu'r addysg orau i bobl ifanc yn yr hinsawdd gyllidol yr ydym ynddi fel bod addysg yn gallu ffynnu ar ôl Covid-19, ac ymateb i anghenion dyfodol dinasyddion Ynys Môn.***

Mae’r Awdurdod am sicrhau’r canlyniadau gorau posibl ar gyfer dysgwyr drwy sicrhau bod y system yn addas ar gyfer y genhedlaeth hon a chenedlaethau’r dyfodol.

Bydd y strategaeth hon yn rhoi sylw i hyn gan edrych i greu’r amodau fel bod penaethiaid, athrawon a disgyblion yn llwyddo. Mae profiadau'r Awdurdod gydag ysgolion llai wedi cadarnhau bod angen cymorth a chefnogaeth uwch na’r disgwyliedig i rai ysgolion llai, ac mae hyn yn fwy amlwg ble mae pryderon am ansawdd yr arweinyddiaeth ac/neu ansawdd yr addysgu mewn dosbarthiadau unigol.

Mewn ysgolion uwchradd llai eu maint, mae'n her i gynnal ansawdd ac ehangder y cwricwlwm. Yn ogystal â hyn, mae’r gallu i gadw staff arbenigol, yn enwedig yn y pynciau craidd ac ar lefel reolaethol, yn heriol.

Wrth i’r cwricwlwm newydd wreiddio, daw cyfleoedd euraidd i sefydlu ysgolion traws-sector [3-16 neu 3-18] sy’n gwneud y mwyaf o arbenigeddau staff a’r cyfleoedd i ddysgu ac addysgu’n drawsbynciol. Mae ysgolion traws-sector hefyd yn rhoi cyfleoedd i osgoi’r ‘gostyngiad mewn perfformiad’ a welir ymysg dysgwyr wrth drosglwyddo o’r cynradd i’r uwchradd.

***Arweinyddiaeth a Rheolaeth - Cynyddu capasiti i ddatblygu arweinyddiaeth effeithiol yn ein hysgolion ac i gynllunio olyniaeth.***

Mae ysgolion effeithiol yn cael eu harwain yn dda. Mae gan ein hysgolion llwyddiannus arweinyddiaeth gref ar bob lefel, gan gynnwys llywodraethwyr.

Mae’r heriau sy’n gysylltiedig ag arwain a rheoli ysgol wedi cynyddu’n sylweddol ac mae’r disgwyliadau’n parhau i gynyddu.  Ar hyn o bryd, mae gan nifer o’r penaethiaid cynradd ymrwymiad dysgu penodol sylweddol, yn enwedig yn yr ysgolion bach.  Mae penaethiaid ysgolion llai hefyd yn cyflawni ystod o dasgau gweinyddol. Mae recriwtio penaethiaid o dan yr amodau hyn yn heriol.

Mae angen i ysgolion cynradd fod yn faint addas i fod â phennaeth nad yw’n addysgu am ganran sylweddol o amser. Byddai hynny’n rhoi’r amser angenrheidiol i’r pennaeth ymgymryd â swyddogaethau arweinyddol allweddol o fewn yr ysgol neu’r ffederasiwn, wrth gynnig profiadau arwain i aelodau staff a chyfrannu at gynllunio olyniaeth.

***Nifer Disgyblion / Llefydd Gweigion - Darparu Addysg sy'n cyd-fynd â gofynion poblogaeth yr ynys. Lleihad yn y nifer o lefydd dros ben er mwyn gwneud defnydd effeithlon o adnoddau.***

Mae oedran yr ynys yn heneiddio. Yn wir, gwelwyd cwymp yn y canran o blant sydd o oed ysgol (0-15) yn ffigyrau'r cyfrifiad diweddar. Os bydd y cwymp hwn yn parhau, rhagwelir gostyngiad o 3% pellach yng nghanran y boblogaeth sydd 'o dan 15 oed' erbyn 2031. O ganlyniad i'r newid hwn mewn demograffeg, a'r lleihad sydd wedi ei brofi yn y nifer o bobl ifanc o oed ysgol sy'n byw ar yr ynys, yn ogystal â'r lleihad pellach a welir mewn rhagolygon penaethiaid am y 5 blwyddyn nesaf, mae'n bwysig bod y Cyngor yn parhau i fonitro'r nifer o lefydd gweigion, i sicrhau defnydd effeithlon o adnoddau.

Ym Medi 2022, roedd bron i hanner ysgolion cynradd Ynys Môn yn cwrdd â diffiniad Llywodraeth Cymru o fod yn ysgolion bach (llai na 91 disgybl), tra bod 33% o'n hysgolion cynradd yn cwrdd â'r diffiniad o fod â nifer sylweddol o lefydd gweigion (25% neu fwy o gapasiti'r ysgol). Roedd hefyd un ysgol uwchradd oedd yn cwrdd â diffiniad o fod â nifer sylweddol o lefydd gweigion gyda 44% (427) o lefydd dros ben.

Bydd y rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy'n rhoi sylw i hyn trwy adolygu dyfodol pob ysgol ar sail ardaloedd.

***Lles, Gofal ac Iechyd - Gwella mynediad ar gyfer sicrhau lles, gofal ac iechyd yn ein hysgolion.***

Mae'r Awdurdod yn ymgysylltu'n effeithiol â rhanddeiliaid gan gynnwys athrawon, llywodraethwyr a rhieni er mwyn canfod eu barn. O ganlyniad, mae lles, gofal a iechyd yn ein hysgolion yn derbyn blaenoriaeth uchel a pharhaus.

Mae ysgolion effeithiol yn meddu amgylcheddau diogel i ddysgwyr a staff, sydd hefyd yn hyrwyddo parch ac amrywiaeth.

Gall amgylchedd ysgol sydd wedi'i ddylunio'n dda wella iechyd corfforol a meddyliol plant yn ogystal â gwella lles staff a gwneud iddynt deimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi. Ar hyn o bryd, mae 4 ysgol gynradd mewn cyflwr gradd 'A', ac un ysgol arbennig. Rhagwelir y bydd un ysgol gynradd bellach yn cyrraedd y categori hwn yn 2023.

Mae tiroedd ysgol sydd wedi'u dylunio'n dda a'u datblygu'n feddylgar yn cyfoethogi cyfleoedd i ddysgu a chwarae. Mae cyswllt a chysylltiad â byd natur yn creu mwy o emosiynau cadarnhaol a theimladau o fywiogrwydd, a llai o emosiynau negyddol; mae hefyd yn cynnig rhyddhad o flinder meddyliol, a'r gallu i ganolbwyntio'n hirach.

Mae'r Awdurdod wedi ymrwymo i fuddsoddi yn amgylchedd dysgu Ysgolion Bro, drwy gydleoli gwasanaethau allweddol, a sicrhau ymgysylltiad cryfach â rhieni a gofalwyr y tu allan i oriau traddodiadol. Bydd y rhaglen Ysgolion Bro yn hwyluso'r Cyngor i fynd

DRAFT

i'r afael â thlodi plant a lliniaru ei effeithiau, yn cynnwys yr anghydraddoldebau addysgol y mae plant yn eu profi o ganlyniad i fyw mewn tlodi.

Drwy fuddsoddi mewn adeiladau ysgolion, rydym yn gobeithio creu gwell cyfleusterau y gall dysgwyr a'r gymuned ehangach eu defnyddio. Mae hyn yn cynnwys mynediad at ddysgu oedolion, gofal plant a gweithgareddau chwaraeon a hamdden parhaus.

***Darpariaeth Ôl-16 - Cryfhau hawl dysgwyr a phrofiad i ddysgwyr ôl-16.***

Mae'r Cyngor yn gweithredu Partneriaeth Ddysgu Ôl-16 gyda Gwynedd a Grŵp Llandrillo Menai, ac mae'r Bartneriaeth Ddysgu'n derbyn cyfrifoldeb am gomisiynu darpariaeth ôl-16 i gwrdd â gofynion cwricwlwm a gytunwyd yn lleol ar gyfer addysg a hyfforddiant.

Er bod y Bartneriaeth Ddysgu Ôl-16 wedi llwyddo i resymoli'r ddarpariaeth, nid yw'r drefn gyfredol yn gynaliadwy o safbwynt costau teithio a maint dosbarthiadau bach. Ar hyn o bryd, mae nifer o ddosbarthiadau gyda niferoedd y disgyblion yn fach. Yn yr hinsawdd gyllidol bresennol nid yw hyn yn hyfyw, yn gost effeithlon nac yn gynaliadwy. Yn ychwanegol, gan fod ysgolion eisoes wedi rhesymoli nifer y cyrsiau nad ydynt yn hyfyw, mae disgyblion yn treulio cyfnodau rheolaidd o amser yn teithio o un ysgol i'r llall. Mae penaethiaid ysgolion uwchradd y sir yn cydnabod yr angen i adolygu'r sefyllfa bresennol.

O ganlyniad, bydd angen rhoi ystyriaeth i ddyfodol addysg ôl-16 o fewn y sir.

***Adeiladau ac Adnoddau - Sicrhau adeiladau ac amgylchedd dysgu o ansawdd uchel ac yn addas i bwrpas.***

Mae archwiliad o adeiladau ysgolion yn dynodi bod diffygion difrifol yn parhau mewn nifer o safleoedd ac adeiladau, yn enwedig yn y sector uwchradd, sy'n codi cwestiynau dybryd ynghylch hyfywdra hirdymor rhai adeiladau. Nid yw'n gynaliadwy nac yn bosibl cynnal nifer fawr o adeiladau ysgolion sy'n heneiddio.

Bydd rhaid rhesymoli nifer yr adeiladau ysgol mewn rhai ardaloedd ble mae'n bosib cyfuno dwy neu fwy o ysgolion cynradd cyfagos oherwydd bod y gofod ar gael mewn un o'r ysgolion hynny'n barod. Bydd hyn yn arwain at arbedion cyllidol, er yr angen i gludo'r dysgwyr i'r ysgol arall. Bydd hyn yn sicrhau bod adnoddau sy'n crebachu'n cael eu defnyddio i wella profiadau dysgu'r plant yn hytrach nag i gynnal adeilad.

Mae Ynys Môn yn ymrwymedig i sicrhau bod pob adeilad ysgol yn cwrdd â disgwyliadau'r unfed ganrif ar hugain, yn addas i bwrpas, yn y lleoliad cywir, yn cwrdd ag anghenion dysgwyr ac yn adnodd ar gyfer y gymuned.

***Cwricwlwm i Gymru - Sicrhau bod gan ysgolion yr adnoddau a'r capasiti i yrru Cwricwlwm i Gymru yn ei flaen yn llwyddiannus.***

Wrth i'r cwricwlwm newydd barhau i gael ei ddatblygu a'i gyflwyno o Fedi 2022 ymlaen, bydd yn hollbwysig bod gan ysgolion yr adnoddau i yrru'r cwricwlwm newydd yn ei flaen yn llwyddiannus, i gwrdd â phedwar prif diben o ddatblygu:

1. Dysgwyr uchelgeisiol, galluog
2. Cyfranwyr mentrus, chreadigol
3. Dinasyddion egwyddorol, gwybodus
4. Unigolion iach, hyderus

Mae'r cwricwlwm newydd wedi ei ddylunio gan athrawon, yn ateb anghenion pob person ifanc, ac wedi ei wneud ar gyfer byd sy'n newid yn gyflym.  Mae'n ffocysu ar ddysgu ar sail cynnydd (yn hytrach nag oedran), gyda phwrpas clir o'r hyn y bydd eisiau ei gyflawni.  Mae disgyblion yn dysgu am bethau fydd yn eu helpu mewn bywyd bob dydd, ac yn symud ymlaen yn eu dysgu pan yn barod i wneud hynny, nid oherwydd ei oedran.

Mae hyn yn fwy perthnasol nag erioed oherwydd y gwahanol effeithiau y mae'r pandemig Covid-19 wedi eu cael ar ddysgu pobl ifanc. Bydd cydweithio agos rhwng athrawon a disgyblion i gael dealltwriaeth dda o lefelau cynnydd disgyblion unigol.

***Defnydd Cymunedol - Ehangu defnydd o adeiladau a chyfleusterau ysgolion gan rieni, y gymuned a thrigolion hŷn.***

Mae'r Cyngor yn awyddus i optimeiddio defnydd adnoddau ac isadeiledd i ddarparu gwasanaethau i'n cymunedau.  Mae hyn yn golygu cael asedau hyblyg fel bod modd i'r gymuned (gan gynnwys plant, oedolion a phobl hŷn) ddefnyddio'r ased a'r adnoddau.  Bydd hyn yn cefnogi gwytnwch cymunedau, ac yn helpu i osgoi tlodi. Mae hyn yn hynod bwysig ar hyn o bryd yng nghyd-destun yr argyfwng costau byw.

Rhagwelir mai un o agweddau allweddol y rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy fydd sicrhau darpariaeth gofal ar gyfer plant cyn oed ysgol ar safle ysgolion newydd neu rai sy'n cael eu haddasu (i gael eu rheoli gyda phartner yn y sector gofal plant lleol), er mwyn darparu gofal rhwng 8.00yb a 6.00yh ar gyfer teuluoedd, ynghyd ag addysg feithrin, gofal cofleidiol a chlybiau gofal ar ôl ysgol/gwyliau.

DRAFT

***Datgarboneiddio - Sicrhau bod ein hysgolion yn gynaliadwy ac yn cyfrannu at agenda Sero Net y Cyngor.***

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i fod yn wasanaeth carbon sero net erbyn 2030.

Rhan allweddol o'r siwrne i gyrraedd carbon sero net fydd adolygu defnydd a pherfformiad holl asedau'r Cyngor wrth sicrhau'r ôl troed carbon lleiaf posibl tra'n parhau i ddarparu gwasanaethau i'n cymunedau.

Ysgolion cynradd yw'r cynhyrchwyr mwyaf o garbon o holl adeiladau'r Cyngor, gyda'r ysgolion uwchradd yr ail uchaf. Mae allyriadau carbon ysgolion cynradd yn 2021/22 yn gyfwerth â 30% o allyriadau'r holl asedau y mae'r Cyngor yn eu rheoli, tra bod ysgolion uwchradd yn gyfwerth â 23% o asedau a reolir gan y Cyngor yn yr un cyfnod.

Mae amrywiaeth sylweddol mewn allyriadau carbon fesul disgybl, gyda'r uchaf yn 2,079kgCo2e fesul disgybl a'r isaf yn 65kgCo2e fesul disgybl. Yn y cyd-destun hwn, mae'r ysgolion lleiaf yn dueddol o fod tuag at frig y gynghrair.

Bu i'r Cyngor wneud arbediad sylweddol mewn allyriadau carbon yn barod drwy gynlluniau'r rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy, er enghraifft, drwy gyfuno pedair ysgol i mewn i un yn ardal Rhosyr. Yn 2018/19, gyda'i gilydd roedd allyriadau carbon ysgolion Bodorgan, Dwyran, Niwbwrch a Llangaffo yn 100tCo2e. Yn 2021/22, roedd allyriad Carbon Ysgol Santes Dwynwen yn 26tCo2e.

Bydd adeilad sero carbon net cyntaf Ynys Môn drwy'r rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy yn agor yn 2024, pan fydd Uned Cyfnod Sylfaen newydd Ysgol y Graig wedi ei chwblhau.

Bydd unrhyw adeilad newydd drwy'r rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy yn adeilad carbon sero net, a bydd goblygiadau allyriadau carbon yn ystyriaeth bwysig wrth asesu gwahanol opsiynau drwy'r rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy.

DRAFT

***Cyllidol - Sicrhau bod ysgolion yn gallu gweithredu'n effeithiol o fewn y gyllideb sydd ar gael. Anelu i leihau amrediad gwariant fesul disgybl gan sicrhau mwy o gyfle cyfartal ar draws ysgolion.***

Cydnabyddir amrywiaeth sylweddol mewn cyllid fesul disgybl y mae ysgolion yn ei dderbyn drwy'r fformiwla ddatganoledig cyllido ysgolion. Mae rhai o'r ysgolion cynradd yn derbyn dros ddwbl cyfartaledd cyllideb y pen ysgolion cynradd Ynys Môn, a dros dair gwaith yn fwy na rhai o'r ysgolion mwyaf. Nid yw hyn yn gwneud defnydd teg nac effeithlon o'r cyllid sydd ar gael, a bydd angen sicrhau tegwch ac effeithlonrwydd wrth fwrw ymlaen gyda'r rhaglen.

Mae chwyddiant yn debygol o gael effaith sylweddol ar gyllid y Cyngor am y blynyddoedd nesaf, ac mae'r codiad mewn costau ynni hefyd yn debygol o gynyddu costau'n sylweddol. Mae hyn yn rhoi pwysau sylweddol ar y cyllid sydd ar gael i ddarparu gwasanaethau, ac felly mae'n bwysicach nag erioed bod cyllid yn cael ei ddefnyddio mewn modd effeithlon a theg.

Wrth i gostau cynnal a rhedeg adeiladau gynyddu, bydd angen ystyried opsiynau i resymoli neu gau rhai adeiladau, fel bod cyfran uwch o'r gyllideb yn cael ei gwario ar ddysgu, yn hytrach nag ar redeg a chynnal adeiladau.

***Cymraeg - Cynnig darpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog i'n holl ddysgwyr.***

Mae'r Awdurdod yn gweithredu polisi dwyieithog drwy holl ysgolion y sir. Yr amcan yw datblygu gallu disgyblion fel dysgwyr dwyieithog erbyn diwedd addysg ffurfiol. Disgwylir i bob un o sefydliadau addysgol y sir ddilyn y polisi iaith Gymraeg ysgolion sydd  wedi mabwysiadu'r egwyddor na ddylai'r Gymraeg gael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg, ac y dylai trigolion yr ynys allu byw eu bywydau drwy gyfrwng y Gymraeg os ydynt yn dymuno gwneud hynny.

Yn sgil hyn, bydd unrhyw gynllun newydd a gyflwynir, megis prosiectau sy'n deillio o'r rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy, yn ddarostyngedig i ofynion y polisi iaith.

Mae ein Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg yn cyfeirio at y nod o gynyddu cyfran y disgyblion sy'n derbyn addysg Gymraeg fel Iaith Gyntaf hyd at ddiwedd eu cyfnod yn yr ysgol uwchradd. Bwriedir hefyd defnyddio modelau gofal plant i gynyddu capasiti gofal plant cyfrwng Cymraeg ar Ynys Môn. Mae gan y model partneriaeth gofal plant y potensial i fod yn gyfrannwr allweddol tuag at uchelgais Llywodraeth Cymru o gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Bydd hefyd yn bwysig ar lefel leol er mwyn cwrdd ag amcanion ein Strategaeth Hybu'r Gymraeg 2021-26.

DRAFT

# Dylunio’r Gweithlu

Mae’n rhaid i’r gweithlu addysg esblygu i gadw i fyny â’r byd sy’n newid yn gyflym ac i wneud y mwyaf o’r cyfleoedd newydd y mae’r newidiadau hyn yn eu cyflwyno. Bydd dysgwyr y dyfodol yn profi ystod eang o ryngweithiadau gydag oedolion, cyfoedion a gyda thechnoleg i gefnogi eu hanghenion dysgu unigol.

Mae ymchwil rhyngwladol yn dangos bod arweinyddiaeth yn ail yn unig i addysgu yn y dosbarth fel dylanwad ar ddysgu a chanlyniadau. Mae pob ymarferydd yn arweinydd boed yn arwain dysgwyr, ymarferwyr eraill neu ysgolion. Rydym wedi ymrwymo i feithrin capasiti arweinyddol drwy annog a chefnogi pob ymarferydd i ddatblygu eu potensial arweinyddol eu hunain a photensial arweinyddol eraill.

Gellir gweld datblygiad arweinyddiaeth blaengar, seiliedig ar ymarfer, hyd oes gyrfa i bawb yn y llwybr datblygu arweinyddiaeth. Mae'r llwybr yn adlewyrchu egwyddorion a strategaethau cenedlaethol ar gyfer datblygu arweinyddiaeth ac mae’n gyson â'r Model Dysgu Proffesiynol.




Athrawon o ansawdd yw’r penderfynydd mwyaf o gynnydd dysgwyr mewn ysgolion. Mae angen cefnogi athrawon yn eu dysgu proffesiynol eu hunain ac i gael cyfleoedd i gydweithio â'i gilydd, i gael cefnogaeth arweinyddol gref ac i gael mynediad at amrywiaeth o arbenigwyr i'w galluogi i dyfu a darparu'r gorau i'r holl ddysgwyr yn eu gofal.

Mae moderneiddio'r gweithlu’n cynnwys amrywiaethu'r gweithlu: gweithwyr proffesiynol addysgu, dysgu, lles, iechyd a chynhwysiant, gyda gwahanol setiau sgiliau a lefelau profiad, yn gweithio gyda'i gilydd mewn timau i ddarparu cymorth addysgu a lles gwahaniaethol wedi'i deilwra ar gyfer anghenion unigol pob plentyn. Byddai hyn, ynghyd ag arweinwyr ysgol ac athrawon rhagorol, gan dynnu gan sectorau eraill a'r gymuned, yn rhoi mwy o gysylltiad i ddysgwyr â'r byd y tu allan i sicrhau bod aliniad rhwng y sgiliau y mae plant yn eu dysgu a'u perthnasedd yn y byd go iawn.

Mae rôl y cymhorthydd dysgu’n allweddol mewn ysgolion. Maent yn gyfrifol am gefnogi plant, gan sicrhau eu bod yn cael y gorau o'u bywyd ysgol a'u datblygiad personol yn yr ystafell ddosbarth. Maent yn gweithio un-i-un gyda disgyblion, yn ogystal â mewn grwpiau, tra hefyd yn cefnogi'r athro/athrawes wrth gyflwyno gwersi a gweithgareddau. Drwy'r Llwybr Dysgu Cymorthyddion Dysgu, gall cymorthyddion dysgu ddatblygu eu sgiliau trwy gyfres o raglenni blaengar sy'n seiliedig ar ymarfer, a ategir gan y safonau proffesiynol ar gyfer cymorthyddion dysgu.



Mae arweinyddiaeth gref yn yr ysgol yn cefnogi dulliau effaith uchel fel dysgu cydweithredol athrawon. Dylai fod newid oddi wrth arweinwyr yn canolbwyntio ar dasgau gweinyddol. Mae arweinwyr ysgolion yn cefnogi cysyniad lle mai gallu grŵp o bobl ar y cyd yw'r ffordd ymlaen yn hytrach na chanolbwyntio ar ddatblygu sgiliau unigolion i wneud eu gwaith yn well. Trwy weithio ar y cyd mewn timau dysgu, anogir gweithwyr proffesiynol ysgolion i ddarparu addysgu effeithiol drwy dargedu arbenigeddau, dysgu a chefnogaeth ar y swydd, mwy o amser hyfforddi, cymhelliant y gweithlu a chefnogaeth ar gyfer cynhwysiad.

Mae arweinwyr ysgolion yn dod i wynebu'n fwy allanol wrth i allu athrawon dyfu i arwain datblygiad proffesiynol cyfoedion. Maent yn gynyddol yn edrych tuag allan i ddefnyddio adnoddau ac arbenigedd o sectorau a rhwydweithiau ehangach, gan gynnwys ysgolion eraill, sefydliadau cymunedol ac allanol. Mae arweinwyr ysgolion llwyddiannus yn arweinwyr system, yn darparu gwerthusiad ysgol cyfoedion, yn gweithredu fel ffrind beirniadol ac yn hyfforddi cyfoedion yn eu taith gwella ysgol.

Mae cymuned ddysgu'n ffynnu mewn gweithlu amrywiol - gan gynnwys rhwydweithiau o ysgolion, gweithwyr addysg proffesiynol a phartneriaethau traws-sector. Mae staff ysgol sy'n ymwneud yn uniongyrchol ag arloesi a chymhwyso tystiolaeth o'r hyn sy'n gweithio a'r wybodaeth, data a thystiolaeth a rennir sy'n deillio o hynny, yn creu system sy'n meithrin dysgu, sy'n gallu dysgu ei hun ac sy'n addasu i newid. Mae ysgol sydd â ffocws cymunedol, a gweithlu sy'n cynnwys ystod eang o arbenigedd, yn rhoi cysylltiad i'r tu allan i'r ysgol i ddysgwyr, gan gynnwys y gymuned a gwaith, gan dynnu cefnogaeth gan arbenigwyr cynyddol broffesiynol a rhwydweithiau ysgol bywiog i wella dysgu ac addysgu. Gweithwyr proffesiynol ysgol yn gweithio gyda'i gilydd mewn amrywiaeth eang o dimau sy'n darparu mwy o gyfleoedd ar gyfer addysgu gwahaniaethol o amgylch anghenion unigol y dysgwr.

Mae recriwtio a chadw staff addysgu a staff ategol yn her, yn enwedig mewn rhai pynciau, meysydd arbenigedd a staff dwyieithog. Rydym wedi ymrwymo i gefnogi datblygiad staff ysgol a'r rhai sydd â diddordeb mewn gweithio yn ein hysgolion. Mae hyn yn cynnwys gweithio'n agos gyda phrifysgolion a phartneriaethau Addysg Gychwynnol i Athrawon i sicrhau ein bod yn rhagweithiol wrth ymateb i'r heriau hyn ac felly'n gallu ateb anghenion ein plant a'n pobl ifanc.

DRAFT

# Yr Heriau Cysylltiedig

**Yr angen am fuddsoddiad cyfalaf**

Mae'r gost o adeiladu ysgolion newydd yn ddrud. Mae tair ysgol newydd wedi eu cwblhau hyd yma drwy'r rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy, gyda'r gost yn amrywio o £5.6m i £10.352m. Yn ychwanegol, mae costau adeiladu wedi cynyddu'n sylweddol dros y misoedd diwethaf, o ganlyniad i ddigwyddiadau byd eang.

Tra bod Llywodraeth Cymru wedi cyfrannu tuag at 50% o gostau prosiectau Band A, ac 65% o gostau prosiectau Band B, mae'r gofyn ar y Cyngor i gyfrannu tuag at weddill y gost.

Mae'n bwysig bod y Cyngor yn manteisio ar y cyfle i ddenu cyllid allanol (grant) i wella cyflwr ein stad o adeiladau addysgol. Fodd bynnag, wrth ystyried yr her gyllidol y bydd y Cyngor yn debygol o'i hwynebu dros y blynyddoedd nesaf, bydd rhaid i'r Cyngor flaenoriaethu'r gwaith cysylltiedig.

Parthed blaenoriaethu, rhagwelir yr angen i ail-fodelu'r ddarpariaeth uwchradd dros y blynyddoedd nesaf tra hefyd yn gweithredu penderfyniadau anodd eraill.

**Penderfyniadau Anodd**

Wrth wireddu'r strategaeth, mae'n debygol y bydd angen i'r Cyngor wneud penderfyniadau anodd, sy'n aml yn amhoblogaidd, wrth ystyried dyfodol trefniadaeth ysgolion.

Ble bydd y Cyngor yn cynnig gwneud newid rheoledig, bydd cyfnod ymgynghori a chyfnod gwrthwynebu i ddilyn, sy'n caniatáu i randdeiliaid i roi eu barn ar y cynnig, ac i wneud cynnig newydd. Bydd y Cyngor yn ystyried yr adborth hwn yn ofalus cyn penderfynu un ai i newid, neu i barhau gyda'r cynnig gwreiddiol. Yn ogystal â hyn, bydd Asesiad Effaith yn cael ei gynnal, fydd yn rhoi ystyriaeth benodol ar sut y bydd unrhyw gynnig yn cael effaith ar gymunedau, cydraddoldeb, a'r iaith Gymraeg.

# Amserlen Gweithredu

| Cyfnod Gweithredu | | |
|---|---|---|
| **Cam 1 – 2023 ymlaen** | **Cam 2 – 2024 ymlaen** | **Cam 3 – 2025 ymlaen** |
| Parhau i roi sylw i gyflwr ein hadeiladau ysgolion drwy'r rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy, gan ystyried gwahanol fathau o ddarpariaeth addysg, e.e. ysgolion 3-16 oed neu 3-18 oed. | Parhau i roi sylw i gyflwr ein hadeiladau ysgolion drwy'r rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy, gan ystyried gwahanol fathau o ddarpariaeth addysg, e.e. ysgolion 3-16 oed neu 3-18 oed. | Cynlluniau rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy'n cael eu gwireddu. |
| Edrych i wella effeithlonrwydd ysgolion, a sicrhau ariannu teg. Blaenoriaethu ysgolion mewn ardaloedd ble mae'r canran o lefydd gweigion uchaf, a'r gost y pen uchaf. | Parhau i wella effeithlonrwydd ysgolion gan leihau'r amrywiad yn y gost y pen, a lleihau llefydd gweigion (cynradd ac uwchradd) gan hefyd ystyried opsiynau o ffederaleiddio ysgolion. | Cynlluniau'n cael eu gwireddu a fydd yn ymateb i'r her amrywiad mewn cost y pen, a lleihau llefydd gweigion. |
| Ymchwilio i'r posibiliadau o wella effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd y ddarpariaeth ôl-16. | Gwella effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd y ddarpariaeth ôl-16. | Darpariaeth ôl-16 yn ei newydd wedd yn weithredol. |

## Sut bydd y Strategaeth Moderneiddio Cymunedau Dysgu a Datblygu'r Gymraeg yn effeithio ar brofiad defnyddwyr?

- Mwy o ffocws cymunedol - mwy o gyfleusterau (aml-bwrpas a ellir eu defnyddio gan y gymuned yn ogystal â'r ysgol), oriau defnydd estynedig, mwy o ddefnydd gan y gymuned, hwb cymunedol.
- Arweinyddiaeth - haws penodi arweinwyr ysgol, hyfforddiant mwy effeithiol a chyfarfodydd mwy effeithlon oherwydd llai o gyfranogwyr.
- Cydweithio staff - mwy o gyfleoedd oherwydd bod ar yr un safle e.e. cyd-gynllunio, cyd-hyfforddi, dysgu o'i gilydd, cyfleoedd cronni adnoddau, cyfleoedd all-gwricwlaidd, cyfleoedd gweithio'n ddalgylchol.
- Cydweithio rhwng plant a phobl ifanc – fel rhan o ddysgu ac addysgu, profiadau ehangach drwy amrywiaeth o athrawon.
- Trosglwyddo effeithiol – cryfhau adnabyddiaeth o'r plant sy'n trosglwyddo, cyfleoedd 3-16/18, haws cyfnewid athrawon cynradd ac uwchradd.
- Cyfleoedd i ddatblygu'r a chryfhau'r ddarpariaeth Gymraeg a dwyieithrwydd yn yr ystafell ddosbarth ac mewn cyd-destunau anffurfiol.
- Cyfleoedd i fod yn fwy effeithlon yn gyllidol - Gwasanaeth Dysgu ac ysgolion unigol.
- Llywodraethwyr yn haws i'w penodi a gan fod angen llai ohonynt, bydd hyfforddiant a chydweithio mwy effeithiol.
- Cyfleoedd ar gyfer gweinyddiaeth ysgol fwy effeithiol ac i ddatblygu rheolwyr busnes dalgylchol.
- Mwy o gyfleoedd i ddatblygu systemau technolegol a defnydd o gyllid Hwb.
- Cyfleoedd i ddatblygu adeiladau'n cynnwys cynnal a chadw mwy effeithiol.
- Cyfleoedd amgylcheddol a llai o wastraff ynni – cyfleoedd net sero.

DRAFT

# Proses Ddeddfwriaethol

Yn unol â'r *Cod Trefniadaeth Ysgolion 2018*, bydd y Cyngor yn dilyn y broses isod cyn gweithredu ar unrhyw gynllun sy'n cael ei ystyried i fod yn newid rheoledig yn unol â diffiniad y cod.  Bydd proses symlach i'w dilyn ar gyfer unrhyw gynnig nad yw'n cwrdd â'r diffiniad hwn.

**Cam 1**

- Datblygu **papur cynnig** i fynd gerbron y Pwyllgor Gwaith i benderfynu os am ymgynghori ar y cynnig.

**Cam 2**

- **Ymgynghori** ar y cynnig (o leiaf 42 diwrnod, gydag o leiaf 20 ohonynt yn ddyddiau ysgol).

**Cam 3**

- **Adroddiad** ar allbwn yr **ymgynghoriad** gerbron y Pwyllgor Gwaith i benderfynu os am barhau gyda'r cynnig, neu os am newid y cynnig.  Os yn newid y cynnig, bydd y broses yn ail-gychwyn o cam 1.

**Cam 4**

- O fewn 26 wythnos i ddiwedd yr ymgynghoriad, rhaid cyhoeddi **rhybydd statudol**,  gan roi o leiaf 28 diwrnod i rhanddeiliaid wrthwybebu'r cynnig (gyda o leiaf 15 o'r dyddiau hyn yn ddyddiau ysgol).
- Hwn ydi'r cam ble mae cyfle i  rhanddeiliadid wrthwynebu'r cynnig (**cyfnod gwrthwynebu**).  Nid yw sylwadau anffurfiol yn ystod y cyfnod ymgynghori (cam 2) yn cael ei ystyried fel gwrthwynebiadau.
- ***Yna gellir fynd at gam 5 neu 6 yn dibynnu ar y cynnig.***

**Cam 5**

- **Os bydd angen penderfyniad gan weinidogion Llywodraeth Cymru** (er engraifft os yw'r cynnig yn effeithio ar ddarpariaeth ôl-16)
- Rhaid anfon **adroddiad gwrthwynebu** i'r gweinidog o fewn 35 diwrnod o ddiwedd y cyfnod gwrthwynebu.
- Bydd y gweinidog yn anelu at ymateb o fewn 16 wythnos o ddiwedd y cyfnod gwrthwynebu.

**Cam 6**


- ***Pan nad oes angen i'r penderfyniad gael ei wneud gan weinidogion Llywodraeth Cymru***
- **Adroddiad gwrthwynebu** gerbron y Pwyllgor Gwaith i wneud penderfyniad terfynol os am wireddu'r cynnig neu addasu'r cynnig.

DRAFT

# Monitro, Rheolaeth a Llywodraethant

Mae egwyddorion bod yn agored, uniondeb ac atebolrwydd yn berthnasol ar bob lefel o lywodraethu.  Yng nghyd-destun moderneiddio Cymunedau Dysgu a Datblygu’r Gymraeg, bydd hyn yn cynnwys:

- Gosod pwrpas clir wrth ariannu'r rhaglen foderneiddio;
- Nodi trefn ariannol addas;
- Monitro perfformiad ariannol a gwasanaeth y bwrdd moderneiddio;
- Ystyried y gynrychiolaeth ar y bwrdd moderneiddio’n ofalus;
- Sefydlu terfynau i ymwneud â'r bwrdd moderneiddio;
- Cynnal mynediad archwilio i gefnogi atebolrwydd.



**Egwyddorion y Strategaeth Moderneiddio Cymunedau Dysgu a Datblygu'r Gymraeg**

**Bydd y rhaglen yn:**

- Mynegi ei gweledigaeth a'i diben yn glir, gan sicrhau aliniad clir rhwng gweledigaeth y rhaglen ac amcan a chyfeiriad strategol cyffredinol y sefydliad
- Mabwysiadu a defnyddio methodoleg rheoli rhaglen broffesiynol
- Bod â throsolwg clir a threfniadau llywodraethu priodol ar waith
- Meddu ar feini prawf clir ar gyfer sut mae cynghorwyr a swyddogion yn ymwneud â'r rhaglen
- Gweithio'n agos â'r gymuned a rhanddeiliaid eraill yn y broses
- Sicrhau bod buddion wedi'u cysylltu'n glir â chanlyniadau gwell i'r gymuned
- Ystyried ac arfarnu opsiynau amgen yn drylwyr
- Datblygu achosion busnes cadarn, gyda rhesymau clir dros ei phenderfyniadau a pheidio â'u seilio ar fantais ariannol gyfyng a all fod yn destun newid
- Bod yn glir ynghylch y risgiau dan sylw, gyda chraffu sy'n gymesur â'r risg
- Dangos yn glir sut y bydd y rhaglen yn sicrhau gwerth am arian.

DRAFT

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **Pwyllgor Gwaith** |
| **Dyddiad:** | **21 Mawrth 2023** |
| **Pwnc:** | **Cynllun Busnes y Cyfrif Refeniw Tai 2023-2053** |
| **Aelod Portffolio:** | **Cynghorydd Gary Pritchard** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **Ned Michael** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>Rhif Ffôn:<br>E-bost: | **Ned Michael**<br>**01248 7522200** |
| **Aelod Lleol:** | **Pob Aelod** |

**A – Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau**

Yn unol â gofyniad Llywodraeth Cymru, mae'n ofynnol i ni gyflwyno ein cais am ein Lwfans Atgyweiriadau Mawr, ynghyd â Chynllun Busnes 30 Mlynedd y Cyfrif Refeniw Tai (CRT), erbyn 31 Mawrth er mwyn sicrhau ein Lwfans Atgyweiriadau Mawr o £2.688m ar gyfer 2023-24.

Mae Cynllun Busnes 30 mlynedd y CRT ynghlwm ac, wedi iddo gael ei gymeradwyo, bydd yn cael ei fformadu yn yr arddull corfforaethol, gan gynnwys ychydig o luniau o'r gwaith a gyflawnwyd gennym yn ystod y 12 mis diwethaf.

Felly, rwyf yn argymell fod y Pwyllgor Gwaith yn cymeradwyo:-

**A1.** Cynllun Busnes y Cyfrif Refeniw Tai (CRT) 2023-2053 i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru.

**1.0 Cefndir**

**1.1** Paratowyd yr Adroddiad a'r Cynllun Busnes hwn ar y cyd â Swyddogion o'r Gwasanaethau Tai a Chyllid a'r Cynllun Busnes yw'r arf cynllunio ariannol pennaf ar gyfer cyflawni a rheoli stoc dai'r Cyngor.

Yn benodol, mae'r Cynllun Busnes yn dangos:-

- sut mae'r Cyngor yn sicrhau fod y stoc gyfan yn cydymffurfio â Safonau Ansawdd Tai Cymru (SATC) - er y bydd rhai eiddo yn parhau i gael eu dynodi fel 'methiannau derbyniol';
- sut mae'r Cyngor yn bwriadu cynnal a gweithio tuag at y SATC newydd, ac
- y buddsoddiad sydd ei angen i ariannu ein rhaglen datblygu tai cyngor newydd.

**1.2** Trwy ei Gyfrif Refeniw Tai, mae'r cyngor yn rheoli ac yn berchen ar 3,938 eiddo a 675 o garejys ledled yr Ynys. Trwy gydol cyfnod y Cynllun Busnes hwn byddwn yn gweld cynnydd o dros 25% yn ein stoc dai, i dros 5000 eiddo, er mwyn cwrdd â'r angen tai lleol cynyddol. Ar hyn o

bryd mae gennym dros 900 o bobl ar y rhestr aros Tai Cymdeithasol ac mae hyn yn cynnwys 85 o deuluoedd sydd mewn llety dros dro ar yr Ynys, ffigwr nas gwelwyd ei debyg o'r blaen.

**1.3** Mae Cynllun Busnes y CRT (Atodiad 1) yn cyfrannu at yr holl themâu sylfaenol yng Nghynllun Corfforaethol y Cyngor. Mae'n cyfrannu'n bennaf at y themâu sy'n ymwneud â Thrawsnewid Gofal Cymdeithasol Oedolion Hŷn, Cynyddu ein Hopsiynau Tai a Lleihau Tlodi ac Adfywio ein Cymunedau a Datblygu'r Economi.

**1.4** Mae'r CRT yn parhau i gael ei glustnodi ar gyfer swyddogaethau Landlord y Cyngor sy'n ymwneud â stoc dai'r Cyngor. Oherwydd bod y cyfrif wedi'i glustnodi, nid yw'r Cyngor yn gallu defnyddio arian o'r gronfa gyffredinol i gyllido tai cyngor.

## 2.0 Safonau Ansawdd Tai Cymru (SATC)

2.1 Mae'r Cyngor wedi llwyddo i gwrdd â'r SATC ers 2012, a ni oedd yr ail Awdurdod yng Nghymru i gyflawni'r safon hon.

***Dywed Safon Ansawdd Tai Cymru y dylai bob aelwyd gael y cyfle i fyw mewn tai o ansawdd da sydd:***

- Mewn cyflwr da.
- Yn ddiogel.
- Wedi eu gwresogi'n ddigonol, yn effeithlon o ran defnyddio tanwydd ac wedi'u hinsiwleiddio'n dda.
- Yn cynnwys ceginau ac ystafelloedd ymolchi modern.
- Wedi eu rheoli'n dda.
- Wedi eu lleoli mewn amgylchedd deniadol a diogel.
- Yn cwrdd â gofynion penodol yr aelwyd i'r graddau y mae hynny'n bosib (e.e. gofynion pobl ag anableddau penodol).

2.2 Byddwn yn ymrwymo'n llwyr i gwrdd â'r SATC newydd a gytunir gan Lywodraeth Cymru yn fuan, ac, yn ystod 2022/23, cwblhawyd arolwg o gyflwr ein holl stoc dai, a chafwyd mynediad i 88% o'r eiddo er mwyn sefydlu ein gwaelodlin bresennol er mwyn paratoi ar gyfer cwrdd â'r safonau newydd.

## 3.0 Rhaglen Gyfalaf 2023-2024

3.1 Mae'r Cynllun Busnes yn cynnwys rhaglen gyfalaf gwerth oddeutu £9.7m. Mae hyn yn cynnwys darpariaeth ar gyfer gwaith allanol, gwaith yn gysylltiedig â risg tân, asbestos, addasiadau ar gyfer yr anabl a gwaith effeithlonrwydd ynni. Mae'r gyllideb hefyd yn caniatáu ar gyfer cydymffurfio'n llawn â'r SATC trwy dargedu methiannau derbyniol a safonau amgylcheddol.

### 3.2 **Gwaith Ynni a Datgarboneiddio**

Rydym yn parhau i fod mewn cysylltiad â'r Gweithredwr Rhwydwaith Rhanbarth er mwyn derbyn caniatâd i osod systemau Solar ffotofoltaig lluosog ar nifer o'n heiddo. Rydym yn bwriadu parhau â'r rhaglen hon yn 2023/24 a chlustnodwyd £1.0m yn y gyllideb i dargedu 250 o osodiadau

ychwanegol a fyddai'n cyfrannu'n gadarnhaol tuag at dargedau effeithlonrwydd ynni a lleihau carbon. Ar ôl derbyn yr arolwg byddwn yn cynnal ymarfer arfarnu a chynllunio buddsoddiad i arfarnu perfformiad ynni, targedau lleihau carbon a chydymffurfio â'r Llwybr Ynni er mwyn paratoi ar gyfer disgwyliadau SATC 2023.

3.3 Mae darpariaeth o £6.963m wedi'i gynnwys yn y gyllideb refeniw ar gyfer gwaith trwsio a chynnal a chadw (gwaith trwsio ymatebol).

3.4 Yn ogystal, mae swm o £8.749 miliwn wedi'i gynnwys yng nghyllideb 2023-24 ar gyfer datblygu rhaglen adeiladu tai cyngor newydd a phrynu cyn-dai cyngor ar yr Ynys. Mae'r Cynllun Busnes yn rhagdybio rhaglen ddatblygu o 45 uned yn 2023-24 a thrwy gydol cyfnod y Cynllun Busnes.

**4.0 Model Ariannol a Rhagdybiaethau**

4.1 Mae'n rhaid cael model ariannol 30 mlynedd i gefnogi Cynllun Busnes y CRT sy'n cael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru.

Mae dadansoddiad o sensitifrwydd yn cyd-fynd â'r Cynllun Busnes sy'n dangos cadernid y cynllun. Maent yn seiliedig ar ragdybiaethau a pharamedrau allweddol a bennir gan Lywodraeth Cymru, ac maent yn darogan yr adnoddau sydd ar gael, a'r adnoddau sydd eu hangen i gynnal SATC, y capasiti ar gyfer y rhaglen adeiladu tai newydd, a'r nod yw darparu sicrwydd ynghylch cynaliadwyedd tymor hir a hyfywedd ariannol y CRT.

4.2 Gan fod y mynegai prisiau defnyddwyr (CPI) ar gyfer Medi 2022 yn 10.1%, a'i fod tu allan i'r ystod o 0% i 3%, mae'n golygu felly nad yw'r cynnydd o CPI +1% mewn rhenti yn gymwys a chadarnhaodd Llywodraeth Cymru ar 17 Tachwedd 2022 y byddai'r Gweinidog sydd â chyfrifoldeb am Newid Hinsawdd yn penderfynu ar newid priodol mewn Rhenti Tai Cymdeithasol ar gyfer 2023/24.

Penderfynodd y Gweinidog mai'r cynnydd blynyddol uchaf ar draws yr holl stoc fyddai hyd at 6.5%.

Er mai 6.5% oedd y cynnydd uchaf a ganiatawyd, roedd disgwyl i benderfyniad yr Awdurdod ar y cynnydd mewn rhenti roi'r un ystyriaeth i anghenion landlordiaid a fforddiadwyedd rhenti i denantiaid.

4.3 Cynhaliwyd prawf straen ar y cynllun busnes er mwyn ystyried y risgiau, ar wahân a gyda'i gilydd, ac i sicrhau fod y cynllun busnes yn parhau i fod yn hyfyw yn ystod cyfnod y cynllun o 30 mlynedd.

| **B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod a/neu ddewis yr opsiwn hwn?** |
|---|
| Amherthnasol |

| **C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?** |
|---|
| Mae gan y Pwyllgor Gwaith awdurdod dirprwyedig i gymeradwyo Cynllun Busnes y CRT. |

| **CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â pholisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?** |
|---|
| Ydi |

| **D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?** |
|---|
| Ydi |

| Dd – Asesu'r effaith bosib (os yw'n berthnasol) | | |
|---|---|---|
| 1 | Sut mae'r penderfyniad hwn yn effeithio ar ein hanghenion tymor hir fel Ynys? | |
| 2 | A yw hwn yn benderfyniad y rhagwelir y bydd yn atal costau / dibyniaeth ar yr Awdurdod i'r dyfodol? Os felly, sut? | |
| 3 | A ydym wedi bod yn cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn? Os felly, rhowch wybod gyda phwy. | |
| 4 | A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae rhan wrth ddrafftio'r ffordd hon ymlaen, gan gynnwys y rheini y byddai'r penderfyniad yn cael effaith uniongyrchol arnynt? Esboniwch sut. | |
| 5 | Nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. | |
| 6 | Os yw hwn yn benderfyniad strategol, nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad yn ei gael ar y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol. | |
| 7 | Nodwch unrhyw effeithiau posibl y | |

| Dd – Asesu'r effaith bosib (os yw'n berthnasol) | | |
|---|---|---|
| | byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. | |

| **E – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?** | | **Beth oedd eu sylwadau?** |
|---|---|---|
| **1** | **Prif Weithredwr / Uwch Dîm Arweinyddiaeth (UDA)** (gorfodol) | Cefnogi'r cynllun. |
| **2** | **Cyllid / Swyddog Adran 151** (gorfodol) | Cefnogi'r cynllun. |
| **3** | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (gorfodol) | Cefnogi'r cynllun. |
| **4** | **Adnoddau Dynol (AD)** | Amherthnasol |
| **5** | **Eiddo** | Amherthnasol |
| **6** | **Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)** | N/A |
| **7** | **Sgriwtini** | |
| **8** | **Aelodau Lleol** | |
| **9** | **Unrhyw gyrff allanol / arall** | |

| **F - Atodiadau** |
|---|
| Cynllun Busnes y CRT 2023-2053 |

| **FF - Papurau cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):** |
|---|
| |

**Rhagair**

Gwerthfawrogir bod Ynys Môn yn lle diogel a bod y mwyafrif o'r trigolion yn teimlo'n ddiogel ac yn fodlon iawn gyda'u cartrefi. Mae ethos cymunedol cryf yn yr ardaloedd gwledig, y pentrefi a'r trefi, ac mae cyfraddau unigrwydd ymysg yr isaf yng Nghymru.

Mae'r Cyngor yn parhau i fod yn gwbl ymrwymedig i weithio gyda Llywodraeth Cymru a phartneriaid i ymateb i'r heriau tai yn lleol.

**Rhagarweiniad**

Nod Cynllun Busnes y Cyfrif Refeniw Tai, y cyfeirir ato yn y ddogfen fel y CRT, yw cynllunio ymlaen llaw er mwyn sicrhau bod cynllun ariannol hyfyw yn cael ei sefydlu ar gyfer ein stoc o Dai Cyngor.

Mae'r CRT yn ariannu holl weithgareddau'r Cyngor yn ei rôl fel landlord cymdeithasol cofrestredig sy'n cynnwys casglu cymaint o incwm rhent ag sy'n bosibl er mwyn ariannu gwaith cynnal a chadw o ddydd i ddydd, gwaith gwella wedi'i gynllunio, rheoli stadau tra'n hyrwyddo Cyfranogiad Tenantiaid i'r eithaf fel y gall hynny ddylanwadu ar ein blaenoriaethau.

Mae gan y CRT Dîm Datblygu Tai Cyngor sy'n gyfrifol am gynyddu ein stoc dai er mwyn cyfrannu tuag at ddiwallu'r angen am dai fforddiadwy gyda deiliadaethau amrywiol ar draws yr Ynys.

Bydd y Cyngor yn parhau i gynnal CRT statudol, wedi'i glustnodi benodol ac i gyfrif am incwm a gwariant ar dai cygor ar wahân i incwm a gwariant o Gronfa'r Cyngor.

**Mae'r Cynllun Busnes hwn yn cadarnhau ymrwymiad y Cyngor i**

- gynnal Safonau Ansawdd Tai Cymru,
- cyflawni ein rhaglen ddatblygu ar gyfer adeiladu Tai Cyngor newydd,
- mynd i'r afael â meysydd lle mae angen gwella perfformiad a chanlyniadau ein gwasanaethau, gan sicrhau rhagor o welliant ar gyfer ein tenantiaid,

- darparu gwasanaethau i'n tenantiaid sy'n cynnig gwerth am arian yn ystod cyfnod o galedi ariannol na welwyd ei debyg o'r blaen, gan sicrhau bod darpariaeth ddigonol i liniaru yn y modd gorau effeithiau'r argyfwng costau byw ar gymunedau lleol, trwy roi'r adnoddau iddynt helpu eu hunain yn hytrach na chreu diwylliant o ddibyniaeth, a
- chynyddu atebolrwydd trwy ymgysylltu mwy â staff, yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth, Aelodau Etholedig a rhanddeiliaid allweddol.

Trwy ddarllen y cynllun hwn, cewch sicrwydd bod y CRT yn cael ei reoli'n effeithlon ac effeithiol.

**Ein Gweledigaeth yw:**

***"Sicrhau bod gan bawb yr hawl i alw rhywle'n gartref"***

***Tai safonol, fforddiadwy a hygyrch***

sy'n seiliedig ar ein gwerthoedd gwasanaeth sy'n sylfaenol i'n gwaith ac sy'n gyrru'r modd yr ydym yn darparu ein gwasanaethau, sef:-

- canolbwyntio ar gwsmeriaid a bod yn atebol
- darparu gwerth am arian
- gweithio mewn partneriaeth
- bod yn arloesol yn ein dull o weithredu

**Ein Blaenoriaethau fydd:**

- Parhau i fuddsoddi yn ein tai presennol er mwyn cwrdd â cham II Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC)
- Adeiladu cartrefi ynni effeithlon newydd gyda graddau perfformiad ynni 'A' i ddiwallu'r angen cydnabyddedig am dai
- Lleihau'r gofyniad am unedau llety brys drwy ddarparu cartrefi parhaol i unigolion sy'n byw mewn llety o'r fath ar hyn o bryd

Nod y Cynllun yw rhoi hyder i'r sawl sy'n ei ariannu, i denantiaid ac i Aelodau Etholedig bod adnoddau a gwasanaethau'r CRT yn cael eu rheoli'n effeithlon ac effeithiol.

Mae rhagor o wybodaeth am bob agwedd o'r cynllun hwn ar gael gan Bennaeth y Gwasanaethau Tai, Cyngor Sir Ynys Môn, Swyddfeydd y Cyngor, Llangefni, Ynys Môn, LL77 7TW. E-bost TaiTai@ynysmon.gov.uk

**Ein meysydd cyfrifoldeb yw:**

- Tai Cyngor – gan gynnwys cynnal a chadw, gosod tai, adeiladu eiddo newydd, ymddygiad gwrthgymdeithasol
- Cyfrif Refeniw Tai'r Cyngor, casglu rhent
- Hawliau Lles a Chynhwysiant Ariannol

- Gwaith Cynnal a Chadw wedi'i Gynllunio ar gyfer gwella ein heiddo yn barhaus
- Digartrefedd
- Grant Cymorth Tai
- Cofrestr Tai Cymdeithasol
- Tai Fforddiadwy – gan gynnwys datblygiadau newydd gyda Chymdeithasau Tai, Cynllun Cymorth i Brynu
- Tai Gwag yn y sector preifat
- Grant Cyfleusterau i'r Anabl
- Mynd i'r Afael â Thlodi
- Sipsiwn a Theithwyr
- Cynllun i ail-leoli ffoaduriaid bregus - teuluoedd o Wcráin, Syria ac Afghanistan

**Cyd-destun cenedlaethol a lleol**

Mae Cynllun Corfforaethol y Cyngor yn darparu fframwaith i bob gwasanaeth weithio oddi mewn iddo ac mae tai yn alluogwr amlwg i sicrhau y gellir cyflawni hyn. Mae'r ddogfen hon hefyd yn cynnig fframwaith i wasanaethau weithio gyda'i gilydd er mwyn cyflawni nod cyffredin.

Yn atodol i'r ddogfen hon, mae nifer o Strategaethau sy'n bwydo i mewn iddi ac sy'n hwylsuo'r broses o gyflawni'r Cynllun uchod.

**Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn 2011-26**

Mabwysiadwyd y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd ar gyfer Gwynedd a Môn ym mis Gorffennaf 2017. Strategaeth ddatblygu 15 mlynedd yw hon ar gyfer defnydd tir sy'n canolbwyntio ar ddatblygiad cynaliadwy. Mae'r ddogfen hon yn llywio'r gwaith o ddatblygu tai newydd ar yr Ynys, yn ogystal â defnyddiau eraill. Mae'r Cynllun hwn yn cael ei adolygu ar hyn o bryd.

**Strategaeth Ynys Môn ar gyfer Hybu'r Gymraeg**

Y weledigaeth ar gyfer Strategaeth Hybu'r Gymraeg yw bod:

- Trigolion yn gallu fforddio byw a sefydlu cartrefi yn eu cymunedau lleol
- Bod trigolion yn rhannu ymdeimlad o ymygyslltiad a balchder yn ein cymuned fywiog, wirioneddol ddwyieithog
- Bod y Gymraeg yn cael ei blaenoriaethu mewn cynlluniau datblygu economaidd, tai a chynllunio lleol

**Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol**

Mae Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol yn disgrifio tai fel conglfaen lles unigolion, teuluoedd a chymunedau.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn rhoi'r uchelgais, y caniatâd a'r rhwymedigaeth gyfreithiol i ni wella ein llesiant cymdeithasol, diwylliannol, amgylcheddol ac economaidd ac mae'n ofynnol i gyrff cyhoeddus yng Nghymru feddwl am effaith hirdymor eu

penderfyniadau, gweithio'n well gyda phobl, cymunedau a'i gilydd, ac i atal problemau parhaus megis tlodi, anghydraddoldebau iechyd a newid hinsawdd.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, yn gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i geisio cyrraedd y nodau ac amcanion a llesiant ym mhopeth a wnânt.

**Datgarboneiddio**

Mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn gosod dyletswydd ar Lywodraethau i leihau allyriadau carbon, yn achos Cymru, bydd hyn o leiaf 80% erbyn 2050. Mae'r adroddiad a gomisiynwyd ym mis Gorffennaf 2019 - Cartrefi Gwell, Cymru Well, Byd Gwell yn rhoi 7 argymhelliad i Lywodraeth Cymru arwain a dywed

“Mae gan Gymru rai o'r tai hynaf a lleiaf thermol effeithlon yn y DU ac Ewrop. Adeiladwyd 32% o'r stoc dai yng Nghymru cyn 1919, pan nad oedd unrhyw safonau adeiladu o ran perfformiad thermol. Dim ond 10% o gartrefi yng Nghymru gafodd eu hadeiladu yn ystod y 18 mlynedd diwethaf, ac yn ystod y cyfnod hwnnw mae gofynion perfformiad ynni wedi newid yn sylweddol.”

Mae cynllun diweddar Llywodraeth Cymru "Ffyniant i Bawb: Cymru Carbon Isel” yn cynnwys pennod gyfan ar adeiladau yn seiliedig ar bob deiliadaeth a dywed mai adeiladau preswyl ar y cyfan sy’n cynhyrchu’r lefel uchaf o allyriadau yng Nghymru.

Mae'r Cyngor eisoes wedi datgan argyfwng hinsawdd a bydd ein gwaith yn y maes hwn yn ffurfio rhan o’r agenda datgarboneiddio.

**Ail-ddychmygu adeiladu tai cymdeithasol yng Nghymru - Strategaeth Dulliau Modern o Adeiladu Tai Cymdeithasol, Chwefror 2020**

Strategaeth sy’n nodi’r disgwyliadau ynghylch cynhyrchu tai wedi eu hadeiladu gan ddefnyddio Dulliau Adeiladu Modern sy’n annog defnyddio dulliau adeiladu traddodiadol ochr yn ochr â thechnolegau a dulliau newydd.

**Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016**

Nod y Ddeddf hon yw ei gwneud yn symlach i rentu cartref a diogelu hawliau tenantiaid. Yn gyffredinol, mae'r Ddeddf yn disodli'r holl denantiaethau a thrwyddedau cyfredol gan sefydlu dau fath yn unig o gontract meddiannaeth; diogel neu safonol. Ar hyn o bryd, rhagwelir y bydd angen ailgyhoeddi pob cytundeb tenantiaeth – rhai newydd a rhai sy’n bodoli eisoes, Mae'r Ddeddf hefyd yn creu hawliau newydd i ddioddefwyr cam-driniaeth ddomestig, pobl sy’n byw mewn tai sy'n cael eu rhannu a thenantiaid sydd angen cael gwneud gwaith atgyweirio yn eu tai.

**Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol Llywodraeth Cymru**

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod ei bod yn bryd gweithredu ar frys i hyrwyddo gweledigaeth i Gymru lle mae pawb yn cael eu trin fel dinasyddion cyfartal ac rydym fel Cyngor wedi cyfrannu at y ddogfen ymgynghori fydd yn arwain at weithredu Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol. Bydd ein Strategaeth Tai yn hyrwyddo'r nod cyffredinol o ‘sicrhau bod pob aelod o’n Cymdeithas yn gallu byw mewn cartref sydd yn addas ac yn fforddiadwy ac sy’n diwallu’r amrywiaeth o anghenion sydd gan bobl.’

**Asesiad Poblogaeth Gogledd Cymru**

Mae Asesiad Poblogaeth Gogledd Cymru yn adolygiad o anghenion gofal a chymorth y boblogaeth yng ngogledd Cymru, gan gynnwys anghenion cymorth gofalwyr. Cynhyrchwyd yr asesiad gan y chwe Chyngor yng Ngyngor Gogledd Cymru a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC) gyda chymorth Iechyd Cyhoeddus Cymru a hynny er mwyn cwrdd â gofynion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (y ddeddf).

**Yr Angen am Dai a'r modd y bydd hyn yn cael ei ddiwallu drwy ddatblygiad newydd**

Mae'r wybodaeth a ddarperir yn yr adran hon yn nodi'r data mewn perthynas â'r angen am dai ar yr Ynys ac roedd yn gywir ym mis Mawrth 2022.


**Gwybodaeth am y Gofrestr Tai Cymdeithasol:**

Ar hyn o bryd, mae 908 o ymgeiswyr ar y Gofrestr Tai Cymdeithasol, ac mae'r mwyafrif ohonynt angen tŷ anghenion cyffredinol 1 a 2 ystafell wely a thŷ ar gyfer person hŷn.


***Tabl 1: Rhestr Aros y Gofrestr Tai Cymdeithasol yn ôl math y math o eiddo a nifer yr ystafelloedd gwely sydd eu hangen***

| | **1 ystafell wely** | **2 wely** | **3 ystafell wely** | **4+ ystafell wely** | **CYFANSWM** |
|---|---|---|---|---|---|
| Anghenion Cyffredinol | 381 | 210 | 100 | 59 | 750 |
| Llety i Bobl Hŷn | 124 | 30 | 4 | 0 | 158 |
| CYFANSWM | 505 | 240 | 104 | 59 | 908 |
| % | 56% | 26% | 11% | 7% | |

Mae'r galw am dai cymdeithasol i'w weld ar y map isod, gyda'r galw ar ei uchaf yng Nghaergybi, Llangefni, Porthaethwy, Llanfairpwll, Amlwch, Y Fali, Llanfair ME, Llanfihangel Ysgeifiog a Biwmares. Sylwch fod rhai ymgeiswyr ar y rhestrau aros ar gyfer mwy nag un ardal.




Mae'r galw am lety rhent cymdeithasol i bobl hŷn i'w weld ar y map isod. Ymddengys bod y galw am lety i bobl hŷn, er enghraifft byngalos a fflatiau ar gyfer pobl o oedran penodol hefyd ar ei uchaf yng Nghaergybi, Llangefni, Porthaethwy a'r Fali.




**Gwybodaeth Bresennol am y Stoc Tai Cymdeithasol:**

Mae'r tabl isod yn dangos y wybodaeth sydd ar gael ar hyn o bryd am y stoc tai cymdeithasol ar yr Ynys, gan gynnwys tai anghenion cyffredinol, gofal ychwanegol, llety i bobl hŷn a llety â chymorth.

***Tabl 2: Yr Wybodaeth gyfredol am y Stoc Tai Cymdeithasol fesul Landlord Cymdeithasol Cofrestredig:***

| | 1 ystafell wely | 2 ystafell wely | 3 ystafell wely | 4 ystafell wely | 5 ystafell wely | 6 ystafell wely | 7 ystafell wely | 8 ystafell wely | CYFANSWM |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cyngor Sir Ynys Môn** | 751 | 1414 | 1678 | 80 | 12 | 3 | 0 | 0 | 3938 |
| **Grŵp Cynefin** | 131 | 217 | 224 | 19 | 3 | 1 | 0 | 1 | 596 |
| **Clwyd Alyn** | 108 | 140 | 82 | 12 | 0 | 0 | 0 | 0 | 342 |
| **Tai Gogledd Cymru** | 23 | 75 | 60 | 6 | 1 | 0 | 0 | 0 | 165 |
| **CYFANSWM** | 1000 | 1809 | 2046 | 108 | 16 | 4 | 0 | 1 | 4984 |
| **%** | 20.1% | 36.3% | 41.1% | 2.2% | 0.3% | 0.1% | 0.0% | 0.0% | |

Y rhaglen Grant Tai Cymdeithasol (GTC) yw'r prif grant cyfalaf a ddarperir gan Lywodraeth Cymru ar gyfer cyflenwi tai fforddiadwy. Fe'i defnyddir i ariannu cynlluniau tai sy'n cwrdd ag anghenion a blaenoriaethau tai lleol fel y'u nodwyd gan yr Awdurdod Lleol (LA).

Mae gan Ynys Môn y gyllideb ddangosol ganlynol mewn perthynas â'r Grant Tai Cymdeithasol a chaiff ei rannu rhwng y Cyngor fel Awdurdod sydd wedi dal gafael yn ei Stoc a'i bartneriaid o blith Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (Clwyd Alyn, Tai Gogledd Cymru a Grŵp Cynefin).

**Mae tabl 3 isod yn amlinellu'r ddarpariaeth GTC a ddarperir ar gyfer landlordiaid Tai Cymunedol Ynys Môn**

| 2022/23 | 2023/24 | 2024/25 | CYFANSWM |
|---|---|---|---|
| £8,013,632 | £8,814,995 | £8,414,313 | **£25,242,940** |

Mae'r Gyllideb ar gyfer y Grant Tai Cymdeithasol wedi'i ddyrannu'n llawn dros y **tair blynedd nesaf**, a rhagwelir y bydd yn ariannu cyfanswm o **380 o gartrefi fforddiadwy newydd ychwanegol** ar yr Ynys (52 ALl a 328 o gartrefi LCC). Yn ogystal, mae'r Awdurdod Lleol yn bwriadu adeiladu cyfleuster Gofal Ychwanegol i Bobl Hŷn ar gyfer hyd at **40** o breswylwyr.

Mae **99** o anheddau ychwanegol yn cael eu hadeiladu / yn y broses gynllunio, gan yr awdurdod lleol gyda hynny'n cael ei ariannu o'r CRT yn hytrach na'r Grant Tai Cymdeithasol.

## MYND I'R AFAEL Â THLODI A CHEFNOGI TENANTIAID GYDA'R ARGYFWNG COSTAU BYW

Mae'r Gwasanaethau Tai yn arwain o ran mynd i'r afael â thlodi a'r argyfwng costau byw sy'n wynebu trigolion Môn, beth bynnag fo'u deiliadaeth. Ein Tîm Hawliau Lles mewnol a'n Tîm Cynhwysiant Ariannol sy'n delio â mynd i'r afael â thlodi a hynny ochr yn ochr â'r gwasanaeth a gomisiynir gennym i CAB Ynys Môn.

Roedd y cynllun adfer yn dilyn Covid-19 yn mynd rhagddo pan gawsom wybod gan Lywodraeth Cymru a'r Llywodraeth Genedlaethol ein bod am wynebu argyfwng costau byw.

Fel landlord awdurdod lleol sydd wedi dal gafael yn ei stoc yng Nghymru, rydym wedi addo sicrhau na fydd tenantiaid yn cael eu troi allan o dai cymdeithasol os byddant mewn trafferthion ariannol ac wedi ymgysylltu â'n swyddogion tai.

### Cynhwysiant Ariannol

Mae'r tîm Cynhwysiant Ariannol yn cynnwys Uwch Swyddog Cynhwysiant Ariannol, 2 x Swyddog Cynhwysiant Ariannol sy'n gweithio yn yr Adran Dai ac mae'n darparu cymorth ariannol, cyngor ar drin arian a chyngor ynghylch fforddiadwyedd i denantiaid y Cyngor a thenantiaid preifat i ddatblygu eu gallu ariannol. Eu nod yw cynyddu gallu'r tenantiaid i reoli eu harian yn llwyddiannus, lleihau'r risg ariannol a sicrhau mynediad at wasanaethau ariannol fforddiadwy i'w helpu i gynnal eu tenantiaethau. Wrth weithio yn y cymunedau, mae'r swyddogion yn achub ar y cyfle i godi ymwybyddiaeth o effeithiau Credyd Cynhwysol a thlodi tanwydd a bwyd.

### Canolfan J.E. O'Toole

Mae'r Gwasanaeth Hawliau Lles wedi'i leoli yng Nghanolfan J.E. O'Toole gyda thîm bychan hefo blynyddoedd o wasanaeth sy'n cynnwys 3 Ymgynghorydd amser llawn, un Swyddog Gweinyddol ac Arweinydd y Tîm.

Mae'r Ganolfan yn cefnogi: pobl ddi-waith, pobl sâl ac anabl, rhieni sengl, pensiynwyr, gofalwyr a'r rheiny ar gyflogau isel drwy roi cyngor a chymorth iddynt i hawlio'r budd-daliadau cywir. Mae hyn yn cynnwys cyngor ar gredydau treth a thaliadau dewisol, sicrhau'r incwm mwyaf posib, egluro sut mae budd-daliadau'n cael eu heffeithio pan fydd rhai amgylchiadau'n codi, ymgeisio am grantiau, taliadau dewisol a gostyngiadau, helpu cleientiaid i apelio yn erbyn penderfyniadau budd-dal anghywir a delio â phroblemau eraill sy'n gysylltiedig â budd-daliadau. Mae hyn yn cynnwys cefnogaeth mewn perthynas â thlodi tanwydd.

Yn ystod 2023-24, bydd ein strategaeth trechu tlodi corfforaethol yn cael ei hadolygu. Bydd yr adolygiad hwn yn sicrhau bod ein hymdrechion i drechu tlodi yn parhau i fynd i'r afael ag adferiad wedi Covid-19 a'r argyfwng costau byw sy'n parhau.

**Mae rhai o'r gweithgareddau eraill sy'n gysylltiedig â thlodi ac yr ydym yn eu cynnal rŵan ac yn bwriadu eu cynnal yn y dyfodol yn cynnwys;**

- Parhau gyda'n cynlluniau mannau cynnes. Bu hyn yn hynod effeithiol ar rai o'n stadau tai mwyaf oddi ar y grid
- Parhau gyda'n gweledigaeth i ddatblygu mwy o fannau tyfu cymunedol.
- Defnyddio ein llecynnau cymunedol i barhau i gynnal digwyddiadau a sesiynau sy'n cefnogi lles tenantiaid a mynd i'r afael â heriau costau byw.



Ein Tîm O'Toole a Chynhwysiant Ariannol mewn digwyddiad Costau Byw yng Nghaergybi yn ddiweddar

**Incwm rhent**

Mae'r Gwasanaethau Tai yn dibynnu ar ei incwm rhent i sicrhau parhad busnes drwy gynnal y ffrydiau refeniw. Er mwyn gwneud hyn, mae'n bwysig casglu cymaint o incwm rhent ag sy'n bosibl fel y gallwn gynnig y gwasanaethau gorau posibl i denantiaid a thrigolion Ynys Môn.

Ar hyn o bryd, mae'r Adran Gwasanaethau Tai yn rheoli 3938 o anheddau sy'n cyfateb i incwm rhent oddeutu £20.9m a 675 o garejis sy'n cyfateb i gyfanswm incwm oddeutu £323k.

**Cynnydd Rhent Blynyddol**

Ar 17 Tachwedd, 2022 cadarnhaodd Llywodraeth Cymru, gan fod y CPI ar gyfer Medi 2022 yn 10.1% sy'n disgyn y tu allan i'r ystod o 0% i 3% ac yn golygu felly nad yw'r codiad rhent blynyddol presennol o CPI + 1% yn gymwys, y byddai'r Gweinidog sydd â chyfrifoldeb dros Newid Hinsawdd yn pennu'r newid priodol ar gyfer Rhenti Tai Cymdeithasol ar gyfer 2023/24.

Penderfynodd y Gweinidog mai cyfanswm y codiad rhent blynyddol uchaf ar draws y stoc gyfan fyddai hyd at 6.5%.

Er mai 6.5% fyddai'r cynnydd mwyaf a ganiateir, roedd disgwyliad y byddai'n rhaid i'r penderfyniad y byddai'r Awdurdod yn ei wneud ynghylch codiadau rhent roi ystyriaeth gyfartal i anghenion landlordiaid a fforddiadwyedd rhenti i denantiaid.

Oherwydd penderfyniad Llywodraeth Cymru i atal y Bandiau Rhent Targed unwaith eto ar gyfer blwyddyn ariannol 2023/24, penderfynwyd cynyddu rhenti pob tenant hyd at y trothwy blynyddol o 5% er mwyn rhannu'r cynnydd yn deg a chyfyngu ar y cynnydd unigol i bob tenant. Trwy gynyddu rhenti yn y modd hwn, byddwn yn cynhyrchu tua £998k o incwm rhent ychwanegol bob blwyddyn.

Ar hyn o bryd, ni fydd 2714 o denantiaid y Cyngor (70%) yn wynebu unrhyw galedi ychwanegol o ganlyniad i'r cynnydd arfaethedig mewn rhenti a thaliadau gwasanaeth a hynny oherwydd eu bod yn derbyn Budd-dal Tai llawn neu rannol neu'n derbyn Credyd Cynhwysol. Bydd yn rhaid i denantiaid sydd ddim yn derbyn budd-dal tai dalu'r rhent a'r

taliadau gwasanaeth, oni bai eu bod wrth gwrs yn gymwys i dderbyn budd-dal unwaith y daw’r cynnydd i rym.

Yn ogystal, mae'r Cyngor wedi penderfynu neilltuo cronfa 'Cynllun Cymorth Rhent' ar gyfer darparu cymorth i denantiaid sy'n talu rhent yn llawn ac a all fod mewn trafferthion ariannol o ganlyniad i'r cynnydd.

Bydd aelwydydd sy'n cael eu hystyried fel rhai sydd angen cymorth gyda'u rhent yn gallu gwneud cais am gymorth o’r cynllun neu gael eu cyfeirio ato.

Gan ddefnyddio'r drefn o gasglu rhent am gyfanswm o 51 wythnos, bydd y cynnydd rhent arfaethedig ar gyfer 2023/24 yn cyfateb i gynnydd wythnosol cyfartalog o £4.97. Bydd hyn yn cynyddu'r rhent wythnosol cyfartalog o £99.58 i £104.55.

**Yn Nhabl 4 isod, ceir trosolwg o broffil ein stoc tai**

| Math o Annedd | Cyfanswm | Canran y stoc | Rhent cyfartalog 2023/24 |
|---|---|---|---|
| Fflatiau 1 ystafell | 8 | 0.20% | £76.48 |
| 1 ystafell wely | 743 | 18.87% | £91.03 |
| 2 ystafell wely | 1410 | 35.81% | £101.70 |
| 3 ystafell wely | 1675 | 42.53% | £112.16 |
| 4/5 ystafell wely | 95 | 2.41% | £121.15 |
| Rhenti Canolradd | 7 | 0.18% | £110.96 |
| **Cyfanswm** | 3938 | 100% | |

**Ymgynghoriad ynghylch Rhent a Thaliadau Gwasanaeth**

Yn ystod y trydydd chwarter o flwyddyn ariannol 2023/24, byddwn yn cynnal ymgynghoriad llawn gyda'n tenantiaid a'n staff i mofyn eu barn ar osod rhent a thaliadau gwasanaeth.

Trwy fod yn dryloyw a chynnwys tenantiaid, lesddeiliaid, staff ac aelodau etholedig yn y broses o’r cychwyn, byddwn yn sicrhau fod pobl yn deall sut yr ydym yn gosod rhenti a’r modd y bydd yr incwm a geir o ganlyniad yn cael/am gael ei fuddsoddi.

Bydd yr ymgynghoriad yn cael ei gynnal drwy ddefnyddio gwahanol ddulliau o gyfathrebu sef wyneb yn wyneb, drwy llythyr, ar y wefan ac ar y cyfryngau cymdeithasol. Bydd hyn yn rhoi tawelwch meddwl i'n tenantiaid ac yn creu ymddiriedaeth fod penderfyniadau’n cael ei gwneud yn deg.


**Ôl-ddyledion rhent**


Ar 29 Ionawr, 2023 roedd cyfanswm y rhent a gasglwyd fel canran o'r cyfanswm casgladwy yn 99.47% ac mae cyfanswm yr ôl-ddyledion tenant cyfredol yn £651K (3.26%) gydag ôl-ddyledion cyn-denantiaid yn cyfateb i £275k (1.38%).

Roedd y ganran a gollwyd oherwydd bod eiddo’n wag yn 1.84% (£300k) ar 29 Ionawr, 2023.

Mae'r ôl-ddyledion wedi bod yn cynyddu yn ystod y flwyddyn ariannol hon, a hynny am nifer o resymau sef y cynnydd mewn costau byw ac effaith hynny ar denantiaid, y cynnydd graddol yn yr hawliadau am Gredyd Cynhwysol a phrinder staff, mae'r tîm adfer incwm wedi bod yn brin o ddau aelod o staff ers mis Mehefin 2022 ac mae staff eraill wedi cael dyletswyddau ychwanegol yn sgil gweithredu’r newidiadau i Ddeddf Rhentu Cartrefi Cymru 2016.

Ers Rhagfyr 2022, rydym wedi bod â thîm llawn o 6 swyddog ac un uwch swyddog. Mae'r ardaloedd y mae'r swyddogion yn gyfrifol amdanynt hefyd wedi cael eu diweddaru er mwyn sicrhau gwell effeithlonrwydd




O'i gymharu ag Awdurdodau Lleol eraill, Cyngor Sir Ynys Môn oedd â'r lefel isaf o Ôl-ddyledion ar ddiwedd Chwarter 1 a Chwarter 2 (2022/23).

**Proffil Dyledion**

Mae proffil nifer yr achosion o ôl-ddyled ym mhob band wedi newid yn ystod y misoedd diwethaf gyda nifer yr achosion dros £1000 wedi cynyddu'n sylweddol. Mae'r cyfyngiadau a gyflwynwyd ar gymryd camau meddiant yn gynharach yn y pandemig ac, yn fwy diweddar, oherwydd y newidiadau yn neddfwriaeth Rhentu Cartrefi Cymru wedi golygu bod nifer yr achosion sydd wedi codi i'r bandiau £2k a £3k hefyd wedi cynyddu.

**Mae Tabl 5 isod yn rhoi trosolwg o nifer yr aelwydydd sydd ym mhob categori o ôl-ddyled**

| | 2022 -2023 | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Chwarter 1 | Chwarter 2 | Chwarter 3 | Chwarter4 |
| <= £0 | 2064 | 1818 | 2089 | |
| >0 - £499.99 | 1406 | 1611 | 926 | |
| £500 - £999.99 | 209 | 230 | 224 | |
| £1000 - £1999.99 | 115 | 135 | 159 | |
| £2000 - £2999.99 | 33 | 27 | 29* | |
| £3000 - £3999.99 | 5 | 10 | 11 | |
| £4000- £4999.99 | 0 | 0 | 0 | |
| £5000+ | 1 | 1 | 2* | |
| Cyfanswm mewn ôl-ddyled | 1769 | 2014 | 1351 | |

**Proffil Talu**

Mae nifer yr hawliadau am Gredyd Cynhwysol wedi cynyddu oherwydd bod tenantiaid wedi cael eu rhoi ar ffyrlo, nifer eu horiau gweithio wedi lleihau neu wedi colli eu gwaith. Mae cyfanswm yr hawliadau CC wedi dyblu ers dechrau'r pandemig, gan arwain at gynnydd mewn ôl-ddyledion oherwydd yr oedi o bum wythnos cyn derbyn y taliad cyntaf. Mae nifer yr hawliadau CC yn parhau i gynyddu'n raddol a bydd yn parhau i wneud hynny tan fydd CC wedi cael ei sefydlu a'i weithredu'n llawn erbyn 2024.

| | 2022 -2023 | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Chwarter 1 | Chwarter 2 | Chwarter 3 | Chwarter 4 |
| Nifer yr achosion Budd-dal Tai | 1640 | 1601 | 1552 | |
| Nifer yr achosion Credyd Cynhwysol | 1190 | 1241 | 1258 | |
| Nifer yr APA | 440 | 511 | 551 | |
| Nifer yr o Achosion CC gydag Ôl-ddyledion | 841 | 958 | 781 | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Nifer yr Achosion Budd-dal Tai gydag Ôl-ddyledion | 344 | 368 | 251 | |

**Achosion Cyfreithiol a Throi Pobl Allan o’u Cartrefi**

Roedd achosion meddiant wedi newid yn dilyn cyflwyno Deddf Coronafeirws 2020, gan ymestyn cyfnodau Rhybudd am hyd at 6 mis. Er i'r Ddeddf ddod i ben ar 25 Mawrth 2022, mae ei heffaith yn parhau, sef nifer uwch o achosion gyda lefelau uwch o ddyled. Yn ogystal, mae achosion wedi'u gohirio ers Rhagfyr 2022 oherwydd gweithredu Deddf Rhentu Cartrefi Cymru.

Gofynnodd Llywodraeth Cymru i awdurdodau lleol ymrwymo i addewid o 'Dim troi pobl allan o’u cartrefi i wynebu digartrefedd'. Dim ond pan mae popeth arall wedi methu yr ydym yn troi pobl allan o’u cartrefi felly mae effaith hyn yn debygol o fod yn fach iawn. Does neb wedi cael eu troi allan o’u cartrefi yn ystod y ddwy flynedd ariannol ddiwethaf.

**Edrych ymlaen**

- Bydd y tîm ôl-ddyledion yn parhau i ddarparu cefnogaeth mewn perthynas â Chredyd Cynhwysol er mwyn lleihau'r effaith ar denantiaid.
- Byddwn yn parhau i wneud defnydd llawn o'r meddalwedd Mobysoft wrth fynd i'r afael ag ôl-ddyledion rhent a’r adnodd mae’n ei gynnig i nodi tueddiadau. Bydd hyn yn galluogi swyddogion i ymyrryd ag achosion yn gynt o lawer er mwyn osgoi cynnydd yn nifer yr achosion o ôl-ddyledion.
- Cyfarfodydd rheolaidd gydag Uwch Reolwyr i drafod yr achosion mwyaf difrifol a chymhleth er mwyn dod o hyd i ffyrdd pellach o ddatrys y broblem.
- Bydd yr Uwch Swyddog Ôl-ddyledion yn parhau i gyfarfod bob mis gyda thimau incwm Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig ac Awdurdodau Lleol eraill yng Ngogledd Cymru i rannu arferion perfformiad ac i drafod a rhannu arferion gwaith.
- Sicrhau bod tenantiaid yn cael yr incwm uchaf posibl trwy fanteisio ar yr holl gronfeydd cymorth sydd ar gael, megis DHP, DAF, cronfeydd tlodi ac ati a gwella gwytnwch ariannol cartrefi.
- Rydym yn mynychu a chyfrannu i'r cyfarfodydd deufisol gydag Awdurdodau Lleol eraill ledled Cymru ar ddyledion rhent. Mae'r cyfarfodydd hyn yn cael eu cadeirio gan Lywodraeth Cymru lle mae pob Awdurdod Lleol yn darparu dangosyddion perfformiad i bwrpas cymharu a thrafod arferion da neu unrhyw bryderon.
- Er y gall fod yn anodd i swyddogion fabwysiadu ymagwedd ‘gytbwys’ wrth fynd i'r afael ag ôl-ddyledion rhent, bydd pwyslais Llywodraeth Cymru ar fabwysiadu'r egwyddor o beidio troi pobl allan o’u cartrefi i wynebu digartrefedd ar gyfer Tenantiaid Cymdeithasol yn ei gwneud hi'n haws i swyddogion sicrhau bod y gefnogaeth gywir yn cael ei rhoi i'r tenant yn hytrach na mynd ati i’w troi allan o’u cartrefi.

**Cynhwysiant Ariannol**

Mae mynd i'r afael ag effeithiau diwygio lles ac yn fwy diweddar, yr argyfwng Costau Byw, yn parhau i fod yn flaenoriaeth uchel i'r Pennaeth Tai ac yn flaenoriaeth ar lefel gorfforaethol ac mae hyn i’w weld o’r modd yr ydym wedi paratoi a buddsoddi mewn meysydd allweddol i liniaru'r effaith.

Mae gennym Uwch Swyddog Cynhwysiant Ariannol a dau Swyddog Cynhwysiant Ariannol sy'n gweithio yn yr Adran Tai i ddarparu cymorth ariannol, cyngor ar drin arian a chyngor ar fforddiadwyedd i denantiaid y Cyngor a thenantiaid preifat fel eu bod yn medru datblygu eu gallu ariannol. Eu nod yw sicrhau bod tenantiaid yn datblygu'r gallu i reoli eu harian yn llwyddiannus, lleihau'r risg ariannol a sicrhau bod modd iddynt gael mynediad at wasanaethau ariannol fforddiadwy i'w helpu i gynnal eu tenantiaethau.

Mae'r mentrau a'r pecynau cymorth pellach sydd wedi cael eu cyflwyno gan y llywodraeth, ynghyd â'r gefnogaeth a'r ddarpariaeth sy'n bodoli eisoes mewn perethynas â banciau bwyd, tlodi tanwydd, cronfeydd DHP a DAF yn darparu mwy o adnoddau i'r swyddogion ddelio ag unrhyw atgyfeiriadau yn y dyfodol.

**CYFRANOGIAD AC YMGYSYLLTIAD TENANTIAID**

**Porth Digidol i Denantiaid** - Mae'r gwaith ar y Porth Digidol i Denantiaid yn parhau. Erbyn Ionawr 2023, dylem fod mewn sefyllfa i roi prawf ar y porth gyda grŵp bychan o denantiaid drwy gydol y mis hwnnw. Bydd unrhyw beth a ddysgir neu faterion a nodwyd yn cael eu datrys cyn cyflwyno'r broses yn llawn.

**Ymgeisio am dai ar-lein –** Rydym wrthi'n datblygu'r ffurflen ar gyfer ymgeisio am dai ar-lein mewn partneriaeth â TG. Yr uchelgais yw y bydd y ffurflen gais am dai yn cael ei hymgorffori ar ein CRM Corfforaethol newydd a fydd yn rhyngwynebu â Orchard, gan ganiatáu i bobl sy'n ymgeisio am dai wneud cais ar-lein. Bydd hyn, yn ei dro, hefyd yn lleihau nifer y galwadau ffôn.

**Ail-ddechrau cyfranogiad tenantiaid wyneb yn wyneb**

Rydym wedi cwblhau 10 diwrnod glanhau llwyddiannus eleni. Byddwn yn eu hail-ddechrau y flwyddyn nesaf rhwng Ebrill a Medi.

**Ardaloedd sydd wedi'u cwblhau**:

- Llanfaes
- Ffordd Beibio a Nimrod Walk, Caergybi
- Ffordd Lligwy & Tyn Coed, Moelfre
- Maes Geraint, Betws Geraint a Bron Ffinnan, Pentraeth
- Pencraig a Bro Tudur, Llangefni
- Bryngwynt, Stryd y Ffynnon a Pwll Brics, Amlwch
- Waterside, Caergybi
- Maes Llewelyn & Min y Môr, Aberffraw
- Tre Ifan & Cae Ifan, Caergeiliog
- Maes Meurig, Gwalchmai

Mae'r digwyddiadau hyn yn ffordd wych o ymgysylltu â thenantiaid gan ei fod yn rhoi cyfle i ni drafod a chodi ymwybyddiaeth o gyfleoedd Cyfranogiad Tenantiaid, rhannu gwybodaeth am Ddeddf Rhentu Cartrefi Cymru ac unrhyw ymgysylltiad neu ymgynghoriad arall sydd ar y gweill ar hyn o bryd.

**Pwy sy'n mynychu'r digwyddiadau hyn?**

Swyddog Cyfranogiad Tenantiaid, y Swyddog Rheoli Gwastraff ar gyfer yr ardal, Swyddog Rhent, Swyddog Rheoli Tai, PCSO, Aelodau Etholedig, Gweithredwyr Cynnal a Chadw gyda fan bocs i gludo a chefnogi tenantiaid gydag eitemau mawr a'r Wardeiniaid Ynni i gefnogi tenantiaid gydag unrhyw fater ariannol.

**Ein nod ar gyfer 2023-24 yw;**

- ymgynghori ar ein Strategaeth Cyfranogiad Tenantiaid Lleol a'i chwblhau
- Parhau gyda'n hymdrechion i gefnogi tenantiaid sy'n ei chael hi'n anodd oherwydd yr argyfwng Costau Byw
- Datblygu mwy o fannau tyfu cymunedol yn ein hystadau
- Cyflawni ein cynllun gweithredu cyfranogiad tenantiaid blynyddol

**Arolwg STAR**

Cafodd yr arolwg ei gynnal rhwng Tachwedd a Rhagfyr 2021. Dosbarthwyd holiaduron papur i bob cartref eu llenwi ei hunain, ac yna nodyn atgoffa rhyw dair wythnos yn ddiweddarach i bawb nad oeddynt wedi ateb erbyn hynny. Yn ogystal, anfonwyd gwahoddiadau a negeseuon atgoffa drwy e-bost i bob cyfeiriad e-bost dilys ar ffeiliau'r Cyngor, ynghyd â gwahoddiad a neges atgoffa ar ffurf neges destun i bob ffôn symudol. Ar adeg ysgrifennu Cynllun Busnes y Cyfrif refeniw tai ar gyfer 2022, nid oedd y wybodaeth fanwl isod ar gael.

Cymerodd 1,511 o denantiaid ran yn yr arolwg, gyda hynny'n gyfradd ymateb o 40% (lwfans ansicrwydd +/- 2.0%). Casglwyd bron i draean o gyfanswm yr ymatebion ar-lein (467). Noder bod canlyniadau'r arolwg wedi'u pwysoli yn ôl oedran a math o stoc er mwyn sicrhau eu bod yn gynrychioliadol o'r boblogaeth tenantiaid yn ôl y prif nodweddion demograffig a daearyddol.

Roedd boddhad cyffredinol tenantiaid gyda gwasanaethau Cyngor Sir Ynys Môn wedi gostwng yn ystadegol sylweddol o 88% yn 2019 i 85% yn 2021, gan gynnwys cwymp o 6% yn y gyfran a oedd yn 'fodlon iawn'.

Nid yw'r patrwm hwn yn anarferol, fodd bynnag, gyda llawer o landlordiaid yn profi cwympiadau tebyg o gymharu â'r cyfnod cyn pandemig COVID. Yn wir, y canolrif meincnod ar draws yr holl landlordiaid yng Ngogledd Cymru oedd 82%, a dim ond 77% ar gyfartaledd ar gyfer awdurdodau lleol Cymru.

Y newidiadau mwyaf o ran boddhad oedd yn y sgorau a roddwyd i'r cartref, y gwaith atgyweirio a chynnal a chadw a'r gymdogaeth, sef yr agweddau hynny yr oedd y pandemig fwyaf tebygol o darfu arnynt.

Roedd yn gadarnhaol gweld gwelliant sylweddol o ran ymddiriedaeth ymhlith tenantiaid o'i gymharu â 2019 (83%, i fyny o 77%), gyda'r gyfran a oedd yn anghytuno'n egnïol yn parhau i fod yn isel iawn (7%).

Y nodwedd ddemograffig fwyaf dylanwadol ym mhob arolwg tenantiaid bron yw oedran, felly nid yw'n syndod mai'r tenantiaid mwyaf bodlon yn gyffredinol oedd y rhai o oedran ymddeol (87% yn fodlon), tra bod y sgôr isaf o 75% ymhlith pobl 35 - 49 oed. Golygai hyn mai tenantiaid mewn tai gwarchod oedd y rhai mwyaf bodlon (94%), gyda'r rhai mewn tai dynodedig i bensiynwyr (88%) a rhai ag anghenion cyffredinol (82%) yn dilyn.

Roedd y rhan fwyaf o'r tenantiaid yn fodlon ag ansawdd eu cartref (82%), er

bod gostyngiad ystadegol arwyddocaol o 4% ers 2019.

Fodd bynnag, mae arolygon eraill a gynhaliwyd gan ARP Research ar ôl y pandemig yn ystod y misoedd diwethaf wedi dangos gostyngiadau tebyg yn y sgôr hon, felly er gwaethaf y cwymp o bedwar pwynt mae canlyniad y Cyngor yn parhau i gymharu'n ffafriol ag awdurdodau lleol eraill (meincnod o 75%), ac yn gyfartal â Gogledd Cymru'n gyffredinol.

Roedd cyfran uwch o'r ymatebwyr yn fodlon o ran pa mor ddiogel a saff yr oedd eu cartrefi (90%) ac roedd y sgôr naw pwynt yn uwch na'r canolrif o 81% ymhlith awdurdodau lleol eraill yng Nghymu.

Roedd ansawdd cartrefi a pha mor ddiogel/saff yr oeddynt yn yrwyr allweddol o foddhad cyffredinol.

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn fodlon bod y Cyngor yn hawdd delio â fo (81%), cwestiwn craidd mewn arolwg STAR a elwir yn sgôr 'ymdrech i gwsmeriaid', ac mae'r canolrif meincnod ymhlith cleientiaid ARP Research yng Nghymru yn 82%. Roedd hwn yn yrrwr allweddol arall o foddhad cyffredinol.

Roedd tenantiaid yr un mor gadarnhaol am y ffordd y maent yn cael dweud eu dweud o ran y modd y caiff gwasanaethau eu rheoli a'r cyfleoedd a gânt i gymryd rhan yn y broses o wneud penderfyniadau (65% a 64%), gyda dim ond 13% - 12% yn y drefn honno'n anfodlon. Roedd y sgorau hyn gryn dipyn yn uwch na chyfartaledd y sgorau y llwyddodd awdurdodau lleol eraill yng Nghymru i'w cyflawni, gyda'r ddwy sgôr yn rhoi'r awdurdod yn y chwartel uchaf.

Mae sgorau boddhad y Cyngor yn uchel o gymharu â'r sgorau rhanbarthol, ac yn erbyn awdurdodau lleol eraill ar draws Cymru. Mae'n ymddangos bod y pandemig wedi ailosod nifer o'r gwaelodlinau ar gyfer boddhad tenantiaid ac ychydig iawn o landlordiaid sydd wedi dychwelyd i'r lefelau cyn y pandemig.

Arolwg o denantiaid a thrigolion (STAR) (gov.wales)

Ar gyfer ein harolwg STAR 2023, ein nod yw comisiynu darparwr i gyflawni hyn ac rydym yn y broses o wahodd dyfynbrisiau. Ein nod yw cyflawni yn ystod Haf 2023.

## Rhaglen Buddsoddi Cyfalaf

### Rhaglen Gwaith Cynnal a Chadw wedi'i Gynllunio ar gyfer 2023-24

Mae'r Rhaglen Gwaith Cynnal a Chadw wedi'i Gynllunio ar gyfer 2023/24 a ddangosir yn Nhabl 1 isod ac sy'n werth £9.7 miliwn (ac eithrio datblygiadau newydd) yn clustnodi'r adnoddau cyfalaf sydd wedi'u hymgorffori yn y Cynllun Busnes. Yn sail i'r rhaglen, mae data a gasglwyd yn annibynnol ynghylch cyflwr y stoc a bydd yn cyfrannu at ein Strategaeth Rheoli Tai a'r Strategaeth Rheoli Asedau Corfforaethol.

**Tabl 6 -** Mae'r Rhaglen hon ar gyfer Buddsoddi yn y Sector Cyhoeddus yn rhan o'r Cynllun Cyfalaf Corfforaethol ar gyfer 2023/24.

| **Rhaglen Buddsoddi yn y Sector Cyhoeddus** | **2023/24 (£ '000)** |
|---|---|
| Gwaith SATC Mewnol ac Asbestos | 1,700 |
| Ymrwymiadau ar gontractau presennol a'r Rhaglen Draddodiadol ar gyfer Gwaith Cynnal a Chadw wedi'i Gynllunio | 4,450 |
| Rheoli Risg Tân | 400 |
| Gwaith Gwres Canolog | 1,250 |
| Gwaith Amgylcheddol | 500 |
| Gwaith Ynni/Datgarboneiddio | 1,000 |
| Addasiadau yn y Sector Cyhoeddus | 400 |
| | **9,700** |
| **Ariannu** | **2023/24 (£ '000)** |
| Lwfans ar gyfer Gwaith Atgyweirio Mawr | 2,688 |
| Cyfraniad Refeniw | 5,990 |
| Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio LlC | 872 |
| Grant Risg Tân LlC | 150 |
| | **9,700** |

**Cynllun Buddsoddi Mewnol**

Mae swm o £1.7m wedi'i glustnodi yn y gyllideb er mwyn mynd i'r afael â gwrthodiadau SATC, elfennau cyfalaf wedi'u huwchraddio ar adeg newid tenantiaeth ac ar gyfer parhau i osod ceginau, ystafelloedd ymolchi a systemau ail-wifrio newydd wrth iddynt gyrraedd diwedd eu cylch bywyd.

Clustnodir swm o £500k yn y gyllideb uchod tuag at gontract a ddyfarnwyd ar gyfer amnewid 80 o geginau nad oeddynt yn rhan o'r rhaglen SATC graidd, wreiddiol.

**Rhaglen draddodiadol ar gyfer Gwaith Cynnal a Chadw Allanol wedi'i Gynllunio**

Mae cyfanswm o £4.45m wedi cael ei neilltuo yn y gyllideb ar gyfer gwaith cynnal a chadw traddodiadol wedi'i gynllunio ac mae'n cynnwys ymrwymiad ymlaen llaw i gynlluniau ble mae gwaith wedi cychwyn ar y safle neu sy'n cael eu dyfarnu yn ystod 2022/23.

Yn ystod 2023/24, byddwn yn parhau i dargedu gwella effeithlonrwydd ynni ein cartrefi yn y lleoliadau canlynol:

- Maes Cynfor, Cemaes Cam 1: Cwblhau'r gwaith a gychwynnwyd yn ystod 2022/23
- Maes Cynfor, Cemaes Cam 2

- 55-62 Tyddyn To, Porthaethwy, Erw Hywel, Llandegfan a Joint Houses, Brynteg
- Morrison Crescent, Caergybi

Mae cwmpas cyffredinol y gwaith sydd i'w wneud neu sydd wedi cychwyn yn barod ar safleoedd fel arfer yn cynnwys ail-doi gan gynnwys gosod paneli Solar PV, gosod system rendro wedi'i hinswleiddio, ffenestri a drysau newydd lle bo'n briodol, gwaith allanol gan gynnwys llwybrau, ffensio a waliau terfyn.

Bydd gwelliannau i'r cartrefi sy'n rhan o'r holl gynlluniau y soniwyd amdanynt uchod yn eu gwneud yn sylweddol fwy cysurus ac atyniadol i edrych arnynt a, lle bo hynny'n berthnasol, yn eu gwneud yn fwy fforddiadwy i'w gwresogi. Mae ein contractau Gwaith Cynnal a Chadw Wedi'i Gynllunio Traddodiadol yn canolbwyntio ar wella ffabrig allanol anheddau a bydd yn parhau i fod yn sail i'n cynlluniau buddsoddi cyfalaf wrth symud ymlaen.

**Rheoli Risg Tân**

Er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth barhaus â'r Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio Diogelwch Tân 2005, rydym wedi dyrannu swm o £400k tuag at uwchraddio a/neu adnewyddu offer ymladd tân a systemau canfod tân i gydymffurfio ag asesiadau risg tân.

Mae cynlluniau buddsoddi ar gyfer 2023/24 yn caniatáu ar gyfer gosod systemau atal tân yn ôl-weithredol mewn 2 o'n blociau fflatiau uchder canolig, sef Glan Cefni, Llangefni a Maes y Coed, Porthaethwy. Bydd cwblhau'r cynllun hwn yn llwyddiannus yn sicrhau bod ein 4 bloc tŵr uchder canolig yn elwa o systemau chwistrellu i ddiogelu rhag tân.

Yn ogystal, byddwn yn gweithio tuag at sefydlu a chychwyn ar raglen 3 blynedd o osod drysau tân newydd a all lethu tân am 1 awr yn ystod 2023/24.

**Gwaith Gwres Canolog**

Yn ystod 2023/24, rydym wedi neilltuo cyllideb o £1.25m i osod oddeutu 500 o foeleri nwy naturiol yn lle boeleri sydd o leiaf 15 oed a hynny'n unol â'r cylchoedd bywyd disgwyledig a nodir yn y Cynllun Busnes.

**Gwaith Ynni a Datgarboneiddio**

Rydym yn parhau i ymgysylltu â'r Gweithredwr Rhwydwaith Ardal (DNO) am ganiatâd i osod systemau PV Solar lluosog ar nifer o stadau. Yn anffodus, oherwydd problemau gyda chapasiti'r rhwydwaith, nid yw cael caniatâd y DNO i osod systemau yn broses syml.

Ein bwriad yw parhau gyda'r rhaglen hon yn ystod 2023/24 ac mae £1.0m wedi cael ei glustnodi yn y gyllideb i dargedu 250 o osodiadau eraill a fyddai'n cyfrannu'n gadarnhaol tuag at dargedau effeithlonrwydd ynni a lleihau carbon.

**Gwaith Amgylcheddol**

Yn ôl Safon Amgylcheddol SATC, rhaid i gartrefi gael eu lleoli mewn "amgylcheddau deniadol a diogel y gall preswylwyr deimlo cysylltiad â nhw ac y gallant fod yn falch o fyw ynddynt."

Mae cyfanswm o £500k wedi'i ddyrannu tuag at sicrhau gwelliannau amgylcheddol yn 2023/24. Bydd cyfran sylweddol o'r gyllideb hon yn cael ei defnyddio i barhau gyda'r gwaith o ddymchwel garejis sydd ddim yn hyfyw i'w cynnal bellach. Bydd y rhaglen hon yn cyflwyno gwelliannau amgylcheddol mewn cysylltiad â pharcio, gwella diogelwch a gwella sut mae ardaloedd penodol yn edrych yn gyffredinol. Yn ogystal, bydd y gyllideb yn cael ei defnyddio

ar gyfer gwella ystadau penodol ac uwchraddio gweithfeydd trin carthffosiaeth sy'n eiddo i, ac sy'n cael eu gweithredu gan y Gwasanaethau Tai.

**Gwaith addasu yn y sector cyhoeddus**

Mae'r gyllideb yn cynnwys swm o £400k ar gyfer gwaith addasu mawr ar gyfer pobl anabl. Mae enghreifftiau nodweddiadol o waith yn cynnwys gosod lifftiau grisiau, cawodydd mynediad gwastad, rampiau ac estyniadau.

**Cydymffurfio â SATC a SATC 2023 / Datgarboneiddio**

Rydym yn fodlon bod pob eiddo, lle bynnag y mae hynny'n ymarferol bosibl, yn cwrdd â safonau SATC ar wahân i'r rhai ble mae tenant wedi gwrthod y gwaith neu'r rhai sy'n bodloni'r meini prawf ar gyfer methiannau derbyniol. Mae gwaith gwella ar eiddo ble yr oedd tenant wedi gwrthod y gwaith yn flaenorol yn cael ei wneud yn awtomatig ar adeg newid tenantiaeth. Ni allwn ond ystyried nodi methiant derbyniol os yw cost y gwaith i unioni yn anymarferol o safbwynt economaidd.

Yn ystod 2022/23, penododd y Gwasanaethau Tai gwmni Savills i gynnal Arolwg llawn o Gyflwr y Stoc fel bod yr wybodaeth lawn wrth law i hysbysu'r penderfyniadau a wneir fel rhan o'r broses flynyddol o ddarparu Cynllun Busnes ar gyfer y Cyfrif Refeniw Tai. Mae'r arolwg yn cynnwys:

- Casglu data ar gyflwr y stoc
- Asesu eiddo yn erbyn SATC gan gynnwys disgwyliadau drafft SATC 2
- Arolwg sgôr ynni
- System Mesur Iechyd a Diogelwch mewn Tai
- Rhagamcan ariannol mewn perthynas â gwaith trwsio, gwelliannau a gwaith adnewyddu wedi'i gynllunio

Bydd yr arolwg yn darparu dilysiad gan gorff annibynnol ynghylch a ydym yn parhau i gwrdd â'r SATC gwreiddiol ai peidio.

O safbwynt lleihau carbon ac effeithlonrwydd ynni, bydd yr Arolwg Sgôr Ynni i gasglu data cyfredol RdSAP 10 yn darparu sylfaen gref ar gyfer cynllunio buddsoddiad a chydymffurfio yn y dyfodol â thargedau arfaethedig SATC 2023. Ar ôl cyfnod o adolygu'n ofalus, rydym yn disgwyl mabwysiadu canfyddiadau'r arolwg, y casgliadau a'r goblygiadau ariannol yn llawn yn ystod Ch4 2022/23.

Ar ôl derbyn yr arolwg, byddwn yn defnyddio arolwg cynhwysfawr, gwerthusiad o opsiynau ar gyfer gwellaint a methodoleg cynllunio buddsoddiad Savills i werthuso effeithlonrwydd ynni, targedau lleihau carbon a chydymffurfio â'r Llwybr Ynni. Mae hon yn broses sy'n cydymffurfio â PAS 2035 sy'n nodi, yn blaenoriaethu ac yn gwerthuso mesurau gwella.

Ar ôl cwblhau'r uchod byddwn yn sefydlu rhaglenni gwariant mwy hirdymor i fynd i'r afael â thargedau SATC 2023 mewn cysylltiad ag effeithlonrwydd ynni a datgarboneiddio.

**Ariannu Gwaith Cyfalaf wedi'i gynllunio ar gyfer 2023/24**

Mae ein Rhaglen Buddsoddi Cyfalaf yn cael ei hariannu'n rhannol gan Lywodraeth Cymru ac rydym yn derbyn y **Lwfans Atgyweiriadau Mawr (LAM)** bob blwyddyn sy'n cyfrannu tuag at gyflawni a chynnal SATC. Yn ystod 2022/23, cawsom MRA gwerth £2.67 miliwn tuag at ariannu ein rhaglen buddsoddi cyfalaf.

Yn ystod 2022/23, derbyniodd y Gwasanaethau Tai £393k gan Lywodraeth Cymru o'r Gronfa Grant Cyfalaf ar gyfer Adfer Adeiladau Preswyl Uchder Canolig ac Uchel. Mae'r gwaith sy'n cynnwys Systemau Is-rannu Adeiladau a Llethu Tân ym mhob un o'r 4 o'n blociau tŵr uchder canolig yn parhau i fynd rhagddo ar y safleoedd ac rydym yn disgwyl y bydd swm o £150k yn cael ei gario drosodd i 2023/24.

Mae'r gyllideb hefyd yn cynnwys £872,000 o gyllid Rhaglen 3 Gwaith Ôl-osod wedi'i Optimeiddio sef hanner y swm a ddyfranwyd i ni dros dro ar gyfer 2023/24 a 2024/25.

Bydd gweddill y gyllideb o £9.7m yn cael ei hariannu o incwm refeniw.

**Caffael a Manteision Cymunedol**

Mae contractau mawr a gaffaelwyd gan yr Adran Tai yn cynnwys Recriwtio a Hyfforddiant Wedi'i Dargedu, Buddion Cymunedol Ehangach a Chyfleoedd Cadwyn Gyflenwi.

**Mae elfennau allweddol yn cynnwys:**

- Hyfforddiant a recriwtio
- Cyfleoedd lleol mewn perthynas â'r gadwyn gyflenwi
- Buddion cymunedol ehangach sy'n gysylltiedig â'r ardal leol
- Cwblhau Teclyn Mesur Budd-dal Cymunedol Gwerth Cymru ar ôl cwblhau contract

Caiff unrhyw gyfleoedd tendro cyfalaf eu hysbysebu trwy borth caffael GwerthwchiGymru. Gweledigaeth y Gwasanaethau Tai yw sicrhau bod contractwyr a chadwyni cyflenwi lleol yn cael pob cyfle i gystadlu am gontractau cyfalaf blynyddol a a chontractau fframwaith. Bydd dyfarnu contractau'n lleol yn cyfrannu tuag at leihau ôl troed carbon ein cynlluniau buddsoddi tra'n hyrwyddo creu a chadw swyddi.

**Cyfleoedd Buddsoddi Eraill – Cynyddu'r cyflenwad tai**

**Dull modern o adeiladu mewn tai cymdeithasol**

Adeiladwyd y rhan fwyaf o'r tai gan ddefnyddio Dulliau Adeiladu Modern (DAM) fel y'u diffinnir gan Lywodraeth Cymru (LlC) yn ei strategaeth adeiladu tai cymdeithasol 'Ail-ddychmygu adeiladu tai cymdeithasol yng Nghymru'. Mae hyn yn golygu y bydd y rhan fwyaf o'r stoc newydd yn cael eu hadeiladu gan ddefnyddio pren neu ddeunyddiau cynaliadwy eraill gyda golwg ar leihau'r defnydd o ddulliau 'brics a bloc' mwy traddodiadol sy'n ymgorffordi lefel uchel o garbon.  Gall systemau DAM gynnwys y canlynol:

- Adeiladwaith ffrâm bren
- Adeiladwaith safonol Passivhaus (strwythurau ffrâm bren wedi'u hinswleiddio i lefel uchel)
- Adeiladwaith modiwlar

Mae CSYM wedi manteisio'n llawn ar Raglen Grant Tai Arloesol LlC i adeiladu tai newydd gan ddefnyddio safon Passivhaus. Mae hyn yn sicrhau cragen barhaus o inswleiddiad drwy'r adeilad ac yn sicrhau nad oes pontydd thermol sy'n cyfrannu at golli gwres. Mae gwres hefyd yn cael ei ail-gylchredeg drwy'r eiddo gan ddefnyddio system awyriant mecanyddol ar gyfer adfer gwres (MVHR) sy'n golygu bod llai o wres yn cael ei golli ac yn optimeiddio'r defnydd o wres sy'n cylchredeg yn naturiol yn yr eiddo. Mae'r diagram canlynol yn dangos rhai o'r egwyddorion sylfaenol a ddefnyddir yn y dull adeiladu.

Ar hyn o bryd, mae CSYM yn adeiladu 30 o dai safonol Passivhaus newydd yng Nghaergybi.

Mae'r lluniau isod yn dangos stad Llaingoch yng Nghaergybi yn cael ei hadeiladu, mae'r llun cyntaf yn dangos y fframiau pren panelog a gafodd eu hadeiladu oddi ar y safle yn cael eu codi i'w lle cyn cael rhoi at ei gilydd. Mae'r ail lun yn dangos yr un bloc o 4 fflat gyda llawer o’r gwaith wedi’i gwblhau.





**STAFFIO (FFEITHLUN)**

| | |
|---|---|
| **Benyw** | 91 |
| **Gwryw** | |
| | |
| **<25** | 17 |
| **26-34** | 44 |
| **35-44** | 39 |
| **45-54** | 34 |
| **55-64** | 32 |
| **65+** | 2 |

Mae’n cynllun ar gyfer datblygu'r gweithlu wedi’i sefydlu ac yn canolbwyntio ar barhau i wella sgiliau a gwybodaeth o fewn yr adran. Bwriedir cynnal dadansoddiad ar gynllunio olyniaeth i staff a fydd yn ymddeol o fewn y 5-10 mlynedd nesaf. Canolbwyntio hefyd ar staff sy'n awyddus i ymgeisio am rolau rheoli.

Rydym wedi nodi bod, neu y bydd, 36 o swyddogion yn 60 oed o fewn y 5 mlynedd nesaf. Er bod yr oedran ymddeol cenedlaethol yn 67 oed, mae’n bwysig ein bod ni fel adran yn cytuno ar gynllunio olyniaeth.

Mae gennym un Prentis Tai Cymunedol yn agosáu at ddiwedd ei flwyddyn gyntaf ac mae hysbyseb am brentis newydd ar y gweill.

Mae gweithio hybrid wedi'i sefydlu’n llawn. Mae'r rhan fwyaf o swyddogion yn gweithio o'n swyddfeydd 3 diwrnod yr wythnos. Mae canran fechan yn gweithio'n llawn amser o'r swyddfa.

**Sefydliad Tai Siartredig** – mae dau aelod o staff wedi llwyddo i ennill cymwysterau'r Sefydliad Tai Siartredig ac mae dau aelod arall o staff wedi dechrau gweithio at y cymhwyster ym mis Hydref 2022.

**Cyfrifoldebau Corfforaethol**

Mae gennym gyfrifoldebau corfforaethol sy'n cynnwys Diogelu, Llywodraethu Data, Rheoli Perfformiad, Y Gymraeg, Parhad Busnes, Rheoli Absenoldeb Staff, Cynllunio Argyfwng ac Iechyd a Diogelwch. Mae'r holl agweddau hyn yn cael eu hadolygu'n aml.

**Heriau staffio o fewn Tai Cymunedol**

Mae’r heriau staffio cyson yn ystod y 3 blynedd diwethaf bellach wedi'u datrys. Rydym wedi recriwtio'n llwyddiannus i’n swydd Swyddog Hawliau Lles Cynorthwyol (mae hyn wedi cymryd 3 blynedd) ac rydym bron â bod â’r nifer llawn o staff.

Mae ein tîm Cymorth Tai wedi wynebu rhai heriau recriwtio oherwydd bod contractau'n rhai tymor byr. Mae hyn wedi cael ei ddatrys.

Yn ystod y flwyddyn hon, mae 4 o swyddogion gwasanaeth cwsmer wedi symud i borfeydd newydd. O ystyried hyn, mae ein pwyslais wedi bod ar recriwtio a hyfforddi swyddogion newydd.

**Heriau staffio yn y Gwasanaethau Technegol**

Ers ailstrwythuro'r Gwasanaethau Technegol a'r Uned Cynnal a Chadw Tai yn 2016, rydym wedi wynebu anawsterau cynyddol o ran recriwtio a chadw peirianwyr trydanol a gwresogi. Ar un cyfnod yn ystod 2022/23, roedd gennym 6 swydd wag ar gyfer y swyddi ardystiedig hyn. Roedd yn amlwg, a thystiolaeth yn profi, bod cyfraddau cyflog yn fwy cystadleuol yn y sector preifat ac yn y Cymdeithasau Tai sy’n gweithredu yng Ngogledd Cymru. Yn ystod 2022, er mwyn sicrhau ein bod yn gallu cyflawni a chynnal gwasanaethau hanfodol a statudol, cafodd y bandiau cyflog presennol eu hadolygu mewn ymgynghoriad ag Adnoddau Dynol a Chyllid.

O ganlyniad i'r uchod, ac yn dilyn adolygiad o ddisgrifiadau swydd, gwerthuso dilynol ac ymgynghori â staff, mae swyddi peirianwyr trydanol a gwresogi ynghyd â swyddi goruchwylwyr wedi cael eu hail-werthuso gan arwain at gyflog uwch. Rydym yn hyderus y bydd y cam hwn yn ein galluogi i fynd i'r afael â’r anawsterau o ran llenwi’r swyddi gwag hyn.

Yn ogystal, mae ein hymrwymiad i roi cyfleoedd o ran prentisiaethau wedi bod yn werthfawr iawn ac yn ystod 2023 rydym yn gobeithio y bydd 3 prentis a gyflogwyd yn ystod lansio'r cynllun yn cwblhau eu cyrsiau yn llwyddiannus ac yn symud i gyflogaeth amser llawn gyda'r Uned Cynnal a Chadw Tai.

Wrth symud ymlaen, mae'r Gwasanaethau Tai yn cydnabod y bydd angen adolygu'r strwythur staffio i ddarparu buddsoddiad cyfalaf yn ystod 2023 er mwyn mynd i'r afael â SATC 2 ynghyd â thargedau a disgwyliadau o ran yr agenda di-garbon.

## SEFYLLFA ARIANNOL

### Rhaglen Gyfalaf 5 Mlynedd

| | 2023.24 | 2024.25 | 2025.26 | 2026.27 | 2027.28 |
|---|---|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| **GWARIANT CYFALAF** | | | | | |
| Gwelliannau Safonau Ansawdd Tai Cymru | 9,700 | 10,185 | 10,490 | 10,805 | 11,129 |
| Datblygu Cynlluniau Newydd a Phryniannau | 8,749 | 19,450 | 16,234 | 10,026 | 10,326 |
| Arall | 0 | 510 | 0 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm Gwariant** | 18,449 | 30,145 | 26,724 | 20,830 | 21,455 |
| **CYLLIDO** | | | | | |
| Benthyca Allanol | 0 | 17,250 | 18,000 | 13,000 | 14,500 |
| Lwfans Atgyweirio Sylweddol | 2,688 | 2,688 | 2,688 | 2,688 | 2,688 |
| Cyfraniad Refeniw | 14,761 | 8,207 | 6,036 | 5,142 | 4,267 |
| Grantiau Eraill | 1,000 | 2,000 | 0 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm Cyllido** | 18,449 | 30,145 | 26,724 | 20,830 | 21,455 |

### Cyllideb Refeniw 5 Mlynedd

| | 2023.24 | 2024.25 | 2025.26 | 2026.27 | 2027.28 |
|---|---|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| **Cyfrif Incwm a Gwariant** | | | | | |
| **Incwm** | | | | | |
| Incwm Rhent | 21,051 | 21,806 | 23,345 | 24,031 | 25,022 |
| Foidiau | -358 | -371 | -397 | -409 | -425 |
| Rhent Net | 20,693 | 21,435 | 22,948 | 23,623 | 24,597 |
| Rhent Modurdai | 247 | 254 | 262 | 270 | 278 |
| Costau Gwasanaethau | 196 | 200 | 204 | 208 | 212 |
| Cyfraniad tuag at Wariant | 116 | 116 | 116 | 116 | 116 |
| Incwm Arall | 214 | 218 | 223 | 227 | 232 |
| **Gwariant** | | | | | |
| Cynnal a Chadw | -6,963 | -7,212 | -7,573 | -7,948 | -8,276 |
| Goruchwyliaeth a Rheolaeth | -4,174 | -4,257 | -4,343 | -4,429 | -4,518 |
| (Cynnydd)/gostyngiad I'r darpariaeth dyledion drwg | -316 | -305 | -327 | -312 | -325 |
| Costau Rheolaeth Dyled | -19 | -24 | -34 | -43 | -51 |
| **Costau Gwasanaethu Net** | 9,994 | 10,425 | 11,476 | 11,711 | 12,265 |
| Llog Taladwy | -4,412 | -5,743 | -7,283 | -8,808 | -10,295 |
| Incwm Buddsoddiadau y CRT | -23 | -47 | -46 | -46 | -46 |
| **Gwarged / (colled) am y flwyddyn** | 5,559 | 4,634 | 4,146 | 2,857 | 1,924 |
| | | | | | |
| **DATGANIAD O SYMUDIAD AR FANTOLEN Y CYFRIF REFENIW TAI** | | | | | |
| Gwarged / (colled) am y flwyddyn ar y Cyfrif Incwm a Gwariant CRT | 5,559 | 4,634 | 4,146 | 2,857 | 1,924 |
| Gwariant Cyfalaf wedi ei ariannu gan y CRT | -14,761 | -5,057 | -3,536 | -3,142 | -1,767 |
| Cynnydd / (gostyngiad) I fantolen y CRT am y flwyddyn | -9,201 | -422 | 610 | -286 | 157 |
| Mantolen y Cyfrif Refeniw Tai a ddygwyd ymlaen | 10,146 | 945 | 522 | 1,133 | 847 |
| Mantolen y Cyfrif Refeniw Tai I'w gario ymlaen | 945 | 522 | 1,133 | 847 | 1,004 |

## Tybiaethau Ariannol Sylfaenol

Mae rhagdybiaethau ariannol ar gyfer y Cynllun Busnes yn seiliedig ar y wybodaeth ganlynol

- Mae chwyddiant yn cael ei gyfrifo gan ddefnyddio cyfradd darged y Llywodraeth, sef 2% y flwyddyn.
- Tybir y bydd gwariant ar gynnal a chadw ac adeiladu newydd yn cynyddu 1% yn uwch na'r targed chwyddiant bob blwyddyn.
- Rhagwelir y bydd rhenti yn cynyddu 1% yn uwch na chwyddiant bob blwyddyn
- Rhagwelir y bydd y ddarpariaeth ar gyfer dyledion drwg yn 1.5% yn 2023/24 i ystyried y cynnydd yng nghostau cyfleustodau a chyflwyno Credyd Cynhwysol, gan leihau 0.1% bob 2 flynedd nes bod y lefel yn dychwelyd i 0.6%, sef y lefel cyn cyflwyno Credyd Cynhwysol.
- Mae disgwyl i golledion oherwydd eiddo sy'n wag am gyfnod fod yn 1.7% y flwyddyn.
- Mae'r cynllun cyfalaf yn seiliedig ar yr Arolwg diweddaraf o Gyflwr y Stoc, gyda chydrannau'n cael eu hamnewid yn unol â'r amserlen o gylchoedd bywyd cydrannau. Mae arolwg newydd o gyflwr y stoc newydd wrthi'n cael ei gynhyrchu ar hyn o bryd.
- Tybir y bydd rhaglen ddatblygu o adeiladu o'r newydd a phrynu hen dai cyngor yn parhau. O 2024/25, disgwylir i 45 uned gael eu darparu (30 adeilad newydd a 15 pryniant) bob blwyddyn. Bydd cynllun tai gofal ychwanegol arall gyda 50 (ynghyd â 14 uned breswyl) yn cael eu datblygu ar gost o £17m a'i gwblhau yn 2025/26.
- Mae'r cynllun yn caniatáu benthyca uchafswm o 6.5 x incwm.
- Heblaw am y grantiau cyfalaf a ddyfarnwyd yn ystod 2023/24 a derbyn grant o'r gronfa ICF tuag at y cyfleuster gofal ychwanegol yn 2025/26, tybir y bydd y CRT yn ariannu'r rhaglen ddatblygu yn llawn drwy gydol y cynllun.
- Rhagdybir bod y gyfradd llog ar falansau credyd yn 0.5% y flwyddyn. Rhagdybir y bydd benthyciadau newydd yn cael eu cymryd am gynod o 50 mlynedd ar gyfradd llog o 4.2%.
- Tybir na fydd dyledion yn cael eu talu'n ôl yn gynnar
- Mae incwm arall yn cynnwys tariff cyflenwi trydan (Grid Cenedlaethol), comisiwn o werthu yswiriant, taliadau carthffosiaeth a gwaith trwsio y codir amdano.

**Polisi Rheoli Trysorlys**

Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu ymagwedd un gronfa ar gyfer benthyciadau sy'n golygu bod costau benthyca yn cael eu cyfartalu rhwng y gronfa gyffredinol a'r CRT mewn modd sy'n gymesur â'u gofynion o ran ariannu cyfalaf.

**Lluniau isod – caiff y rhain eu hymgorffori yn y prif adroddiad wedi iddo gael ei gymeradwyo a'i anfon at y dylunydd graffeg**



Llecyn cynnes ym Mro'r Ysgol, Bodedern sy'n cael ei redeg gan y Gwasanaethau Tai








Diwrnod agor stad newydd – Erw Lôn yr Ysgol, Llanfachraeth



**Datblygiad tai Llaingoch, stad newydd a gwblhawyd ym mis Gorffennaf 2022 - Caergybi**

This page is intentionally left blank

# PRAWF BUDD Y CYHOEDD
# PUBLIC INTEREST TEST

**Cais Cymhleth am Grant Cyfleusterau i'r Anabl /Complex Disabled Facilities Grant Application**

| Paragraff(au) 12, 13,<br>Paragraph(s) 12, 13, | Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972<br>Schedule 12A Local Government Act 1972 |
|---|---|
| Y PRAWF – THE TEST | |
| Mae yna fudd y cyhoedd wrth ddatgelu oherwydd / | Y budd y cyhoedd with beidio datgelu yw / |
| Mae budd y cyhoedd mewn datgelu gan fod disgwyliad o dryloywder mewn perthynas â materion sy'n ymwneud â phrosesau gwneud penderfyniadau'r Cyngor Sir, yn enwedig lle mae'r penderfyniadau hynny'n effeithio ar alldaliadau cronfeydd cyhoeddus.<br><br>There is a public interest in disclosure as there is an expectation of transparency in respect of matters relating to the decision making processes of the County Council, particularly where those decisions impact on the disbursement of public funds. | Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys gwybodaeth am gyflyrau iechyd unigolion, oedrannau, amgylchiadau teuluol a bro'r eiddo y mae'r unigolion yn byw ynddo; Mae'r wybodaeth hon, ar y cyd, yn debygol o adnabod yr unigolion.<br><br>Gwasanaethir budd y cyhoedd mewn peidio â datgelu drwy osgoi'r tebygolrwydd y byddai datgelu yn arwain at adnabod unigolion neu'n arwain at ddatgelu unigolion mewn ffordd a fyddai'n torri darpariaethau di-ddatgelu Deddf Diogelu Data'r DU 2018.<br><br>This report contains information about individuals' health conditions, ages, family circumstances and the locality of the property in which the individuals live; this information, collectively, is likely to identify the individuals.<br><br>The public interest in not disclosing is served by averting the likelihood that disclosure would result in the identification of individuals or result in the disclosure about individuals in a way that would breach the non-disclosure provisions of the UK Data Protection Act 2018. |

**Argymhelliad** - Mae budd y cyhoedd wrth gadw'r eithriad o bwys mwy na budd y cyhoedd wrth ddatgelu'r wybodaeth.
**Recommendation** - The public interest in maintaining the exemption outweighs the public interest in disclosing the information.

This page is intentionally left blank

Yn rhinwed paragraff(au) 12, 13 Rhan 1 o Atodlen 12A
o Ddeddf Llywordraeth  Leol 1972.



Document is Restricted

This page is intentionally left blank